Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Ymgynghoriad ar amlosgi

## Yn dilyn ymchwiliadau diweddar i amlosgi babanod

Cyhoeddwyd yr ymateb hwn ar 7 Gorffennaf 2016

# Ymgynghoriad ar amlosgi

Yn dilyn ymchwiliadau diweddar i amlosgi babanod

**Ymateb i ymgynghoriad a wnaed gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder.**

**Mae'r wybodaeth yma hefyd ar gael yn [https://consult.justice.gov.uk/](https://consult.justice.gov.uk/)**

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagarweiniad a manylion cyswllt | 3 |
| Rhagair | 4 |
| Cefndir | 5 |
| Crynodeb o’r ymatebion | 6 |
| Ymatebion i gwestiynau penodol | 7 |
| Casgliad a'r camau nesaf | 56 |
| Egwyddorion ymgynghori | 61 |
| Atodiad A - Rhestr o’r ymatebwyr | 62 |

## Rhagarweiniad a manylion cyswllt

Ymateb yw'r ddogfen hon gan y Llywodraeth i'r papur ymgynghori 'Ymgynghoriad ar amlosgi'n dilyn ymchwiliadau diweddar i amlosgi babanod'.

Mae'n cynnwys:

- cefndir yr ymgynghoriad
- crynodeb o'r ymatebion a dderbyniodd y Llywodraeth
- ymateb manwl y Llywodraeth i'r cwestiynau a gododd yn yr ymgynghoriad
- y camau nesaf.

Mae mwy o gopïau o'r adroddiad hwn ac o'r papur ymgynghori ar gael drwy gysylltu â'r **Tîm Polisi Crwneriaid, Claddedigaethau, Amlosgi ac Ymchwiliadau** yn y cyfeiriad isod:

**Tîm Polisi Crwneriaid, Claddedigaethau, Amlosgi ac Ymchwiliadau**
**Y Weinyddiaeth Cyfiawnder**
**102 Petty France**
**Llundain SW1H 9AJ**

**Ffôn: 0203 334 3555**

**E-bost: coroners@justice.gsi.gov.uk**

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn https://consult.justice.gov.uk/

Gallwch ofyn am fformatau eraill o'r cyhoeddiad hwn drwy e-bostio coroners@justice.gov.uk.

### Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gŵyn neu sylw am broses yr ymgynghoriad, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

## Rhagair

Mae gwella deddfwriaeth ac ymarfer amlosgi babanod wedi bod yn flaenoriaeth i mi ers ymuno â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder y llynedd. Rwyf felly'n falch iawn gweld y ddogfen hon, sy'n nodi'r newidiadau y bwriadwn eu gwneud yn dilyn yr ymgynghoriad diweddar, yn cael ei chyhoeddi.

Fe wnaethom ymgynghori'n dilyn adroddiad David Jenkins ym Mehefin 2015 ar amlosgi babanod yn Amlosgfa Emstrey yn Sir Amwythig, ac adroddiad Comisiwn Amlosgi Babanod (ICC) yr Arglwydd Bonomy yn yr Alban ym Mehefin 2014. Canfyddiad yr adroddiadau hyn oedd, naill ai nad oedd llwch babanod yn cael ei hel yn dilyn amlosgi, neu fod y llwch yn cael ei hel ond na ofynnir i'r rhieni beth a ddylai ddigwydd iddo ac na roddir gwybod iddynt chwaith lle mae llwch eu babanod.

Roedd yr arferion hyn yn achosi trallod aruthrol i rieni a hynny ar ben eu galar o golli eu babanod. Mae siarad gyda rhai o'r rhieni hyn wedi dangos i mi'n gwbl glir sut y mae peidio â gwybod beth a ddigwyddodd wedi eu rhwystro rhag dod i delerau â'u colled, hyd yn oed ddegawdau wedyn. Yn drist, ni fydd rhai ohonynt byth yn gwybod beth a ddigwyddodd i lwch eu babanod.

Mae rhai o'r camau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i reoleiddio amlosgi a'r ymarfer yn well yn adeiladu ar y gwelliannau a wnaed eisoes gan lawer o awdurdodau amlosgi a threfnwyr angladdau ers cyhoeddi adroddiadau Emstrey a'r ICC.

Yn benodol byddwn yn gwneud y newidiadau canlynol:

- Yn darparu diffiniad statudol o 'lwch'. Bydd hyn yn nodi'n glir fod yn rhaid hel popeth sy'n cael ei amlosgi gyda baban, gan gynnwys dillad ac eitemau personol.

- Byddwn yn diwygio ffurflenni cais amlosgi i nodi'n glir beth yw dymuniad yr ymgeisydd ar gyfer y llwch sy'n cael ei hel. Bydd amlosgi ond yn digwydd ar ôl ymgynghori â'r ymgeisydd ar eu dymuniad, a bod cofnod o'u penderfyniad.

- Byddwn yn dod ag amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos oed o fewn sgôp y rheoliadau. Bydd trywyddau archwilio a rhagofalon cyfwerth i rieni sy'n amlosgi ar ôl colli baban yn ystod beichiogrwydd ag ar gyfer rhieni sy'n amlosgi'n dilyn cael baban marw-anedig neu sy'n marw wedyn.

- Byddwn yn sefydlu gweithgor cenedlaethol o arbenigwyr amlosgi i roi cyngor i ni ar:

    - fanylion y ffurflenni cais;
    - rheoleiddio amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos oed;
    - codau ymarfer a hyfforddiant ar gyfer staff amlosgfeydd;
    - gwybodaeth i rieni mewn profedigaeth; a
    - a ddylid cael arolygydd ar gyfer amlosgfeydd.

Bwriadwn i'r mesurau hyn sicrhau na fydd unrhyw riant mewn profedigaeth yn dioddef yn y dyfodol fel y gwnaeth llawer yn y gorffennol.

**Caroline Dinenage**

**Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Ferched, Cydraddoldeb a Chyfiawnder Teuluol**

## Cefndir

Cynhaliwyd Ymgynghoriad y Llywodraeth ar amlosgi'n dilyn ymchwiliadau diweddar i amlosgi babanod rhwng 16 Rhagfyr 2015 a 9 Mawrth 2016. Roedd yn gwahodd sylwadau ar gynigion i wneud nifer o newidiadau i Reoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008, a hefyd ar gynigion i wella arferion amlosgi, yn enwedig amlosgi babanod, yng Nghymru a Lloegr.

O ran newid deddfwriaeth, roedd y ddogfen ymgynghori'n gwahodd sylwadau ar:

- Y bwriad i gael diffiniad statudol newydd o lwch;
- A ddylai'r rheoliadau ofyn bod ymgeiswyr amlosgi'n gwneud penderfyniadau cyn amlosgi ar gasglu neu wasgaru'r llwch, a beth ddylid ei wneud os na fydd llwch yn cael ei gasglu;
- A ddylai fod yn ofynnol i awdurdodau amlosgi gadw cofnodion am hirach.

Gofynnwyd hefyd am farn pobl ynghylch a ddylid dod ag amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos oed o dan reoliadau 2008.

O ran gwella arferion, gwahoddwyd sylwadau gan bobl ar y materion canlynol:

- A ddylid cael arolygydd ar gyfer amlosgfeydd;
- Bwriad y Llywodraeth i sefydlu gweithgor amlosgi cenedlaethol, ac a ddylai ystyried hyfforddi'r diwydiannau amlosgi a threfnu angladdau a chael fframwaith technegol ar gyfer hel llwch babanod;
- Datblygu un neu fwy o godau ymarfer ar amlosgi a hyfforddiant ar amlosgi;
- Sut i wella'r wybodaeth a roddir i rieni mewn profedigaeth am amlosgi.

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn egluro sut y mae'r ymgynghoriad wedi dylanwadu ar benderfyniadau'r Llywodraeth ynglŷn â gwella rheoliadau ac arferion amlosgi.

Mae papur ymateb yn Saesneg ar gael yn https://consult.justice.gov.uk/

Mae rhestr o'r ymatebwyr ar gael yn Atodiad A.

## Crynodeb o'r ymatebion

1. Derbyniwyd 84 ymateb i'r ymgynghoriad, gan ystod o sefydliadau ac unigolion, yn cynnwys awdurdodau lleol, awdurdodau amlosgi, rhieni mewn profedigaeth, ysbytai, cyrff gwirfoddol, grwpiau ffydd a nifer o gymdeithasau masnach ar ran amlosgfeydd a threfnwyr angladdau.

2. Mae'r tabl isod yn rhannu'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn gategorïau (gyda'r categorïau awdurdodau amlosgi, trefnwyr angladdau a'r proffesiwn meddygol yn cynnwys ymatebion gan y cyrff sy'n eu cynrychioli), ynghyd â nifer yr ymatebwyr ym mhob categori:

| **Categori** | **Nifer yr Ymatebwyr** |
|---|---|
| Teuluoedd mewn profedigaeth | 12 |
| Elusennau a chyrff gwirfoddol | 5 |
| Awdurdodau amlosgi (gan gynnwys awdurdodau lleol sy'n rhedeg amlosgfeydd a chwmnïau amlosgi preifat) | 23 |
| Trefnwyr angladdau | 10 |
| Y proffesiwn meddygol | 14 |
| Grwpiau ffydd | 6 |
| Adrannau'r llywodraeth, Aelodau Seneddol a grwpiau seneddol | 3 |
| Eraill | 11 |

3. Roedd gan yr ymatebwyr yr opsiwn o gyflwyno eu hymateb naill ai drwy ddolen ar y we neu drwy holiadur. Dewisodd rai ymatebwyr gyflwyno eu hymateb mewn llythyr mwy cyffredinol yn rhoi sylw i bynciau ehangach yr ymgynghoriad, neu drwy sgwrs ar y we a gynhaliwyd dros gyfnod yr ymgynghoriad. Yn yr achosion hyn, lle'r oedd hynny'n bosib, rydym wedi categoreiddio'r ymatebion hyn o dan gwestiynau perthnasol yn yr ymgynghoriad i bwrpas dadansoddi. Mae'r grŵp 'Eraill' yn y tabl uchod yn cynnwys ymatebwyr nad oeddent yn disgyn i'r un o'r categorïau a rhai a ymatebodd heb ddweud a oeddent yn gwneud hynny ar ran sefydliad neu grŵp budd penodol.

4. Rydym wedi dadansoddi'r ymatebion yn ôl y farn am ein cynigion, o ran enghreifftiau ac awgrymiadau ar gyfer arferion gorau, a'r farn am effaith y cynigion.

5. Roedd pawb a ymatebodd yn gefnogol o amcanion yr ymgynghoriad sef i wella rheoleiddio ac arferion amlosgi babanod. Rydym yn dra diolchgar i bawb a ymatebodd am yr amrywiaeth eang o brofiadau, barn ac awgrymiadau a gynigiwyd ar draws pob un o feysydd yr ymgynghoriad. Mae mwy o fanylion am yr ymatebion i gwestiynau penodol yn yr ymgynghoriad ar gael yn yr adran nesaf.

## Ymatebion i gwestiynau penodol

### Ystyriaethau trosfwaol

**C1 - A oes gennych unrhyw sylwadau cyffredinol ar y broses amlosgi, neu ar reoliadau 2008? Os oes, rhowch fanylion os gwelwch yn dda.**

1. Atebodd bron i ddau allan o dri ymatebwr y cwestiwn hwn gan gynnig amrywiol farn am y broses amlosgi.

2. Roedd rhai'n pwysleisio cryfder teimlad yr ymatebwyr ynghylch amlosgi babanod. Er enghraifft, dywedodd Goleg Brenhinol y Bydwragedd:

*"Mae'n bwysig bod y broses amlosgi'n cael ei rheoleiddio i sicrhau bod merched, eu teuluoedd a'u ffrindiau'n deall beth i'w ddisgwyl a bod y gwasanaeth yn dangos parch ac yn ateb eu hanghenion. Byddem yn hoffi pwysleisio bod colli baban yn ystod y cyfnod beichiog, naill ai cyn neu ar ôl 24 wythnos, neu farwolaeth plentyn, yn gallu cael effaith aruthrol a hirdymor ar y ferch a'i theulu. Mae'r rheoliadau'n gyfle i wreiddio'r canlynol yn y system: cydnabod bod merched / teuluoedd yn gwerthfawrogi os yw eu ffetws yn cael ei drin gyda pharch ac urddas; cydnabod bod y ffetws yn bwysig i'r ferch / teulu; cydnabod bod gofal priodol gan y system amlosgi'n gallu helpu gyda'r broses alaru. Mae cyfle hefyd i gynnig mwy o ddewisiadau i ferched a theuluoedd mewn profedigaeth a chefnogwn hyn yn llwyr."*

3. Yn yr un modd, dywedodd Cruse:

*"Dylai'r baban (cynamserol iawn, marw-anedig neu'n faban wedi'i eni) a'i deulu / rhai agosaf ato neu ati, fod wrth galon y broses. Dylid eu trin gyda pharch, tosturi, urddas a sensitifrwydd bob amser. Mae angen cael proses amlosgi gyson, gan gynnwys sut y mae pob amlosgfa'n delio gyda llwch. Mae hyn yn cynnwys safonau a diffiniadau cyson....Gall fod yn ddefnyddiol iawn i rieni sy'n galaru gael llwch eu baban, er ychydig efallai ydynt, i'w gwasgaru a'u claddu ac i roi rhywle y medrant ymweld â fo a chofio eu plentyn. Gall diffyg llwch achosi poen a thrallod ychwanegol a allai bara oes. Mae llwch unrhyw beth sy'n gysylltiedig â'r baban, fel yr arch, dillad neu degan meddal, i gyd yn rhan o gadarnhau bodolaeth y baban. Mae angen mynediad at gymorth parhaus ar rieni mewn profedigaeth."*

4. Roedd y Lullaby Trust yn dymuno:

*"Dim ond cytuno ag argymhellion y [Comisiwn ar Amlosgi Babanod].... Mae teuluoedd wedi cysylltu gyda ni flynyddoedd ar ôl amlosgiad yn mynegi naill ai dryswch am yr hyn a ddigwyddodd neu'n teimlo na chawsant y dewisiadau oedd ar gael, felly byddwn yn cefnogi unrhyw newid i hyn."*

5. Rhoddodd rai ymatebwyr fanylion am eu profiadau personol o amlosgi babanod. Er enghraifft, yn ôl un rhiant mewn profedigaeth roedd trefnydd angladdau, yn eu profiad nhw, yn:

*"Trin yr ysbyty fel yr ymgeisydd ac ond yn rhyddhau llwch y baban i'r rhieni ar ôl ymgynghori â'r ysbyty oherwydd, mewn rhai achosion ac fel y digwyddodd yn fy achos i, y fydwraig neu'r clerc swyddfa sy'n llofnodi'r ffurflenni cais."*

6. Dywedodd rai fod eu ffydd yn gofyn iddynt gladdu'n hytrach nag amlosgi (gweler C41 am fwy o fanylion).

7. Soniodd sawl un am broblemau a gawsant gyda llenwi ffurflenni amlosgi, er enghraifft trafferthion gyda chael meddygon lleol i lenwi'r ffurflenni'n brydlon a chywir. Dywedodd un ysbyty

fod y ffurflenni amlosgi'n cymryd gormod o amser i'w llenwi. Awgrymodd ysbyty arall y dylid cael hyfforddiant i feddygon sy'n llenwi'r ffurflenni, gan sôn hefyd am ddiffyg cysondeb yn yr ymarfer rhwng canolwyr meddygol mewn amlosgfeydd.

8. Cwestiynodd un trefnydd angladdau a oedd angen anfon y ffurflenni perthnasol i'r awdurdod amlosgi bum diwrnod cyn yr amlosgiad, gan ddweud ers i Reoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008 ddod i rym yn 2009 mai dim ond pedwar cleient oedd wedi gofyn am gael archwilio'r ffurflenni. Aeth y trefnydd angladdau ymlaen i ddweud, *"Mae hyn wedi gwneud y broses o drefnu angladd yn hirach o wythnos".* Soniodd ymatebwr arall am drafferthion yn dod o hyd i'r berthynas agosaf.

9. Dywedodd un awdurdod lleol y dylem gofio'r gost iddyn nhw o argraffu ffurflenni amlosgi newydd.

10. Soniodd rai am faterion oedd y tu allan i gylch gwaith yr ymgynghoriad – fel 'rheol 200 llath' Deddf Amlosgi 1902, y diwygiadau i dystysgrifau marwolaeth sydd mewn golwg gan yr Adran Iechyd, a gwahanol fathau o eirch. Dywedodd eraill y dylai deddfwriaeth ac arferion amlosgi fod yr un fath nid yn unig yng Nghymru a Lloegr (fel ar hyn o bryd) ond hefyd yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

**Ymateb a gweithredu arfaethedig**

- Lle bo hynny'n briodol ystyriwn y pwyntiau a wnaed mewn ymateb i'r cwestiwn hwn mewn rhannau eraill o'r ddogfen hon.

- Oherwydd nad oedd yr ymatebion i'r cwestiwn cychwynnol hwn yn awgrymu unrhyw broblemau amlwg, ni fwriadwn ar hyn o bryd weithredu ar unrhyw bwyntiau penodol a godwyd.

## 2 - Y diffiniad o lwch

**C2 – Ydych chi'n cytuno y dylid diffinio 'llwch' yn y ddeddfwriaeth fel 'y cwbl sydd ar ôl yn yr amlosgydd ar ddiwedd y broses amlosgi ac ar ôl tynnu unrhyw fetel allan'? Os na, eglurwch pam os gwelwch yn dda.**

11. Roedd yr ymgynghoriad yn cyflwyno ein cynigion ar gyfer diffiniad statudol o lwch. Roedd yr ymatebwyr i gyd bron o blaid hwn.

12. Er enghraifft, roedd Cyngor Dinas Caerlŷr yn nodweddiadol o farn pobl pan ddywedodd: *"Mae'r diffiniad yn cynnig eglurder i deuluoedd mewn profedigaeth ac amlosgfeydd a dylid ei ddiffinio mewn deddfwriaeth. Mae ein hawdurdod eisoes wedi mabwysiadu'r diffiniad fel polisi ac ni welaf unrhyw reswm pam na all pob amlosgfa ei fabwysiadu".*

*13.* Dywedodd un trefnydd angladdau fod y diffiniad arfaethedig yn *"glir, diamwys a hawdd i bawb ei ddeall"* a dywedodd Sands (yr elusen marw-enedigaethau a marwolaethau newydd-anedig) y *"byddai cysoni'r diffiniad o lwch yng Nghymru a Lloegr â'r hyn sydd mewn golwg yn yr Alban hefyd yn rhoi diffiniad clir o lwch ar draws y gwledydd [ac] yn sicrhau arferion mwy unffurf ar gyfer amlosgi babanod."*

14. Teimlai nifer o ymatebwyr, rhieni mewn profedigaeth yn bennaf, y dylid cynnwys popeth oedd ar ôl yn yr amlosgydd ar ôl yr amlosgiad, gan gynnwys unrhyw fetel.

**C3 – Ydych chi'n meddwl y bydd y diffiniad hwn o lwch yn gofyn am newid arferion mewn amlosgfeydd? Pam / pam ddim?**

15. Ni atebodd dros hanner yr ymatebwyr gwestiwn 3 neu nid oeddent yn gwybod a fyddai diffiniad statudol o lwch yn gofyn am newidiadau i arferion amlosgi. Yn y grŵp olaf hwn, roedd cymysgedd o ymatebwyr gan gynnwys awdurdodau lleol, rhieni mewn profedigaeth a threfnwyr angladdau.

16. Dywedodd y rhan fwyaf a fynegodd farn y byddai creu diffiniad statudol o lwch fel sy'n cael ei gynnig yng nghwestiwn 2 yn cael dim neu fawr ddim effaith ar arferion amlosgi. Awdurdodau lleol, trefnwyr angladdau a phob un o'r awdurdodau amlosgi oedd y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd. Er enghraifft, dywedodd Ffederasiwn yr Awdurdodau Claddu ac Amlosgi (FBCA) *"na fyddai'r diffiniad hwn o lwch yn arwain at ofyn i amlosgfeydd sy'n dilyn Cod Ymarfer Amlosgi'r FBCA newid eu harferion amlosgi".* Dywedodd y Sefydliad Rheoli Mynwentydd ac Amlosgfeydd (ICCM) *"Efallai y bydd angen i rai roi mwy o ystyriaeth i amodau a ffactorau gweithredol yng nghyswllt amlosgi babanod a phlant bach er mwyn dangos eu bod yn hel gymaint o lwch â phosib".*

17. Y grŵp mwyaf a awgrymodd y byddai angen i arferion amlosgi newid o ganlyniad i newid y diffiniad statudol o lwch oedd rhieni mewn profedigaeth, gyda dau allan o dri'n credu y byddai angen i newidiadau ddigwydd ac y byddai diffiniad statudol o lwch yn allweddol i wella arferion yn fwy cyffredinol. Ysgrifennodd Action 4 Ashes:

*"Ie byddai angen newid ymarfer; rhaid cymhwyso pob darn o gyfarpar a thechneg i broses amlosgi i sicrhau bod gweddillion yr anwylyd yn cael eu dychwelyd, yn achos amlosgi babanod a phlant bach drwy ychwanegu treis babanod wrth amlosgi pob baban, a thrwy addasu'r tymheredd a rheoli'r broses yn gyffredinol i sicrhau bod y gweddillion yn cael eu dychwelyd bob tro".*

18. Yn ôl ymateb gan un rhiant mewn profedigaeth:

*“Efallai y byddai angen hyfforddiant ar sut i hel llwch, e.e. tymheredd, llif yr aer, amser yr amlosgiad (yn fuan yn y bore mae’r amlosgydd yn oerach), defnyddio treis babanod. Os yw’r diffiniad yn cael ei newid fel bod yn rhaid rhoi unrhyw beth sydd ar ôl yn dilyn yr amlosgiad i’r rhieni, yna ni fyddai unrhyw ddryswch gyda phobl yn cymryd mai’r cwbl fydd ar ôl yw arch y baban ac felly, na fyddai angen ei roi i’r rhieni.”*

**C4 - [Ar gyfer awdurdodau amlosgi] Ydy eich cyfarpar amlosgi’n hel gymaint o’r llwch â phosib (er enghraifft drwy ddefnyddio treis amlosgi i gadw’r llwch lle bo hynny’n ymarferol, a thrwy gynnal amodau gweithredol er mwyn colli cyn lleied o lwch â phosib yn ystod y broses amlosgi)? Os na, pa newidiadau fyddai angen eu gwneud i hel gymaint o lwch â phosib? Os byddai gan hyn oblygiadau cost, rhowch fanylion am ba gostau fyddai’n codi, a faint y byddech yn disgwyl iddynt fod.**

19. Atebodd dri chwarter yr awdurdodau amlosgi a’r awdurdodau lleol y cwestiwn hwn drwy egluro eu dulliau o hel mwy o lwch. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio “treis babanod”; amlosgi’r peth olaf gyda’r nos neu’r peth cyntaf yn y bore pan fydd amlosgyddion yn oerach; neu ddefnyddio gosodiadau ‘baban’ arbenigol ar amlosgfeydd. Awgrymai Dignity y “*dylid ystyried gostwng y tymheredd ar gyfer amlosgi babanod, gan gadw o fewn y drwydded, er mwyn lleihau’r posibilrwydd o derfysg ac ni ddylai gael fawr ddim effaith ar allyriadau.”*

20. Yn ôl Cyngor South Tyneside:

*“Ydym rydym yn defnyddio treis ar gyfer babanod sy’n hel gymaint o lwch â phosib. Mae gan Dechnegwyr Amlosgfeydd, a hefyd Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd, ymarfer cytunedig i golli cyn lleied o lwch â phosibl a hefyd cydymffurfio â’r Drwydded Amgylcheddol.”*

21. Dywedodd bob un ymateb gan yr awdurdodau amlosgi ac awdurdodau lleol fod y gallu ganddynt i hel llwch o amlosgiadau babanod (er nad oedd efallai’n cynnwys ffetysau llai na 24 wythnos oed – gweler adran 12 am fwy o fanylion am yr amlosgiadau hyn.

**Ymateb a gweithredu arfaethedig**

- Ar y cyfan roedd yr ymatebwyr o blaid y diffiniad arfaethedig o lwch. Teimlai lawer y byddai’n ddefnyddiol ar gyfer hel llwch oherwydd byddai’n glir bod popeth yn yr arch ar ôl amlosgiad (ac eithrio metel) i gael ei ystyried fel llwch.

- Cynigiwn ddiwygio’r rheoliadau amlosgi i gynnwys diffiniad statudol newydd o lwch fel popeth sydd ar ôl yn yr amlosgydd ar ddiwedd y broses amlosgi ac ar ôl tynnu unrhyw fetel allan.

- Dylai hyn helpu i atal yr hyn sydd wedi digwydd yn y gorffennol lle rhoddwyd gwybod i rieni na fyddai unrhyw lwch o gorff eu baban ar ôl yn yr amlosgydd ar ôl yr amlosgiad ac mai’r cwbl fyddai ar ôl fyddai gweddillion yr arch, oedd ddim yn cyfrif fel llwch, gan olygu nad oedd y rhieni’n derbyn unrhyw lwch o gwbl. Mae’r diffiniad newydd yn nodi’n glir bod y llwch sydd i’w hel yn cyfeirio nid yn unig at y baban ond hefyd at yr arch ac eitemau personol yn yr arch, fel dillad neu deganau meddal.

- Byddwn yn gofyn i’r gweithgor amlosgi cenedlaethol ystyried pa ddarpariaeth i’w gwneud ar gyfer unrhyw fetel – na fydd yn cael ei ystyried fel llwch o dan ein diffiniad ni – a allai fod yn yr amlosgydd.

## 3 - Casglu a gwasgaru llwch

**C5 – Ydych chi'n meddwl y dylai'r amlosgiad fynd yn ei flaen dim ond os yw'r ymgeisydd wedi dweud beth ddylai ddigwydd i'r llwch? Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda, gan gynnwys unrhyw effeithiau negyddol a / neu effaith gost bosib.**

22. Roedd y ddogfen ymgynghori'n egluro fod y cwestiwn hwn yn gofyn am farn pobl yng nghyswllt pob amlosgiad rheoledig, nid dim ond amlosgiadau baban. Atebodd dros dri chwarter yr ymatebwyr y cwestiwn hwn. Er bod y rhai a atebodd 'ie' a'r rhai a atebodd 'na', ar yr olwg gyntaf, efallai'n ymddangos i fod â barn wahanol, roedd byrdwn eu hatebion yn dangos eu bod yn cytuno ar y mater hwn. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (ar draws pob categori) o blaid caniatáu i amlosgiad fynd yn ei flaen dim ond lle'r oedd yr ymgeisydd wedi dweud beth ddylai ddigwydd i'r llwch, cyn belled â bod un o'r opsiynau'n gadael i'r ymgeisydd ddweud eu bod eisiau i'r llwch, ar ôl yr amlosgiad, gael ei gadw (gan y trefnydd angladdau neu'r awdurdod amlosgi) hyd nes y byddai'r ymgeisydd wedi penderfynu'n derfynol. Roedd hyn oherwydd bod yr ymatebwyr yn credu y gallai fod yn anodd i rai rhieni oedd newydd golli eu baban wneud penderfyniad terfynol.

23. Er enghraifft, meddai Sands:

*"Rhaid cydnabod nad yw pob rhiant yn gallu gwneud penderfyniad ar beth a ddylai ddigwydd i'r llwch cyn i'r amlosgiad ddigwydd. Rhaid caniatáu a pharchu bod angen amser arnynt. Heb hyn gallai rhieni mewn profedigaeth deimlo dan bwysau i wneud penderfyniadau y gallent ddifaru eu gwneud nes ymlaen".*

24. Roedd Gofal Profedigaeth Cruse gyda barn debyg:

*"Cytunwn ag argymhellion yr ICC y dylid gofyn i ymgeiswyr ddweud sut y dylid delio â'r llwch ar ôl yr amlosgiad. Dylid cydnabod y bydd rhai pobl mewn profedigaeth yn ei chael yn anodd ac eithriadol drallodus penderfynu beth ddylai ddigwydd i'r llwch ac, felly, y dylai'r opsiynau gynnwys eu cadw am gyfnod penodol hyd nes y bydd penderfyniad terfynol wedi'i wneud a hefyd bod modd ymestyn y cyfnod y gellir eu cadw. Byddai'n briodol ymestyn hyn i bob amlosgfa reoledig. Lle cedwir llwch yn yr amlosgfa ar y sail y bydd rhywun yn dod i'w nôl, neu hyd nes y derbynnir cyfarwyddyd pellach o fewn cyfnod penodol, dylid rhoi rhybudd o fis yn hytrach na 14 diwrnod o'r bwriad i wasgaru llwch na chafodd ei gasglu."*

25. Meddai'r Lullaby Trust:

"*Ie. Rydym wedi cael cyswllt gyda gormod o deuluoedd sy'n ansicr a oedd llwch ar ôl neu beidio ac oedd eisiau opsiynau ynghylch beth i'w wneud gyda nhw. Credwn mai'r unig ffordd o sicrhau bod y cwestiwn yn cael ei ofyn i deuluoedd, a'u bod yn cael opsiynau, yw gwneud hyn yn orfodol. Yn y tymor hir gallai hyn arbed amser i rai sy'n gorfod ymchwilio i weld beth a ddigwyddodd i lwch flynyddoedd wedyn. O bersbectif teulu mewn profedigaeth ni welwn unrhyw effaith negyddol o ofyn y cwestiwn. Efallai y bydd angen hyfforddiant ar rai fydd yn gofyn y cwestiwn i sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn sensitif."*

26. Dywedodd nifer o awdurdodau amlosgi a'r cyrff oedd yn eu cynrychioli fod gan ymgeiswyr yn eu hardaloedd yr opsiwn eisoes o gadw'r llwch yn yr amlosgfa hyd nes y derbyniwyd cyfarwyddyd pellach gan yr ymgeisydd. Roeddent felly'n teimlo na fyddai unrhyw gost ynghlwm wrth ofyn i'r ymgeisydd am gyfarwyddyd ar waredu'r llwch cyn i'r amlosgiad fynd yn ei flaen. Roedd rhai trefnwyr angladdau'n poeni y gallai gofyniad o'r fath arwain at oedi angladdau ac achosi cost ychwanegol am gadw'r corff cyn ei amlosgi.

27. Cynigiodd y FBCA yr opsiynau canlynol fel y gallai ymgeiswyr ddweud beth a ddylai ddigwydd i'r llwch:

*"O gofio'r amgylchiadau trallodus a allai ymyrryd â gwneud penderfyniad yn syth ar ôl colli baban am ba bynnag reswm, dylai penderfyniad yr ymgeisydd ar yr adeg y gwneir y trefniadau fod yn seiliedig ar y canlynol. Llwch i'w wasgaru (heb dyst), Llwch i'w wasgaru (gyda thyst), Llwch i'w symud o'r amlosgfa, Llwch i'w gadw yn yr amlosgfa (hyd nes y gwneir penderfyniad – a gellid rhoi terfyn amser ar gyfer hyn). Gellid delio â hyn fel rhan o'r ffurflen gais neu, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd yn y rhan fwyaf o amlosgfeydd, drwy lenwi ffurflen anstatudol ar wahân."*

**C6 – [Ar gyfer awdurdodau amlosgi a threfnwyr angladdau] Pa ganran o amlosgiadau sy'n cael eu cynnal lle na chesglir y llwch? Pam felly, a beth ydych chi'n ei wneud os nad yw'r llwch yn cael ei gasglu? A oes gan eich awdurdod / cwmni amlosgi weithdrefn ffurfiol?**

28. Atebwyd y cwestiwn hwn gan dri chwarter yr awdurdodau amlosgi, awdurdodau lleol a'r trefnwyr angladdau oedd wedi ymateb. O ran y ganran o amlosgiadau lle nad oedd y llwch yn cael ei gasglu, roedd yr atebion yn amrywio rhwng 0% a thua 25%. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod yr ymatebwyr wedi ateb y cwestiynau mewn ffyrdd gwahanol, gyda rhai'n cynnwys manylion am bob llwch nad yw'n cael ei gasglu'n syth; eraill yn cynnwys dim ond achosion lle nad yw'r llwch yn cael ei gasglu hyd yn oed ar ôl atgoffa'r ymgeisydd; ac eraill wedyn yn cynnwys achosion lle'r oedd ymgeiswyr yn dweud wrth ymgeisio eu bod am i'r awdurdod amlosgi waredu'r llwch.

29. Er enghraifft, yn ôl un trefnydd angladdau:

*"Mae llai na 1% [yn cael eu casglu]. Er bod gennym nifer o setiau llwch hirdymor, maen nhw fel arfer yn aros i berthynas agos farw. Yr unig amgylchiadau lle nad ydyn ni'n gallu datrys y mater yw lle mae'r berthynas agosaf naill ai wedi symud ac ni allwn ddod o hyd iddynt neu lle maen nhw wedi marw ac mae'r angladd wedi'i drefnu gan gwmni arall."*

30. Eglurodd nifer o'r ymatebwyr beth oedden nhw'n ei wneud os nad yw ymgeiswyr yn casglu'r llwch ar ôl dweud y byddent yn dod i'w nôl. Er enghraifft dywedodd Gyngor Sir Benfro:

*"Mae llwch nad yw'n cael ei gasglu'n cael ei roi mewn storfa dros dro, ac ar ôl mis rydyn ni'n dechrau gwneud ymholiadau drwy'r trefnydd angladdau. Mae gennym gymal yn ein gwaith papur sy'n gadael i ni gladdu ar ôl chwe mis, ond hyd yma nid ydyn ni wedi'i ddefnyddio."*

31. Yn ôl Awdurdod Amlosgi Bracknell Forest:

*"Y drefn a ddefnyddiwn ni yw gofyn i'r teulu lenwi adran o'r Gwaith Papur Amlosgi (Cyfarwyddyd ar gyfer Gweddillion a Amlosgwyd) i roi gwybod i ni beth yw eu dymuniad ar gyfer y gweddillion. Os nad ydynt yn siŵr medrant dicio blwch i gadw'r llwch mewn Storfa Dros Dro gyda thri mis i wneud eu penderfyniad. Gyda'r llofnod hwn maen nhw hefyd yn awdurdodi'r Amlosgfa i wasgaru'r llwch yn yr Ardd Goffa os nad ydynt yn rhoi unrhyw gyfarwyddyd ysgrifenedig i'r Amlosgfa ar ôl tri mis (mae hyn yn cynnwys yr opsiwn o barhau i gadw'r llwch yn y Storfa Dros Dro am ffi). Ar ôl tri mis rydyn ni'n anfon llythyr atynt yn dweud ein bod yn dal i aros am gyfarwyddyd, yna arhoswn 14 diwrnod arall cyn anfon llythyr drwy ddosbarthiad cofnodedig at yr ymgeisydd yn eu hysbysu y byddwn yn gwasgaru'r llwch os na dderbyniwn gyfarwyddyd o fewn 14 diwrnod arall. Mae'r broses yn cymryd pedwar mis i gyd ond rydym bob amser yn bwyllog ac yn aros am chwe mis a hyd nes y byddwn wedi gwneud popeth y gallwn (h.y. cysylltu â'r Trefnydd Angladdau am unrhyw wybodaeth bellach) cyn gwasgaru'r llwch. Ar hyn o bryd mae llai na 5% heb gael eu casglu."*

32. Dywedodd rai awdurdodau amlosgi nad ydynt fel rheol yn cadw'r llwch, ond yn eu rhoi i'r trefnydd angladdau. Trefnydd yr angladd sydd yna'n gyfrifol am gysylltu â'r ymgeisydd amlosgi i osod y llwch yn ei orffwysfa derfynol. Dywedodd un trefnydd angladdau wrthym:

*Dros gyfnod o flwyddyn, h.y. 2015, cyflawnodd ein cwmni 285 o amlosgiadau ac, o'r rhain, mae gweddillion llwch 51 Amlosgiad yn dal i fod gennym. Mae hyn yn 17.89%. Gallai fod oherwydd nad yw'r teulu wedi penderfynu ar orffwysfa derfynol neu ydynt byth yn dod i'w nôl, ar hyn o bryd mae gennym weddillion llwch 365 o Amlosgiadau dros 51 mlynedd o fod mewn busnes. Oherwydd nad*

*oes deddfwriaeth ar berchnogaeth o'r Gweddillion Amlosgi ar ôl iddynt adael yr Amlosgfa, mae'r cwestiwn o berchnogaeth yn parhau. Gallai'r llwch efallai fod ym meddiant y Trefnydd Angladdau, o dan y contract rhwng y Trefnydd Angladdau a'r cleient. Fel cwmni nid oes gennym unrhyw weithdrefn ffurfiol ar gyfer holi teuluoedd ymhellach ynghylch dod i nôl eu Gweddillion Amlosgi."*

33. Gwnaed sylw tebyg gan y Gymdeithas Amlosgfeydd a Mynwentydd Preifat (APCC) a nododd, yn achos ei aelodau:

*"Mae tua 75% o'r llwch yn cael ei gasglu o'r amlosgfeydd ac, ar gyfartaledd, mae casgliadau llwch ein haelodau'n unol â'r ffigur hwn. Gwyddom fod gan aelodau weithdrefnau ffurfiol yn eu lle. Y gwir bryder yw'r llwch sy'n hel ac yn cael eu cadw gan drefnwyr angladdau, sy'n fater a ddylai gael sylw gan yr Ymgynghoriad hwn"*

**C7 – Ydych chi'n meddwl y dylid diwygio'r ffurflen gais statudol ar gyfer amlosgi yn rheoliadau 2008 i gynnwys opsiynau ar gyfer unrhyw lwch sy'n cael ei hel, neu ydych chi'n meddwl bod y prosesau anstatudol presennol (ynghyd â dyletswydd statudol yr awdurdodau amlosgi i gofnodi yn eu cofrestri sut y cafodd y llwch ei waredu) yn ddigon?**

34. Atebodd tua dau allan o dri o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn, gydag ychydig dros hanner y rheini'n dweud y dylai ffurflen gais statudol nodi beth a ddylai ddigwydd i'r llwch sydd wedi cael ei hel. Er enghraifft, dywedodd Goleg Brenhinol y Patholegwyr:

*"Dylid diwygio'r ffurflen gais statudol ar gyfer amlosgi i gynnwys opsiynau ar gyfer y llwch fel bo'r broses yn un gyson ar draws y Deyrnas Unedig gyda phob amlosgfa'n gorfod cydymffurfio. Dylid nodi amserlen ar gyfer casglu'r llwch ynghyd ag opsiwn wrth gefn os nad yw'n cael ei gasglu o fewn yr amserlen."*

35. Roedd y rhai a atebodd 'na' i'r cwestiwn hwn yn tueddu i deimlo bod y ffurflenni anstatudol yr oeddent yn eu defnyddio'n barod yn ddigon da. Er enghraifft, meddai Cyngor Gateshead:

*"Mae'r broses anstatudol bresennol yn ddigon da. Rydym yn gofyn am lofnod yr ymgeisydd ar ein ffurflen Hysbysiad o Amlosgi yn cadarnhau beth a ddylai ddigwydd i'r llwch. Mae hyn, ynghyd â chofnodi'n ffurfiol beth a ddigwyddodd i'r llwch, yn ddigon oherwydd byddai cynnwys cyfarwyddyd ar y ffurflen gais yn dyblygu'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu'n barod."*

36. Ychwanegodd Gymdeithas Genedlaethol y Trefnwyr Angladdau (NAFD):

*"Mae'r NAFD o blaid y broses anstatudol bresennol oherwydd mae'n rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i bobl yn eu profedigaeth. Nid yw'r Gymdeithas yn credu bod angen gwneud yr opsiynau hyn yn ofyniad statudol. Mae cofrestr statudol yr awdurdod amlosgi'n ddigon o warchodaeth."*

37. Roedd Cyngor Dinas Caerlŷr o blaid cael ffurflen statudol gyda chafeat y dylid caniatáu amrywiadau lleol:

*"Byddai diwygio'r Rheoliadau'n symlach a chliriach ac yn rhywbeth y byddem yn ei gefnogi i sicrhau ymarfer a gweithdrefnau mwy cyson ym mhob amlosgfa. Fodd bynnag, gallai hyn fod yn anodd oherwydd mae ein hamlosgfa ni'n defnyddio mwy nag un man gwasgaru felly byddai angen i'r ffurflen ganiatáu ar gyfer hyn drwy gynnwys pob opsiwn gwasgaru / claddu sydd ar gael."*

38. Teimlai rieni mewn profedigaeth hefyd fod angen newid y ffurflenni i gynnwys cwestiynau ynghylch cofnodi sut oedd y llwch yn cael ei waredu. Yn ôl Action 4 Ashes:

*"Nid yw'r ffurflenni cais statudol presennol yn ddigon da ac, yn bwysicach, mae'r ffordd y maen nhw'n cael eu llenwi'n warthus; rhaid cael cofnod o lwch sy'n cael ei hel ac mae angen cadw'r cofnodion am gyfnod amhenodol; mae dogfennau wedi cael eu ffugio a rhoddir gormod o amser i*

*lenwi'r ffurflenni sy'n ychwanegu at y diffyg ystyriaeth o amlosgi. Mae angen newid pethau i warchod rhieni'n fwy nag amlosgfeydd."*

**C8 – Ydych chi'n meddwl, ar ôl cofnodi yn y gofrestr bod llwch wedi'i hel neu leoliad y llwch, y dylai awdurdod amlosgi orfod anfon copi o'r cofnod yn y gofrestr i'r ymgeisydd? Pam / pam ddim?**

39. Atebodd tua thri chwarter yr ymatebwyr y cwestiwn hwn gydag ychydig dros hanner y rheini'n dweud na ddylai awdurdod amlosgi orfod anfon copi o'r cofnod cofrestr i'r ymgeisydd bob tro. Roedd patrwm clir ymhlith yr ymatebwyr, gydag awdurdodau amlosgi, awdurdodau lleol a threfnwyr angladdau'n bennaf yn erbyn yr awgrym yn y cwestiwn hwn, a phobl mewn profedigaeth a gweithwyr meddygol proffesiynol yn bennaf o blaid.

40. Credai'r rhai nad oedd o blaid y byddai gofyniad o'r fath yn faich diangen ar drefnwyr angladdau ac awdurdodau amlosgi. Dywedodd un cyn-reolwr gwasanaethau profedigaeth:

*"Dw i'n meddwl y byddai hyn yn ofyniad beichus ac yn drysu'r swyddogaeth. Byddai'n cael ei weld i fod yn ymyrryd â threfniadau'r trefnydd angladdau. Nhw sy'n gyfrifol am roi gwybod i'r ymgeisydd beth sy'n digwydd, ac yn cael eu talu am y gwaith hwn fel rhan o'r pecyn angladd."*

41. Dywedodd Cyngor Sir Benfro:

*"Os yw'r broses eisoes yn ei lle, bydd y teuluoedd yn gwybod ac yn ffyddiog bod y gweddillion wedi cael eu rhoi lle gofynnwyd iddynt gael eu rhoi. Hefyd, mae sut y gwaredir y gweddillion yn derfynol yn cael ei gofnodi bob tro ar ein gwefan ac ar gael yn gyhoeddus."*

42. O'r rhai oedd o blaid gofyniad o'r fath, dywedodd rai y byddai'n atgof o'u baban. Meddai Sands:

*"Ie. Dylid dweud wrth rieni y byddant yn derbyn y wybodaeth yma ac yn fras pryd i'w disgwyl. Dylai'r wybodaeth yma gyrraedd mewn amlen wedi'i labelu'n glir fel ei bod yn glir i'r rhiant gan bwy y daeth. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r rhiant beidio ag agor y llythyr tan rywbryd eto. Yn yr amlen dylid hefyd rhoi gwybodaeth yn cyfeirio pobl ymlaen at fudiadau cymorth fel Sands."*

43. Meddai un rhiant mewn profedigaeth:

*"Ie, dylid anfon copi o'r cofnod yn y gofrestr i'r ymgeisydd oherwydd dylai fod yn ddogfen gyfreithiol. Yn fy achos i roedd fy mab yn farw-anedig, does gen i ddim i gofio amdano, ac mae hyd yn oed y ddogfen hon gyda'i enw arni'n bwysig i mi."*

**Ymateb a gweithredu arfaethedig**

- Credwn mai prif bwrpas ffurflen gais amlosgi'n nodi beth a ddylai ddigwydd i lwch fyddai sicrhau bod ymgeiswyr yn deall eu hopsiynau ac yn gwneud penderfyniad gwybodus. Pwrpas arall fyddai er mwyn gwneud y broses yn dryloyw a chael trywydd archwilio o ran beth fydd yn digwydd i lwch (yn hytrach na chyfarwyddo am ba hir y dylid cadw llwch, oherwydd gallai hyn amrywio yn ôl cyfleusterau ac amgylchiadau lleol).

- Cynigiwn felly ddiwygio'r ffurflen gais amlosgi i ychwanegu adran newydd lle gall yr ymgeisydd ddweud beth a ddylai ddigwydd i'r llwch, gyda'r opsiynau canlynol yn cael eu cynnig: 1) llwch i'w wasgaru neu gladdu yn yr amlosgfa, 2) llwch i'w gasglu o'r amlosgfa, 3) llwch i'w gadw hyd nes y bydd yr ymgeisydd wedi gwneud penderfyniad. Cynigiwn wedyn gael blwch lle gall yr ymgeisydd roi manylion pellach – fel:

- O dan opsiwn 1, a ydynt eisiau i rywun fod yn dyst i wasgaru'r llwch a / neu ble maen nhw eisiau i'r llwch gael ei wasgaru (er enghraifft, ble ar dir yr amlosgfa, ac efallai gydag amserlen bosib ar gyfer gwasgaru i'w nodi ar y ffurflen)
    - O dan opsiwn 2, a fydd y llwch yn cael ei gasglu gan yr ymgeisydd, neu gan rywun arall fel aelod o'r teulu / ffrind (fel y bydd wedi'i nodi)
    - O dan opsiwn 3, lle ac am ba hyd y dylid cadw'r llwch hyd nes y bydd penderfyniad wedi'i wneud (gallai hyn gael ei benderfynu'n lleol yn ôl arfer yr awdurdod amlosgi neu'r trefnydd angladdau).

- Cynigiwn y bydd y ffurflen yn dweud bod ymgeisydd yn cael newid eu meddwl, a hyn i'w gadarnhau'n ysgrifenedig gyda llofnod, ar unrhyw adeg cyn y gweithredir y dewis gwreiddiol (gydag opsiwn 1 neu 2); a bod unrhyw benderfyniad a wneir nes ymlaen o dan opsiwn 3 hefyd yn cael ei gadarnhau yn yr un modd.

- Ni chynigiwn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau amlosgi anfon copi o'r gofrestr amlosgi i'r ymgeisydd bob tro. Byddai hyn yn faich newydd a diangen yn ein barn ni oherwydd mae'r gofrestr ar gael drwy wneud cais, ac mae penderfyniad yr ymgeisydd hefyd yn cael ei gofnodi ar y ffurflen gais. Mae Rheoliad 35 yn Rheoliadau 2008 eisoes yn caniatáu i awdurdod amlosgi roi copi o'r gofrestr neu'r ddogfen i rywun.

**4 - Os nad yw llwch yn cael ei gasglu**

**C9 - Ydych chi'n meddwl bod y broses uchod ar gyfer delio â llwch heb ei gasglu'n briodol? Os ydych, am ba hyd y dylai fod yn ofynnol i drefnwyr angladdau ac yna amlosgfeydd gadw llwch o'r fath?**

Atebodd tua thri chwarter yr ymatebwyr gwestiwn 9, gyda thua hanner y rheini'n ystyried bod y broses sy'n cael ei chymeradwyo gan y Comisiwn Amlosgi Babanod (ICC) ar gyfer delio gyda llwch heb ei gasglu'n broses briodol. Roedd barn pobl yn wahanol fodd bynnag am ba mor hir y dylai'r 'cyfnod penodol' y gall trefnwyr angladdau ac yna awdurdodau amlosgi gadw llwch fod, gyda'r rhan fwyaf yn awgrymu amserlen rhwng mis a blwyddyn yr un (gyda'r awgrym mwyaf yn 15 mlynedd).

*44.* Er enghraifft, teimlai Cyngor Dinas Caerlŷr fod argymhelliad yr ICC:

*"Yn rhoi cyngor clir ynghylch beth fydd yn digwydd i lwch nad yw'n cael ei gasglu. Mae hyn i'w groesawu ac yn codi baich diangen oddi ar amlosgfeydd a threfnwyr angladdau. Byddwn yn argymell y gall trefnwyr angladdau ddychwelyd y llwch ar ôl tri mis ond dim ond ar ôl ceisio cysylltu â'r ymgeisydd am gyfarwyddiadau pellach. Os dychwelir y llwch i'r amlosgfa byddwn yn argymell rhybudd o 28 diwrnod cyn gwasgaru neu gladdu'r llwch"*

45. Adleisiwyd hyn gan un rhiant mewn profedigaeth:

*"Credaf fod mis i bob un yn rhesymol. Mae llawer o rieni / teuluoedd galarus yn ei chael yn anodd iawn delio gyda phethau ar ôl amlosgi ac mae angen amser arnynt i ddod i delerau ac yna i gasglu'r llwch. Os nad yw'r llwch yn cael ei gasglu ar ôl cael ei ddychwelyd i'r amlosgfa a chael ei gadw yno am fis, dylid ei gladdu yng ngardd amlosgi'r amlosgfa – nid ei wasgaru. Dylid anfon cofnod i'r teuluoedd o'r llain lle claddwyd y llwch a rhoi cyfle iddynt ymweld pryd bynnag y maen nhw'n dymuno. Dylid hefyd gwneud cofnod o bwy ydyn nhw, lle y cawsant eu claddu, dyddiad, amser, ayyb."*

46. Teimlai Goleg Brenhinol y Bydwragedd y dylid cadw'r llwch *"am chwe mis cyn anfon llythyr i'r ymgeisydd yn rhoi rhybudd o chwe wythnos iddynt y bydd y llwch yna'n cael ei waredu'n sensitif."*

*47.* Rhoddodd y Sefydliad Rheoli Mynwentydd ac Amlosgfeydd (ICCM) fwy o fanylion am y broses oedd yn gymeradwy ganddynt:

*"Dylid cynnwys yr opsiynau ar gyfer gwaredu'r llwch ar ffurflen gais statudol. Mae'r system bresennol ar gyfer delio gyda llwch sy'n cael ei adael yng ngofal yr amlosgfa'n ddigon da. Gyda'r opsiwn bod y llwch yn cael ei gasglu a'i gadw gan y trefnydd angladdau, gellid ychwanegu nodyn os na ddaw rhywun i gasglu'r llwch gan y trefnydd angladdau, neu os na wneir trefniadau eraill o fewn 12 mis, y bydd y llwch yn cael ei ddychwelyd i'r amlosgfa lle digwyddodd yr amlosgiad. Dylai fod yn ofynnol i'r trefnydd angladdau anfon llythyr i atgoffa'r ymgeisydd ar ôl chwe mis, ac eto ar ôl 12 mis, o ddyddiad yr amlosgiad. Os na ddaw ateb gellir dychwelyd y llwch i'r amlosgfa lle digwyddodd yr amlosgiad gyda'r rhybudd statudol i'w anfon i'r ymgeisydd gan yr amlosgfa. Ystyrir bod 12 mis yn amser rhesymol oherwydd byddai'n cynnwys yr holl ben-blwyddi a fyddai'n gysylltiedig â'r ymadawedig, e.e. pen-blwydd, diwrnod coffa ayyb, a allai ysgogi ymgeisydd, a fyddai efallai wedi symud tŷ a'r trefnydd angladdau felly wedi colli cysylltiad â nhw, i weithredu. Mae'r Sefydliad yn teimlo'n gryf bod trefniant i waredu'n derfynol unrhyw lwch a gedwir gan drefnydd angladdau'n cael ei gynnwys yn y rheoliadau fel bod llwch yn cael ei ddychwelyd yn gyfreithlon i'r amlosgfa lle digwyddodd yr amlosgiad ar gyfer ei waredu'n derfynol. Byddai manylion y gwaredu terfynol yn cael eu cofnodi yn y gofrestr amlosgi statudol gan felly roi trywydd archwilio clir o'r penderfyniadau a'r gweithredu."*

48. Roedd gan Gyngor Bwrdeistref Hartlepool farn wahanol:

*“Ni chytunaf y dylid dychwelyd llwch i’r amlosgfa, unwaith y bydd llwch wedi gadael yr amlosgfa’n swyddogol ni ddylid ei ddychwelyd oherwydd mae wedyn yn rhan o gytundeb rhwng y trefnydd angladdau a theulu’r ymadawedig ac nid yn gyfrifoldeb yr amlosgfa wedyn. Os yw’r person sy’n gyfrifol am y llwch (nid yr amlosgfa), ar ôl symud y llwch o’r amlosgfa, yna’n dymuno i’r llwch gael ei wasgaru ayyb ar dir neu ym mynwent yr amlosgfa ayyb, mae hyn yn fater ar wahân a dylid ei drefnu ar wahân. Dylid gwahaniaethu’n glir rhwng amlosgi, storio a gwaredu.*

49. Teimlai Sands:

*“Mae’r broses ar gyfer delio gyda llwch heb ei gasglu, a sut y dylai trefnwyr angladdau ac amlosgfeydd ddelio â’r mater rhyngddynt, yn briodol yn ein barn ni. Mae am ba hyd y dylai fod yn ofynnol i bob un gadw llwch o’r fath yn fater anodd, ac efallai mai’r Gweithgor Amlosgi Cenedlaethol a ddylai roi sylw mwy manwl i hyn, sy’n rhywbeth a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn. Fodd bynnag, os yw’r cyfnod penodol y bydd awdurdod amlosgi yn cadw llwch hyd nes y bydd yn derbyn cyfarwyddyd pellach wedi pasio, nid yw rhybudd o 14 diwrnod cyn y bydd yr awdurdod yn gwasgaru neu gladdu’r llwch yn ddigon. Gallai’n hawdd fod yn gyfnod pryd y gallai’r rhieni fod i ffwrdd neu’n sâl, neu ddim yn gallu delio â'r cais fel arall. Byddai cyfnod rhybudd o 28 diwrnod yn fwy priodol yn yr amgylchiadau hyn.“*

### Ymateb a gweithredu arfaethedig

- Fel y dywedwn o dan C7 uchod, cynigiwn ddiwygio’r ffurflen gais amlosgi i gynnwys cyfarwyddiadau’r ymgeisydd o ran beth a ddylai ddigwydd i’r llwch. O ystyried y gwahaniaeth barn ynghylch am ba hyd y dylid cadw’r llwch (gan drefnwyr angladdau ac awdurdodau amlosgi), ni chynigiwn gyflwyno rheoliadau newydd yn nodi amser penodol (ar wahân i’r hyn sydd eisoes wedi’i nodi yn rheoliad 30[1]).

- Byddwn yn gofyn i’r gweithgor amlosgi ystyried ac argymell pa amserlen y dylid ei nodi mewn cod ymarfer.

---

[1] http://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2008/2841/regulation/30/made

**Gwaredu llwch**

30.—(1) Yn amodol i baragraff (2), ar ôl amlosgi dylai’r awdurdod amlosgi roi’r llwch i’r ymgeisydd neu berson sy’n cael ei enwebu ar gyfer y pwrpas hwnnw gan yr ymgeisydd.

(2) Os nad yw’r ymgeisydd am dderbyn y llwch ac nid yw wedi enwebu unrhyw un ar gyfer y pwrpas hwnnw, rhaid i’r awdurdod amlosgi gadw’r llwch.

(3) Yn amodol i unrhyw drefniant arbennig ar gyfer claddu neu gadw’r llwch, rhaid i unrhyw lwch a gedwir gan awdurdod amlosgi gael ei gladdu’n barchus mewn tir claddu neu mewn rhan o’r amlosgfa sy’n cael ei neilltuo ar gyfer claddu llwch, neu ei wasgaru yno.

(4) O ran llwch sy’n cael ei gadw dros dro yng ngofal awdurdod amlosgi, ni chaiff yr awdurdod gladdu na gwasgaru’r llwch oni bai y rhoddwyd rhybudd 14 diwrnod o’r bwriad i wneud hynny i’r ymgeisydd.

**5 - Lle nad oes unrhyw lwch**

**C10 – Ydych chi'n meddwl y dylai'r ffurflen gais amlosgi ddweud, er y gwneir pob ymdrech i hel pob llwch, y gallai fod achosion prin lle na fydd unrhyw lwch i'w hel? Neu ydych chi'n meddwl y gallai hyn ddychryn y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn ddiangen, o gofio bod y rhan fwyaf yn cael eu hel? Os cytunwch â'r olaf, beth fyddai'r ffordd orau yn eich barn chi o sicrhau bod ymgeiswyr yn ymwybodol o'r posibilrwydd na fyddai dim llwch?**

50. Atebodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn drwy ddweud y dylai geiriad y ffurflen nodi tra gwneir pob ymdrech i hel pob llwch, na fydd hyn yn bosib bob tro. Byddai rhoi'r rhybudd hwn meddent yn rhoi cyfle i rieni mewn profedigaeth wneud penderfyniad gwybodus am amlosgi ac yn sicrhau bod y broses yn dryloyw. Adleisiwyd hyn gan ymateb Sands i'r cwestiwn hwn:

*"Er bod y posibilrwydd nad oes unrhyw lwch i'w hel yn eithriadol fach, mae angen i rieni gael gwybod am hyn rhag ofn y byddai'n well ganddynt ddewis claddu. Dylid rhoi gwybod i rieni am hyn fel rhan o'r broses o ofyn am ganiatâd gwybodus."*

51. Barn y Sefydliad Rheoli Mynwentydd ac Amlosgfeydd, yn ychwanegol at hyn, oedd:

*"Y dylai rhieni mewn profedigaeth dderbyn y wybodaeth yma ymhell cyn i ffurflen gais gael ei llenwi er mwyn gwneud penderfyniad cytbwys. Oherwydd mai pur anaml y mae amlosgfa'n cwrdd â rhieni mewn profedigaeth cyn yr angladd, efallai y gallai cod ymarfer neu ganllawiau (statudol), yn cwmpasu gweithdrefnau sy'n cael eu dilyn gan drefnwyr angladdau ysbytai ac amlosgfeydd, ei gwneud yn ofynnol iddynt roi'r wybodaeth yma i bobl ar y cyfle cyntaf posib."*

52. Teimlai nifer o'r ymatebwyr nad oedd angen y rhybudd ar y ffurflen. Yn ôl Cyngor Bwrdeistref Kettering gallai rhybudd *"boeni neu ddychryn y rhan fwyaf o bobl".* Yn ôl Tameside, nid oeddent *"...yn meddwl y dylai'r datganiad hwn fynd ar bob Cais Amlosgi. Fodd bynnag, credwn y dylai'r datganiad hwn fynd ar BOB cais marw-anedig."*

53. Teimlai rai rhieni mewn profedigaeth, gyda thechnoleg newydd, na ddylid byth fod achos lle nad yw llwch yn cael ei gadw ac felly nad oedd angen y rhybudd.

**C11 – Os nad oes llwch yn cael ei hel, a ddylai fod yn ofynnol i'r awdurdod amlosgi roi gwybod i'r ymgeisydd am hyn a'r rheswm pam: a chofnodi hyn yn eu cofrestr?**

54. Atebodd tua thri chwarter yr ymatebwyr y cwestiwn hwn. O'r rhai a fynegodd farn dywedodd bawb bron os nad oedd llwch yn cael ei hel y dylai fod yn ofynnol i'r awdurdod amlosgi roi gwybod i'r ymgeisydd am hyn a rhoi'r rheswm, a chofnodi'r manylion yn y gofrestr.

55. Y teimlad oedd y byddai'n gwneud y system yn fwy tryloyw a chredai rhai awdurdodau lleol a atebodd y cwestiwn hwn y gallai, er enghraifft, fod yn ddefnyddiol ar gyfer adolygiadau mewnol.

*56.* Yn ôl Gofal Profedigaeth Cruse, er ei bod yn bwysig i bobl gael gwybod *"byddai angen geirio hyn yn sensitif iawn a rhoi gwybodaeth am wasanaethau cymorth i'r rhieni / teuluoedd mewn profedigaeth."* Yn ôl un trefnydd angladdau *"dylid cofnodi ac ardystio hyn rhag ofn i bobl feddwl bod llwch ar ôl ond na chafodd ei hel."*

57. Roedd Ffederasiwn yr Awdurdodau Claddu ac Amlosgi (FBCA) yn cytuno gan awgrymu geiriad y gellid ei roi i ymgeiswyr:

*"Os nad oes llwch yn cael ei hel, dylid cofnodi'r manylion yn y gofrestr statudol neu anstatudol. Efallai y byddai'n well ysgrifennu i'r ymgeisydd yn yr achosion hyn; fodd bynnag gallai fod yn*

*drallodus i rai mewn profedigaeth ddarllen am resymau technegol manwl dros beidio â gallu hel y llwch. Gallai hyn fod oherwydd colli baban yn fuan iawn yn ystod y beichiogrwydd gyda'r gweddillion yn cael eu rhoi mewn cynhwysydd hollol losgadwy, fel nad oedd gweddillion i'w hel. Ymdrinnir â'r mater hwn yn Natganiad Polisi arfaethedig y FBCA ar gyfer Amlosgi Babanod (Cymru a Lloegr) sy'n dweud fel a ganlyn:* ***"Mewn unrhyw achos prin lle na chaiff llwch ei hel, byddwn yn cyflawni adolygiad o'r broses amlosgi o fewn 48 awr i ddeall pam y digwyddodd hynny. Bydd y canlyniadau'n cael eu cofnodi ac ar gael i'r berthynas agosaf os ydynt am eu gweld."***

58. Roedd gan gaplan ysbyty farn wahanol:

*"Byddai hyn yn creu mwy o waith gweinyddol ac ni fyddai'n cyflawni llawer o ran gofal bugeiliol ar gyfer yr ymgeisydd. Lle mae ymgeiswyr wedi cael eu hysbysu'n ofalus na fydd llwch i'w hel, a lle rhoddwyd cyfle i drafod hyn yn fanwl, yna dylai hyn fod yn ddigon. Gellid cofnodi'r sgwrs mewn rhyw ffordd (e.e. yn Nodiadau'r Claf mewn ysbyty) a chan yr amlosgfa ond nid oes angen rhoi cyngor ysgrifenedig pellach i'r ymgeisydd ar hyn."*

59. Yn ôl y Sefydliad Amlosgfeydd a Mynwentydd Preifat, y trefnydd angladdau yn hytrach na'r awdurdod amlosgi a ddylai roi gwybod i'r ymgeisydd os nad oedd dim llwch:

*"Ar ôl i'r amlosgfa roi gwybod i'r Trefnydd Angladdau na chafodd llwch ei hel, cyfrifoldeb y Trefnydd Angladdau fyddai rhoi gwybod i'w cleient am hyn. Ond wrth gwrs bydd y gofrestr yn cofnodi hyn a gallai'r ymgeisydd weld y gofrestr neu ofyn am gopi o'r cofnod perthnasol, pe dymunent."*

**Ymateb a gweithredu arfaethedig**

- Cynigiwn ddiwygio'r ffurflen gais amlosgi i ychwanegu adran yn dweud er y gwneir pob ymdrech i hel llwch, mewn achosion prin efallai na fydd llwch i'w hel, gyda blwch i'r ymgeisydd ei dicio'n cadarnhau eu bod yn deall y datganiad hwn.

- Byddwn yn gofyn i'r gweithgor cenedlaethol ystyried sut orau i ddweud wrth ymgeiswyr os na chafodd llwch ei hel, a phwy ddylai gysylltu â'r ymgeisydd, ar sail yr ymarfer gorau presennol. Dylid cynnwys hyn mewn cod ymarfer.

## 6 - Cadw cofnodion gan awdurdodau amlosgi

**C12 – Ydych chi'n credu ei bod yn ddigon i awdurdod amlosgi gadw cofnodion a ffurflenni ar gladdu ac amlosgi am 15 mlynedd (fel sy'n ofynnol ar hyn o bryd)? Os credwch fod 15 mlynedd yn amhriodol, am ba hyd y dylid cadw cofnodion a pham, a beth fyddai'r fantais / gost i awdurdodau amlosgi? Os byddai gan hyn oblygiadau cost, rhowch fanylion am ba gostau fyddai'n codi, a faint y byddech yn disgwyl iddynt fod.**

60. Atebodd bron i dri chwarter yr ymatebwyr y cwestiwn hwn. Teimlai tua hanner y rhai a atebodd fod 15 mlynedd yn briodol, gyda rhai'n dweud y dylai hyn fod yn electronig yn unig, oherwydd bod y gost o storio cofnodion yn electronig yn llawer llai na lle storio ar gyfer copïau caled. Teimlai'r gweddill y dylid cadw'r cofnodion am hirach na 15 mlynedd, gyda'r awgrymiadau'n amrywio rhwng 20 mlynedd a chyfnod 'amhenodol', er eto teimlai llawer y dylid storio'n electronig.

61. Dywedodd un rhiant mewn profedigaeth y dylid cadw dogfennau am fwy na 15 mlynedd oherwydd, *"Mae rhieni'n aml yn cymryd amser hir cyn penderfynu ystyried y mater – sy'n aml yn golygu nad oes dim neu fawr ddim gwaith papur i fynd yn ôl ato. Byddai 25 mlynedd yn well efallai".*

62. Yn ôl Cyngor South Tyneside:

*"Mae'r rhan fwyaf o Awdurdodau Amlosgi'n gweithredu system gofnodi electronig a hefyd yn cadw copïau caled am 15 mlynedd. Wrth i dechnoleg wella, mae mwy o wybodaeth yn cael ei storio'n electronig a llai o angen felly i gadw'r copi caled mor hir."*

63. Roedd gan Dignity farn debyg:

*"Mae 15 mlynedd [i gadw copïau caled] yn rhy hir oherwydd drwy sganio'r ffurflenni bydd llai o angen cadw'r ffurflenni gwreiddiol. Gellir cadw cofnodion electronig am byth o gael eu harchifo. Bydd y gost o wneud hyn yn cynnwys sefydlu a chynnal y cymorth TG ar ei gyfer."*

**C13 – A oes gennych unrhyw enghreifftiau o ymarfer gorau gyda chadw cofnodion, yn electronig neu fel copïau caled, y gellid eu rhannu'n ddefnyddiol gydag awdurdodau amlosgi eraill?**

64. Atebodd dros chwarter yr ymatebwyr y cwestiwn hwn. Awgrymodd nifer o awdurdodau lleol ac awdurdodau amlosgi'r systemau rheoli gwaith achos electronig, neu becynnau meddalwedd eraill, yr oeddent yn eu defnyddio. Roedd Westerleigh o blaid cyfuniad o feddalwedd rheoli a sganio. Yn ôl un trefnydd angladdau: *"Mae cronfeydd data'n gost-effeithlon ond mae angen cofnodi'r data, sy'n gallu arwain at gamgymeriadau. Mae sganio'r gwaith papur gwreiddiol yn arwain at lai o wallau ac yn diogelu'r ddogfen wreiddiol."* Awgrymodd y Sefydliad Rheoli Mynwentydd ac Amlosgfeydd (ICCM) fod Amlosgfa Chelmsford yn esiampl wych o ymarfer gorau.

**Ymateb a gweithredu arfaethedig**

- Cynigiwn ddiwygio rheoliad 34[2], a chadw'r gofyniad presennol i ddogfennau gael eu cadw am 15 mlynedd a gadael i hyn gael ei wneud yn electronig neu fel copi caled. Cynigiwn ddileu'r gofyniad presennol i awdurdod amlosgi orfod cadw copi caled am ddwy flynedd hyd yn oed lle mae copi electronig hefyd.

- Rhagwelwn y bydd y newidiadau cysylltiedig i reoliadau ac arferion amlosgi (fel y ffurflen gais amlosgi'n cadarnhau dymuniadau'r ymgeisydd ynghylch y llwch) yn helpu i sicrhau bod ymgeiswyr yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd i'r llwch heb orfod chwilio drwy gofnodion hanesyddol.

- O ystyried bod llawer o awdurdodau amlosgi eisoes yn cadw dogfennau am fwy na 15 mlynedd, byddwn yn gofyn i'r gweithgor cenedlaethol ystyried a ddylai'r codau ymarfer ar gyfer amlosgi nodi safon i gadw dogfennau am fwy na 15 mlynedd.

---

[2] **Cadw dogfennau'n ymwneud ag amlosgi**

**34.**—(1) Rhaid i awdurdod amlosgi gadw'r cais amlosgi ac unrhyw dystysgrifau neu ddogfennau eraill yn ymwneud ag amlosgiad, neu gopi electronig o ddogfennau o'r fath, am gyfnod o 15 mlynedd o ddyddiad yr amlosgiad perthnasol.

(2) Lle mae copi electronig yn cael ei gadw gan awdurdod amlosgi o dan baragraff (1), rhaid i'r awdurdod amlosgi gadw unrhyw ddogfen y lluniwyd y copi electronig ohoni am gyfnod o ddwy flynedd o ddyddiad yr amlosgiad.

(3) Lle mae amlosgfa'n cael ei chau'n unol â rheoliad 3, rhaid i'r awdurdod amlosgi—

(a) gwaredu unrhyw gofrestri a dogfennau'n ymwneud â'r amlosgiadau a ddigwyddodd yn yr amlosgfa yn unol â chyfarwyddiadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol; neu

(b) os na roddir cyfarwyddiadau o'r fath, anfon unrhyw gofrestri neu ddogfennau i'r Ysgrifennydd Gwladol.

**7 - Penodi arolygydd**

**C14 – Ydych chi'n meddwl mai drwy benodi arolygydd fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol o fonitro arferion gwaith a sicrhau safonau priodol mewn amlosgfeydd? Os felly, byddai'n ddefnyddiol gwybod eich barn am:**

- **beth ddylai rôl yr arolygydd fod – er enghraifft, a ddylai fod yr un fath â chylch gwaith presennol yr arolygydd yn yr Alban fel y disgrifiwyd hynny uchod, neu a ddylid dileu rhai o'r cyfrifoldebau hynny neu gynnwys rhai eraill, ac os felly pam?**
- **pa mor aml ydych yn meddwl y dylid arolygu amlosgfeydd?**
- **sut a pha mor aml ydych yn meddwl y dylai'r arolygydd adrodd i Weinidogion?**
- **a fyddai cyhoeddi arferion da a gwael awdurdodau amlosgi'n ffordd effeithiol o wella safonau?**
- **a ydych yn credu y dylai cylch gwaith yr arolygydd gynnwys delio gyda chwynion?**
- **a ydych yn credu y dylai cylch gwaith yr arolygydd gynnwys y diwydiant angladdau?**
- **sut y dylid ariannu a dyrannu adnoddau ar gyfer yr arolygydd?**
- **sut y dylid diogelu statws annibynnol yr arolygydd?**

65. Atebodd dros dri chwarter yr ymatebwyr y cwestiwn hwn i gyd neu'n rhannol. Credai bawb bron a atebodd, ym mhob un o'r categorïau o ymatebwyr, mai arolygydd fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol o fonitro arferion gwaith a sicrhau safonau priodol mewn amlosgfeydd.

66. Er enghraifft, meddai'r Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Golli Babanod:

*"Teimlwn fod achos cryf dros gyflwyno arolygydd amlosgfeydd yn gyffredinol. Er bod llawer mwy o amlosgfeydd yn Lloegr nag yn yr Alban, mae'n bwysig bod pob amlosgfa'n cael ei harolygu i fonitro arferion a sicrhau bod safonau priodol yn cael eu cynnal. Er ei bod yn hollbwysig bod sylw'n cael ei roi i amlosgi babanod, ni chredwn y dylid cyfyngu cylch gwaith yr arolygydd i fabanod. Yn ddelfrydol, dylai'r arolygydd fod yn asiantaeth weithredol, wedi'i noddi gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Fodd bynnag, sylweddolwn y byddai gan hyn oblygiadau cost sylweddol. Gallai fod sgôp naill ai i gynnwys arolygu o fewn pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, neu ei fod yn cael ei ddatganoli i awdurdodau lleol. Os cefnogir yr argymhelliad hwn byddem o blaid cael ymgynghoriad arall mwy manwl nes ymlaen."*

67. Meddai un rhiant mewn profedigaeth:

*"Ie dw i'n credu mai penodi arolygydd fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol o fonitro arferion yr amlosgfeydd a sicrhau'r safonau uchaf posib. Ynghyd â hyn dylid cael gweithdrefn gwyno ar gyfer amlosgfeydd nad ydynt yn dilyn arferion / gweithdrefnau neu nad ydynt yn adrodd unrhyw broblemau sydd ganddynt. Dylid cyflawni arolygiadau bob blwyddyn o leiaf, yn ddelfrydol bob chwe mis. Dylai arolygwyr gyflwyno unrhyw broblemau ar ffurf papur i'r Gweinidogion gyda chyfarfod i drafod ymhellach."*

68. Ni chredai rai o'r ymatebwyr, i gyd yn awdurdodau lleol neu'n drefnwyr angladdau, fod angen penodi arolygydd. Er enghraifft, awgrymodd y Gymdeithas Llywodraeth Leol fod arolygydd yn ymateb anghymesur i'r sefyllfa bresennol gydag amlosgi babanod:

*"Nid yw'n glir ar hyn o bryd a yw'r mater yn un eang a chyffredin yng Nghymru nac yn Lloegr. Awgrymwn felly bod mwy o ymchwil yn cael ei wneud i fesur maint y broblem, a sut y mae amlosgfeydd yng Nghymru a Lloegr wedi ymateb i adroddiadau'r ICC ac Emstrey. Dim ond wedyn y gallwn wneud penderfyniad gwybodus ynghylch a fyddai penodi arolygydd cenedlaethol yn ymateb priodol. Ar y funud ni fydden ni o blaid cael arolygydd cenedlaethol ar gyfer amlosgfeydd fel ymateb priodol i'r mater."*

69. Yn yr un modd meddai Cymdeithas Genedlaethol y Trefnwyr Angladdau (NAFD):

*“Nid yw’r NAFD o blaid penodi arolygydd. Dylai’r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn roi sylw i’r materion sydd wedi cael eu hadnabod ar draws y wlad. Ar ben hynny, bydd y gost o benodi a chynnal arolygydd yn anochel yn cael ei phasio ymlaen i rai mewn profedigaeth ar adeg o graffu cynyddol ar fforddiadwyedd angladdau".*

70. Dywedodd tua thraean o’r ymatebwyr oedd o blaid arolygydd y dylai’r rôl ddilyn model yr Alban, gyda’r rhan fwyaf yn awgrymu diwygio cyfrifoldebau’r arolygydd yn yr Alban. Teimlai’r rhan fwyaf mai prif waith yr arolygydd fyddai monitro arferion gwaith ac edrych i weld a oedd awdurdodau amlosgi’n cydymffurfio â’r rheoliadau amlosgi ac unrhyw godau ymarfer.

71. O ran pa mor aml y dylid arolygu, roedd y farn yn amrywio o bedair gwaith y flwyddyn i bob pum mlynedd (gydag awgrym hefyd i’w cynnal yn ‘gyfnodol’). Yr awgrym mwyaf cyffredin oedd arolygiad blynyddol (chwarter y rhai oedd o blaid arolygydd) a’r awgrymiadau mwyaf cyffredin wedyn oedd bob chwe mis, bob yn ail flwyddyn a phob tair blynedd. Dywedodd rai os oedd problem yn cael ei chanfod mewn amlosgfa y dylid arolygu’r safle’n amlach hyd nes y byddai’n cwrdd â’r safon. Awgrymai’r ymatebion fod rhieni mewn profedigaeth, cyrff gwirfoddol, elusennau a mudiadau crefyddol o blaid arolygu’n amlach, a bod awdurdodau amlosgi, awdurdodau lleol a threfnwyr angladdau o blaid arolygu’n llai aml.

72. O ran pa mor aml y dylid adrodd i’r Gweinidog, ni roddodd y mwyafrif o’r ymatebwyr unrhyw fanylion am ba mor aml, a sut, y dylai’r arolygydd adrodd. Yr awgrym mwyaf cyffredin oedd adroddiad blynyddol, er y dywedodd nifer o’r ymatebwyr os oedd problem wedi bod gyda safle neilltuol y dylid cyflwyno adroddiad i’r Gweinidog yn syth. Teimlai gwpwl o’r ymatebwyr y dylai arolygydd adrodd i’r Gweinidog o fewn 14 diwrnod i arolygiad.

73. Teimlai nifer o ymatebwyr y dylai’r adroddiadau fod ar gael i’r cyhoedd. Dadleuai traean o’r ymatebwyr oedd o blaid arolygydd y byddai rhoi cyhoeddusrwydd i arferion da a gwael awdurdod amlosgi’n helpu i wella safonau. Roedd y rhesymau’n cynnwys: sicrhau bod y system yn dryloyw; grymuso cwsmeriaid i wneud penderfyniad gwybodus; a sicrhau atebolrwydd cyhoeddus. Awgrymodd rai ymatebwyr rywbeth tebyg i ‘dabl cynghrair’ neu system sgorio Ofsted. Fodd bynnag, teimlai chwarter y grŵp o ymatebwyr y byddai cyhoeddi’n cael effaith negyddol. Dywedodd un fod “da” a “gwael” yn dermau goddrychol a theimlai ymatebwyr eraill y byddai’n fwy effeithiol hyrwyddo arferion da drwy arolygiadau rheolaidd a rhoi adborth ystyrlon. Dywedodd rai o’r ymatebwyr y gallai achosi trallod i bobl mewn profedigaeth pe bai amlosgfa a ddefnyddiwyd ganddynt yn cael ei sgorio fel un “wael”. Dywedodd un y gallai wneud niwed i enw da drwy greu argraff andwyol ymhlith y cyhoedd os oedd y wybodaeth yn cael ei gwneud yn gyhoeddus.

74. Nid oedd gan ddau o bob tri o’r ymatebwyr oedd o blaid arolygydd unrhyw farn ynghylch a ddylid cynnwys y diwydiant angladdau yn y rôl, neu’n credu na ddylid ymestyn y rôl i’r diwydiant angladdau. Y prif reswm pam na ddylai arolygydd arolygu’r diwydiant angladdau oedd y byddai’n gylch gwaith rhy eang i’r arolygydd. O’r ymatebwyr a deimlodd y dylid cynnwys trefnwyr angladdau yng nghylch gwaith arolygydd, teimlai un y dylai arolygydd ond ystyried y trefnwyr angladdau hynny nad oedd yn aelodau o gorff masnach, oherwydd bod cyrff masnach eisoes yn cyflawni archwiliadau ‘cyfaill beirniadol’ o’u haelodau. Dywedodd un ymatebwr y byddai angen i drefnwyr angladdau gael eu rheoleiddio cyn cael eu harolygu a theimlai un arall y dylai cylch gwaith arolygydd hefyd gynnwys pereneinwyr ac offeiriaid defodau.

75. Nid oedd gan bron i ddau o bob tri o’r ymatebwyr oedd o blaid arolygydd farn am adnoddau a chyllid ar gyfer y rôl. O’r gweddill teimlai’r rhan fwyaf mai’r llywodraeth ganolog ddylai ariannu’r rôl, gyda’r awgrym mwyaf cyffredin wedyn yn dweud y dylai’r cyllid ddod drwy godi lefi ar y proffesiwn, naill ai drwy ffi’r drwydded neu fel rhan o gostau angladd. Awgrymodd gwpwl o’r ymatebwyr mai awdurdodau lleol ddylai ariannu’r rôl. Teimlai ymatebwr arall y gallai’r swydd gael ei hariannu gan gosbau a godid ar aelodau o’r diwydiannau amlosgi ac angladdau oedd yn torri’r rheoliadau ac unrhyw godau ymarfer. Dywedodd gwpwl o’r ymatebwyr sut bynnag oedd y swydd yn cael ei hariannu na ddylai fod drwy basio cost ymlaen i deuluoedd oedd yn talu am angladd.

Dywedodd eraill y gallai fod yn ddrud efelychu rôl yr arolygydd yn yr Alban yng Nghymru a Lloegr gan awgrymu diwygio'r rôl i'w gwneud yn rhatach ei gweithredu.

76. Roedd gan tua chwarter yr ymatebwyr oedd o blaid arolygydd farn am sut y dylid diogelu statws annibynnol y rôl. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys codi lefi ar y proffesiwn a'i gwneud yn ofynnol i ddaliwr y swydd beidio â chael dim cysylltiad â'r diwydiannau angladdau ac amlosgi. Teimlai rai o'r ymatebwyr y byddai statws yr arolygydd yn cael ei ddiogelu pe bai'n cael ei benodi gan lywodraeth ganolog.

**C15 – Os na chredwch mai arolygydd fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol o fonitro arferion gwaith a sicrhau safonau priodol mewn amlosgfeydd, pa ffordd arall y byddai'n bosib gwella safonau a sut y byddai hyn yn cael ei weithredu?**

77. Ychydig iawn oedd â barn am opsiynau eraill yn lle arolygydd oherwydd roedd y rhan fwyaf o blaid y rôl fel y ffordd orau o sicrhau safonau priodol mewn amlosgfeydd. Awgrymodd yr ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn (rhai o blaid arolygydd) yr opsiynau canlynol posib yn lle penodi arolygydd: safonau rhwymo cyfreithlon ar gyfer y diwydiant, fel codau ymarfer y gallai awdurdodau amlosgi fesur eu hunain yn eu herbyn; bod gan awdurdodau amlosgi 'bolisi drws agored' lle gallai unrhyw un herio'r safonau mewn amlosgfa; archwiliadau mewnol; ac awdurdodau amlosgi oedd yn perfformio'n dda i lunio barn am amlosgfeydd eraill.

78. Roedd barn y Gymdeithas Llywodraeth Leol yn eithaf manwl:

*"Byddai defnyddio pwyllgorau trosolwg a chraffu i werthuso sut y mae gwasanaethau'r cyngor yn perfformio yn erbyn y cod ymarfer arfaethedig yn caniatáu monitro effeithiol o wasanaethau'r cyngor. Gellid edrych ar hyn ochr yn ochr â chanllawiau gan y Sefydliad Rheoli Mynwentydd ac Amlosgfeydd (ICCM) a Ffederasiwn yr Awdurdodau Claddu ac Amlosgi (FBCA). O'r ymchwiliadau hyn byddai hefyd yn bosib adnabod a rhannu enghreifftiau o ymarfer da i helpu i wella safonau ar draws y sector. Gellid cyfeirio unrhyw broblemau camweinyddu i'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol. Byddai'r Gymdeithas o blaid rôl gryfach i awdurdodau lleol er mwyn craffu darpariaeth y gwasanaethau hyn a byddem yn cefnogi cynghorau i wneud y gwaith hwn. Fodd bynnag byddai angen cael swyddogaeth graffu ar wahân ar gyfer amlosgfeydd preifat. Byddai angen gwneud mwy o waith i sefydlu sut y gellid gwneud hyn yn briodol. Gallai fod drwy wneud defnydd pellach o ymweliadau "cyfaill beirniadol" y FBCA i amlosgfeydd, neu offeryn hunanasesu'r ICCM. Er bod y Gymdeithas yn credu bod awdurdodau lleol mewn sefyllfa dda i wella safonau mewn amlosgfeydd sy'n cael eu rhedeg gan gynghorau, yn ein barn ni fyddai'n bosib sefydlu cyfundrefn arolygu annibynnol leol i ddelio ag unrhyw fethiannau mewn darpariaeth."*

**Ymateb a gweithredu arfaethedig**

- Rydym wedi nodi'r gefnogaeth sydd gan lawer o'r ymatebwyr i benodi arolygydd. Rydym yn deall mai'r brif ffactor gyntaf dros wneud hyn fyddai sicrhau bod llwch yn cael ei hel lle bynnag y bo hynny'n bosib ac yn cael ei drin yn unol â dymuniadau ymgeiswyr amlosgi. Yr ail brif ffactor dros gael arolygydd, yn ôl pob golwg, yw sicrhau'n fwy cyffredinol bod awdurdodau amlosgi ac eraill sy'n rhan o'r broses amlosgi, fel trefnwyr angladdau, yn cwrdd â safonau cenedlaethol da, tryloyw a chyson.

- Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad hefyd yn awgrymu bod awdurdodau amlosgi (preifat a rhai awdurdod lleol) a threfnwyr angladdau, a'u sefydliadau proffesiynol perthynol, wedi cymryd yr argymhellion a wneir yn adroddiadau Emstrey a'r ICC o ddifrif ac eisoes wedi gwneud cynnydd sylweddol gyda gwella a safoni eu harferion.

- Byddwn yn gofyn i'r gweithgor amlosgi cenedlaethol ystyried sut y gallai arolygydd gyfrannu at barhau i wella arferion amlosgi, ochr yn ochr â'r rheoliadau a'r codau ymarfer newydd a osodir allan yn y ddogfen hon. Bydd y gweithgor yn ystyried pa fesurau ychwanegol sydd eu hangen i wella safonau, sut i roi'r safonau hyn yn eu lle a sut orau i asesu a yw'r safonau'n cael eu cwrdd. Byddwn hefyd yn gofyn i'r gweithgor ystyried cost a sut i ariannu rôl yr arolygydd.

- Bydd y llywodraeth yn gwneud penderfyniad ar benodi arolygydd neu beidio (ac os felly beth fydd natur y rôl a sut y bydd yn cael ei hariannu) yng ngoleuni casgliadau'r gweithgor.

## 8 - Gweithgor amlosgi cenedlaethol

### C16 – A ddylai nodau ac amcanion y gweithgor fod yn debyg i rai Pwyllgor Cenedlaethol yr Alban? A ddylid ychwanegu rhywbeth, neu adael rhywbeth allan?

79. Dywedodd dri chwarter yr ymatebwyr eu bod yn cytuno â'n bwriad i sefydlu gweithgor amlosgi cenedlaethol, gyda'r gweddill heb roi barn. Teimlai'r rhan fwyaf o'r rhai a atebodd y dylai cyfansoddiad y gweithgor fod yn debyg neu'r un fath yn union ag un Pwyllgor Cenedlaethol yr Alban[3]. Ehangodd rai o'r ymatebwyr drwy ddweud na ddylid cyfyngu cylch gwaith y gweithgor i amlosgi babanod, ac y dylai gynnwys pob math o amlosgiad. Awgrymodd un ymatebwr y dylai cylch gwaith y gweithgor hefyd gynnwys y diwydiant angladdau.

80. Awgrymodd nifer o'r ymatebion ychwanegiadau at nodau ac amcanion arfaethedig y gweithgor, gan gynnwys cyflwyno canllawiau ar gyfer arolygydd ac edrych ar rôl y GIG (yn enwedig gwasanaethau profedigaeth a bydwreigiaeth) wrth ddelio gyda rhieni mewn profedigaeth.

81. Awgrymodd rai o'r ymatebwyr pwy ddylai aelodau'r gweithgor fod, fel cynrychiolwyr y diwydiannau angladdau ac amlosgi, rhieni mewn profedigaeth, cyrff gwirfoddol sy'n cefnogi rhieni mewn profedigaeth, gwneuthurwyr amlosgyddion, cyrff masnach, gwasanaethau bydwreigiaeth a'r GIG, staff corfftai a staff swyddfeydd profedigaeth mewn ysbytai.

### Ymateb a gweithredu arfaethedig

- Byddwn yn sefydlu'r gweithgor amlosgi cenedlaethol gyda golwg ar gytuno ar ei gylch gorchwyl yng nghyfarfod cyntaf y gweithgor. Bydd hyn yn cynnwys a ddylai'r gweithgor edrych ar amlosgi'n gyffredinol (efallai yng nghyswllt materion penodol) yn ogystal ag amlosgi babanod. Fodd bynnag, blaenoriaeth y gweithgor fydd amlosgi babanod.

- Fel bo'r gweithgor yn gallu trafod ymarfer gorau ym mhob agwedd ar y broses amlosgi, gan hefyd ystyried bod angen gwneud y gweithgor yn effeithiol a hawdd ei reoli o ran maint, bwriadwn wahodd cynrychiolwyr o'r canlynol:

    - y diwydiant amlosgi;
    - y diwydiant angladdau;
    - cyrff gwirfoddol sy'n cefnogi rhieni mewn profedigaeth;
    - gweithwyr meddygol proffesiynol sy'n delio gyda rhieni a gollodd fabanod yn ystod beichiogrwydd;
    - adrannau eraill o'r llywodraeth gyda budd mewn amlosgi

---

[3] Nodau ac amcanion Pwyllgor Cenedlaethol yr Alban yw:

- datblygu, hyrwyddo ac adolygu'n flynyddol Cod Ymarfer ar amlosgi babanod a phlant bach sy'n adlewyrchu arferion gorau a safonau cyfoes
- sicrhau bod holl argymhellion yr ICC yn cael eu gweithredu, drwy gyfuniad o oruchwyliaeth strategol, monitro a hefyd drwy dasgau uniongyrchol fydd yn cael eu cyflawni gan Weithgorau arbenigol wedi'i sefydlu gan y Pwyllgor Cenedlaethol
- hyrwyddo gwelliannau i ymarfer, technoleg, polisi a deddfwriaeth
- adrodd yn flynyddol i Weinidogion ar safonau ac arferion amlosgi babanod a phlant bach

**9 - Hyfforddi staff amlosgfeydd a threfnwyr angladdau**

**C17 – A ddylai fod yn ofynnol bod yn achrededig [i rai sy'n gweithio yn y diwydiant amlosgi] ac os felly, a ddylid gosod hyn allan mewn cod ymarfer neu ddeddfwriaeth? Rhowch resymau dros eich ateb.**

82. Atebodd tua thri chwarter yr ymatebwyr y cwestiwn hwn a phob un ohonynt o blaid bod y rhai sy'n gweithio yn y diwydiant amlosgi yn achrededig. Nid oedd gan bron i'w hanner farn am ble y dylai'r achrediad fod; dywedodd chwarter y dylai'r achrediad fod mewn cod ymarfer a dywedodd ychydig yn llai y dylai fod mewn deddfwriaeth. Roedd nifer o'r ymatebwyr o blaid cod ymarfer ond yn awgrymu symud at ddeddfwriaeth os nad oedd y cod yn effeithiol gyda chodi safonau. Roedd eraill o blaid cyfuniad o ddeddfwriaeth a chodau ymarfer.

83. Roedd y rhesymau a roddwyd dros fod o blaid achrediad a hyfforddi drwy gôd ymarfer yn seiliedig ar y ffaith y byddai hyn yn haws i'w newid na deddfwriaeth, a bod gan y Sefydliad Rheoli Mynwentydd ac Amlosgfeydd (ICCM) a Ffederasiwn yr Awdurdodau Claddu ac Amlosgi (FBCA) godau ymarfer yn barod. Roedd y rhesymau a roddwyd dros fod o blaid achredu mewn deddfwriaeth yn cynnwys yr opsiwn o gyflwyno sancsiynau am ymarfer anghyson a thor-ymarfer.

84. Roedd barn Undeb Cenedlaethol yr Ysbrydegwyr yn nodweddiadol:

*"Mae angen achredu a dylid gosod hyn allan mewn Cod Ymarfer fel y byddai modd gwneud newidiadau drwy ddysgu heb orfod mynd drwy'r broses hir ar gyfer newidiadau deddfwriaethol."*

85. Yn ôl Cymdeithas yr Amlosgfeydd a Mynwentydd Preifat (APCC):

*"Ie, dylai'r uwch-berson naill ai fod â Thystysgrif ICCM a / neu Gymhwyster Diploma a / neu Gymhwyster o dan Gynllun Hyfforddi ac Arholi'r FBCA ar gyfer Technegwyr Amlosgi. Dylai fod ganddynt hefyd wybodaeth drylwyr o'r holl Godau Ymarfer perthnasol a'r Cynlluniau Hyfforddi sydd ar gael, er mwyn gallu datganoli gwybodaeth i staff a'u hannog i ennill cymwysterau, sy'n cael ei hyrwyddo gan yr ICCM."*

86. Teimlai lawer o'r ymatebwyr y byddai'n ddefnyddiol cynnwys trefnwyr angladdau mewn gofyniad ar gyfer achrediad a hyfforddiant oherwydd eu bod yn ateb cwestiynau pobl mewn profedigaeth am y broses amlosgi.

87. Eglurodd Gymdeithas Genedlaethol y Trefnwyr Angladdau (NAFD) ei system bresennol ar gyfer trefnwyr angladdau:

*"Mae gan y NAFD Gôd Ymarfer sy'n cael ei orfodi'n gadarn, a chynllun unioni cam annibynnol sydd ym marn y Gymdeithas yn un o'r gofynion sylfaenol ar gyfer unrhyw gymdeithas fasnach. Rhaid datblygu unrhyw Gôd Ymarfer cenedlaethol mewn cydweithrediad â chymdeithasau masnach perthnasol ynghyd ag ymwybyddiaeth o Godau Ymarfer eraill a ddefnyddir eisoes. Byddai'r Gymdeithas yn wyliadwrus o roi Cod Ymarfer mewn deddfwriaeth oherwydd gallai gyfyngu ar allu cymdeithasau masnach y diwydiant i ymateb a rhoi sylw i faterion wrth iddynt godi."*

**Ymateb a gweithredu arfaethedig**

- Roedd adroddiadau Emstrey a'r ICC yn argymell safonau hyfforddiant gofynnol ar gyfer staff gweithredol a staff goruchwylio mewn amlosgfeydd. Roedden ni'n dweud yn y ddogfen ymgynghori mai ein bwriad oedd gwneud ystyried yr argymhellion hyn yn rhan o gylch gwaith y gweithgor amlosgi cenedlaethol fydd yn:
    - adolygu'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn barod;

- gweld lle mae angen gwneud gwaith pellach neu addasiadau yng nghyd-destun Cymru a Lloegr; ac yn
    - ystyried a ddylid cynnwys hyfforddiant ac achredu mewn cod ymarfer ar gyfer y diwydiant.

- Yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad, dyma ein bwriad o hyd, a'r ffordd ymlaen sydd orau gennym yw codau ymarfer anstatudol yn nodi beth yw gofynion hyfforddiant ac achredu'r diwydiant ar gyfer staff amlosgi.

- Mae codau anstatudol yn fwy hyblyg na deddfwriaeth ac rydym yn awyddus i adeiladu ar y gwaith gwirfoddol a wnaeth y diwydiant amlosgi eisoes ers cyhoeddi adroddiadau Emstrey a'r ICC, yn gosod allan yr arferion gorau presennol a'r gofynion technegol.

- Mae'r Llywodraeth yn ymrwymedig i osgoi rheoleiddio diangen ac i gefnogi dulliau anstatudol fel codau diwydiant, lle bo hynny'n briodol. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn awgrymu y byddai'n gam anghymesur symud yn syth at ddull deddfwriaethol heb gefnogi dull di-ddeddfwriaeth yn gyntaf, ac adolygu hyn nes ymlaen.

**10 - Codau ymarfer a datganiad polisi awdurdodau amlosgi**

**C18 - I oleuo’r gwaith ar lunio cod ymarfer, hoffem wybod beth yw eich barn am y cwestiynau canlynol:**

- **Gan gymryd Cod Ymarfer yr Alban fel sail, pa newidiadau os o gwbl fyddai efallai angen eu gwneud yng nghyd-destun Cymru a Lloegr - a pham?**
- **A ddylid cael codau ymarfer ar wahân ar gyfer amlosgi babanod ac amlosgi’n fwy cyffredinol – ac os felly, pam?**
- **A ddylai’r cod(au) ymgorffori’r cod ymarfer technegol sy'n cael ei argymell yn adroddiad Emstrey neu a ddylid datblygu hwn ar wahân?**
- **A ddylai’r cod ymarfer (neu gôd ar wahân ar gyfer amlosgi babanod) ymgorffori’r cod ar amlosgi ar y cyd sy’n cael ei argymell yn adroddiad yr ICC, neu a ddylid datblygu hwn ar wahân?**

88. Atebodd dri chwarter yr ymatebwyr y cwestiwn hwn i gyd neu’n rhannol.

89. Roedd gan hanner y rhai a atebodd y cwestiwn hwn farn am ddefnyddio Cod Ymarfer yr Alban ar Amlosgi Babanod[4] fel sail ar gyfer cod yng Nghymru a Lloegr. Credai dri chwarter y rhain y gellid mabwysiadu a chymhwyso Cod Ymarfer yr Alban i Gymru a Lloegr. O’r gweddill, dywedodd rai y byddai efallai angen newidiadau fel bo’r cod yn unol â deddfwriaeth Cymru a Lloegr, a theimlai rai y dylai'r cod fod yn fyrrach a mwy cryno.

90. O ran a ddylid cael codau ar wahân ar gyfer amlosgi babanod ac amlosgi’n fwy cyffredinol, dywedodd ychydig dros hanner y rhai a ymatebodd y dylid cael un cod ymarfer ar gyfer amlosgi babanod ac amlosgi’n fwy cyffredinol, er y dywedodd y rhan fwyaf y dylid cael adran yn y cod ar amlosgi babanod. Ni fynegodd lawer o’r ymatebwyr unrhyw farn am hyn. O’r traean oedd o blaid cod ymarfer ar wahân ar gyfer amlosgi babanod, roedd eu rhesymau fwy neu lai’r un fath a'r rhan fwyaf yn dweud bod amlosgi babanod yn fwy cymhleth. Awgrymodd un ymatebwr y dylid cael cod ymarfer ar wahân ar gyfer amlosgi ar y cyd[5] (sy’n gyffredin wrth amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos oed – gweler adran 12 am fwy o fanylion).

91. Roedd gan hanner y rhai a atebodd gwestiwn 18 farn ynghylch a ddylai’r cod(au) ymgorffori cod ymarfer technegol neu a ddylid datblygu’r cod hwn ar wahân. Teimlai dros dri chwarter y dylid ymgorffori’r cod technegol yn y cod cyffredinol. Roedd y rhesymau a roddwyd yn cynnwys bod cael un cod yn symlach, yn fwy ymarferol ac yn helpu i sicrhau tryloywder. Teimlai’r gweddill y dylai’r cod ymarfer technegol fod ar wahân oherwydd, fel arall, byddai’r ddogfen yn rhy hir ac yn cynnwys gwybodaeth na fyddai o ddiddordeb i bobl y tu allan i’r diwydiant amlosgi.

92. Mynegodd hanner y rhai a atebodd gwestiwn 18 farn ynghylch a ddylai’r cod(au) ymgorffori cod ar amlosgi ar y cyd. Dywedodd ddau o bob tri ohonynt y dylid cynnwys pob cod ymarfer, gan gynnwys y cod technegol, mewn un ddogfen drosfwaol. Y rheswm am hyn oedd ei bod yn haws

[4] http://www.gov.scot/Resource/0047/00478003.pdf

[5] Lle collir babanod yn fuan iawn yn y beichiogrwydd, cynigir amlosgi ar y cyd – h.y. lle mae dau ffetws neu fwy sy’n llai na 24 wythnos oed yn cael eu hamlosgi gyda’i gilydd, er eu bod mewn cynwysyddion ar wahân o fewn un cynhwysydd mwy. Yn yr achosion hyn gallai fod gwasanaeth capel yn yr amlosgfa. Ar ôl amlosgi ar y cyd, ni ellir gwahaniaethu rhwng y llwch o’r gwahanol gynwysyddion ac fel arfer maen nhw’n cael eu gwasgaru neu gladdu yn ardal ddynodedig yr amlosgfa.
Ar gyfer amlosgi ar y cyd, nid oes gan awdurdodau amlosgi a threfnwyr angladdau fanylion personol ffetysau sy’n llai na 24 wythnos oed, dim ond cyfeirif gan yr ysbyty. Mae hyn yn sicrhau cyfrinachedd ar gyfer rhieni o dan Ddeddf Erthylu 1967.

cael yr holl godau mewn un lle. Dywedodd y traean arall o ymatebwyr y dylai cod amlosgi ar y cyd fod ar wahân oherwydd nad oedd yn briodol ar gyfer y rhan fwyaf o amlosgiadau.

93. Meddai Cyngor Dinas Caerlŷr:

*“Byddai angen diwygio Cod Ymarfer yr Alban i adlewyrchu’r ddeddfwriaeth yng Nghymru a Lloegr ond ar y cyfan byddai’n sail gadarn ar gyfer datblygu Cod Ymarfer ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae cod yr Alban yn nodi bod angen i staff amlosgfeydd gael eu hyfforddi’n arbennig a’u hardystio naill ai gan yr ICCM neu’r FBCA. Mae hyn yn ymddangos i fod braidd yn gul a dylid ehangu arno i gynnwys hyfforddiant gweithredol wedi’i ardystio gan y gwneuthurwyr sy’n cyflenwi amlosgyddion yr amlosgfa, a dylai hyn gynnwys sut i hel gymaint o lwch â phosib o amlosgydd yr amlosgfa. Byddai hyn yn cael ei gefnogi gan y Cod Ymarfer a pholisïau a gweithdrefnau lleol. Dylai’r Codau Ymarfer fod ar gael yn rhwydd i aelodau felly dylent osgoi bod yn rhy dechnegol. Dylid datblygu codau ymarfer technegol ar wahân. O ystyried y gwahaniaethau yn y broses amlosgi rhwng amlosgi babanod ac amlosgi’n gyffredinol, gallai Codau Ymarfer ar wahân fod yn briodol ac yn rhywbeth i’w ystyried gan y gweithgor cenedlaethol. Dylai’r Cod Ymarfer ar gyfer amlosgi babanod ymgorffori amlosgiadau unigol ac amlosgiadau ar y cyd fel prosesau safonol.”*

94. Meddai Sands:

*“Dylid cael codau ar wahân ar gyfer amlosgi babanod ac ar gyfer amlosgi’n fwy cyffredinol. Y rheswm yw bod materion penodol iawn yn ymwneud ag amlosgi babanod, yn enwedig yr ymarfer o sicrhau bod gymaint o lwch â phosib yn cael ei hel, sydd angen sylw penodol. Gall y broses o amlosgi babanod i roi'r cyfle gorau o hel llwch fod yn wahanol iawn i’r broses o amlosgi oedolion, felly mae’n debyg y bydd angen Cod Ymarfer ar wahân i sicrhau bod y materion hyn yn cael sylw priodol. Bydd hefyd yn helpu i dawelu meddyliau rhieni bod sut y caiff babanod eu hamlosgi’n derbyn y sylw sydd ei angen arno fel nad yw’r digwyddiadau proffil uchel a gafodd sylw yn y blynyddoedd diwethaf yn digwydd eto. Dylai’r cod(au) gyfeirio at y cod ymarfer technegol sy'n cael ei argymell yn adroddiad Emstrey, ond dylid ei ddatblygu ar wahân. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y Cod Ymarfer technegol yn gwbl gynhwysfawr fel y dylai fod. Byddai hefyd yn golygu pe bai datblygiadau technolegol yn golygu bod y Cod Ymarfer technegol yn cael ei ddiweddaru’n gymharol aml, na fyddai angen newid y cod(au) eraill yr un mor aml. Dylid cynnwys y cod ar amlosgi ar y cyd, yng nghyswllt amlosgi babanod, mewn Cod Ymarfer penodol ar amlosgi babanod. Dylai fod ar wahân i Gôd Ymarfer ar amlosgi’n fwy cyffredinol, oherwydd mae angen ystyriaeth neilltuol ar y materion penodol a’r sensitifrwydd o amlosgi babanod ar y cyd.”*

95. Yn ôl y Sefydliad Rheoli Mynwentydd ac Amlosgfeydd (ICCM):

*“Byddai un cod ymarfer ar gyfer pob math o amlosgi’n darparu un ddogfen gyfeiriol a chyffredin ar gyfer yr holl amlosgfeydd. Dylai’r cod hwn ymgorffori Cod Ymarfer technegol yn benodol ar gyfer amlosgi babanod a phlant bach. Dylai’r Cod Ymarfer ymgorffori cod ar amlosgi ar y cyd.”*

**C19 – Hoffem felly wybod beth eich barn am y materion canlynol:**

- **A ddylid adolygu’r cod(au) ymarfer yn flynyddol, neu’n llai aml?**
- **Sut y dylid monitro glynu wrth y cod(au)?**
- **Ydych chi’n meddwl y dylid adrodd i’r cyhoedd ar unrhyw ddiffyg cydymffurfio â’r cod(au) ymarfer?**

96. Atebodd bron i ddau o bob tri o’r ymatebwyr y cwestiwn hwn i gyd neu’n rhannol. O ran pa mor aml y dylid adolygu’r cod(au), dywedodd bron i hanner y rhai a atebodd y cwestiwn y dylid adolygu’n flynyddol, gyda rhai’n dweud y dylid adolygu’n flynyddol i ddechrau ac yna'n llai aml. Awgrymodd hanner y rhieni y dylid adolygu bob dwy i bum mlynedd ac y byddai adolygiad blynyddol yn feichus. Er enghraifft, teimlai un ymatebwr nad oedd am gael ei adnabod:

*“Mae’r gofyniad i adolygu’r cod yn flynyddol yn ymddangos i fod yn rhy feichus a phenodol - dylai hyn fod yn fater i’r gweithgor ar sail tystiolaeth o wneud asesiad o fabwysiadu ac effaith y rheolau newydd. Mewn cyfundrefnau rheoleiddio eraill, fel arfer mae codau’n cael eu hadolygu fel bo angen, ond bob pedair blynedd fan bellaf.”*

97. Dywedodd bron i chwarter y rhai a atebodd y cwestiwn hwn y dylid adolygu’r cod(au) fel a phan oedd cwyn yn cael ei wneud, neu pan oedd proses neu dechnoleg yn newid.

98. Roedd dau o bob tri a atebodd y cwestiwn hwn o blaid rhyw fath o fonitro, gyda rhai’n awgrymu (gan gynnwys Cymdeithas Amlosgi Prydain, yr ICCM a’r FBCA) mai arolygydd ddylai fod yn gyfrifol am wneud hyn. Awgrymodd rai o’r ymatebwyr y dylid ystyried hunanasesu. O’r rhai a deimlai y dylid cael rhyw fath o fonitro, teimlai’r rhan fwyaf y dylid cyhoeddi manylion unrhyw ddiffyg cydymffurfio, er bod y farn yn gymysg am hyn. Er enghraifft roedd barn un rhiant mewn profedigaeth yn nodweddiadol pan ddywedodd *“Dylid cyhoeddi manylion unrhyw ddiffyg cydymffurfio â’r Cod(au Ymarfer oherwydd mae angen i bobl gael gwybod er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus ar ba amlosgfa i’w defnyddio pan ddaw’r amser”.*

99. Fodd bynnag teimlai nifer fach o ymatebwyr na fyddai cyhoeddi adroddiad diffyg cydymffurfio’n briodol. Er enghraifft, ym marn Cyngor Bwrdeistref Kettering, *“Gallai’r cwestiwn o adrodd yn gyhoeddus ar amlosgfeydd sy’n methu achosi trallod i deuluoedd mewn profedigaeth a byddai angen ystyried hyn o ddifrif”.*

100. Yn yr un modd, meddai Cymdeithas Genedlaethol y Trefnwyr Angladdau (NAFD):

*“Byddai’r NAFD yn bryderus ynghylch cywilyddio’n gyhoeddus unrhyw awdurdodau amlosgi sy'n methu â chydymffurfio â’r Cod. Mae materion angladd a phrofedigaeth yn emosiynol iawn ac os byddai adroddiadau gwael yn y cyfryngau gallai hyn nid yn unig gael effaith sylweddol ar y cwmnïau a’u staff ond hefyd achosi trallod ychwanegol diangen i deuluoedd mewn profedigaeth. Gan hynny mae’r Gymdeithas yn credu mai’r ateb yw sicrhau bod Cod Ymarfer yn cael ei orfodi’n gadarn, gan gynnwys arolygiadau a cholli achrediad am ddiffyg cydymffurfio. Dylai swyddogion cydymffurfio yn y cymdeithasau masnach perthnasol fod yn gyfrifol am sicrhau bod cwmnïau’n glynu wrth unrhyw Gôd newydd, ar yr amod bod unrhyw Gôd yn cael ei greu mewn partneriaeth â’r cymdeithasau masnach perthnasol. Byddai’r NAFD o blaid arolygiadau blynyddol sy’n canolbwyntio ar wybodaeth staff yr awdurdod amlosgi, a'r prosesau y disgwylir i staff eu dilyn.”*

101. Yn ôl Cyngor South Tyneside:

*“Mae angen pwyso cyhoeddi effaith unrhyw ddiffyg cydymffurfio penodol yn erbyn yr effaith ar y teuluoedd a ddefnyddiodd yr amlosgfa ac a allai gael eu heffeithio’n negyddol gan y canfyddiadau. Gellid cyhoeddi unrhyw welliannau lefel uchel. Dylid gweithredu unrhyw gynllun gwella. Lle na fyddai’r awdurdod yn glynu wrth y rhain, gellid ystyried cyhoeddi ar ôl rhoi cyfle rhesymol i’r awdurdod weithredu a hwythau heb gydymffurfio.”*

**Ymateb a gweithredu arfaethedig**

- Roedd y ddogfen ymgynghori’n nodi bod y Llywodraeth o blaid sefydlu un cod ymarfer neu fwy ar gyfer Cymru a Lloegr er mwyn sicrhau cysondeb a safonau ymarfer uchel ar gyfer pawb sy’n rhan o’r broses amlosgi a rheoli profedigaeth. Cynigiwn, yn ogystal â chynnwys canllawiau ac egwyddorion cyffredinol, y dylai’r cod(au) hefyd gynnwys canllawiau technegol a gweithredol ar gyfer awdurdodau amlosgi, darparwyr gofal iechyd a threfnwyr angladdau, ac na ddylai unrhyw gôd neu godau fod mewn rheoliadau fel y gellir eu diwygio dros amser heb fod angen newid deddfwriaeth.

- Byddwn yn gofyn i’r gweithgor amlosgi cenedlaethol lunio cod ymarfer gyda phenodau ar wahân ar gyfer amlosgi babanod; amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos oed (gan gynnwys

amlosgi ar y cyd); codau ymarfer technegol; ac (fel blaenoriaeth lai) amlosgiadau nad ydynt yn rhai babanod (plant ac oedolion).

- Lle bo hynny'n briodol bydd y cod yn adeiladu ar ddogfennau a gynhyrchwyd eisoes gan y diwydiant amlosgi a Llywodraeth yr Alban ac y cafwyd eu bod yn effeithiol, yn ôl adroddiadau Emstrey a'r ICC.

- Cynigiwn gyhoeddi'r cod ymarfer ar-lein (gydag adrannau gwahanol y gellir eu cyhoeddi ar wahân) a gofyn i'r gweithgor gytuno ar ba fesurau eraill i'w rhoi yn eu lle i sicrhau bod y cod yn cael ei ledaenu yn y ffordd fwyaf effeithiol a phriodol i'r rhai sydd angen bod fwyaf ymwybodol ohono – yn enwedig awdurdodau amlosgi, trefnwyr angladdau, pobl mewn profedigaeth, cyrff gwirfoddol a gweithwyr meddygol proffesiynol.

**11 - Gwybodaeth a chanllawiau i rieni mewn profedigaeth**

**C20 – A oes gennych unrhyw enghreifftiau o arfer da gyda rhoi gwybodaeth i rieni mewn profedigaeth? Os oes, rhowch fanylion os gwelwch yn dda.**

102. Atebodd bron i hanner yr ymatebwyr y cwestiwn hwn. Dywedodd rai (o amrywiol gategorïau o ymatebwyr) fod Sands yn ffynhonnell dda o wybodaeth i rieni galarus. Meddai Cyngor Bwrdeistref Hartlepool *"Argymhellwn fod rhieni'n mynd i wefan Sands, ac os oes ganddynt unrhyw gwestiynau wedyn eu bod yn dod i'n gweld ni i gael sgwrs".*

103. Meddai Cyngor Dinas Caerlŷr:

*"Mae Ysbyty Prifysgol Caerlŷr, drwy weithio mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Caerlŷr, wedi adolygu'r holl wybodaeth a roddir i rieni mewn profedigaeth yn dilyn ymchwiliadau Mortonhall a Phwyllgor Amlosgi Babanod yr Alban. Gwnaed diwygiadau i beth o'r testun i geisio gwneud y sefyllfa'n gliriach. Rhoddir taflen i rieni gan staff yr ysbyty'n egluro'r holl opsiynau ar gyfer gwaredu llwch, na ellir gwarantu y bydd llwch yn cael ei hel bob tro a bod claddu bob amser yn opsiwn os yw rhieni'n poeni. Mae'r Cyngor hefyd wedi cyhoeddi ei bolisi ar amlosgi babanod ar ei wefan ac wedi rhoi copi ysgrifenedig i'r holl drefnwyr angladdau lleol fel y medrant gynghori rhieni mewn profedigaeth."*

104. Roedd enghreifftiau eraill. Yn ôl Coleg Brenhinol y Bydwragedd:

*"Mae nifer o unedau mamolaeth yn datblygu taflenni gwybodaeth gyda rhanddeiliaid a rhieni mewn profedigaeth i egluro'r safonau a'r gweithdrefnau. Gallai dogfen ganllaw dempled sydd modd ei lawrlwytho ac yn egluro'r safonau gofynnol – ond y gellir ei olygu i adlewyrchu anghenion lleol – helpu i greu gwybodaeth dda a chyson am y cymorth sydd ar gael i rieni."*

105. Yn ôl Awdurdod Amlosgi Bracknell Forest:

*"Rydyn ni'n mynd â theuluoedd ar daith o gwmpas y cyfleusterau os ydynt yn dymuno ac yn siarad drwy'r broses yn sensitif gyda nhw gan ateb eu cwestiynau a sicrhau bod yr holl wybodaeth angenrheidiol ganddynt i wneud dewis gwybodus."*

**Ymateb a gweithredu arfaethedig**

- Roedd y ddogfen ymgynghori'n gofyn am enghreifftiau o ymarfer da gyda rhoi gwybodaeth i rieni mewn profedigaeth am amlosgi ar ôl colli baban a sut y gellid eu defnyddio i wella arferion yn fwy cyffredinol lle bo angen. Dywedodd ei bod yn fwriad gan y Llywodraeth ofyn i'r gweithgor amlosgi cenedlaethol:
    - adolygu'r cynnydd sydd eisoes wedi'i wneud;
    - gweld lle'r oedd efallai angen gwneud gwaith pellach neu addasiadau (gan gynnwys cyfieithu i'r Gymraeg ac ieithoedd eraill); ac
    - ystyried a ddylid cynnwys ymarfer da mewn unrhyw gôd ymarfer.
- Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn helpu'r gweithgor i nodi pa wybodaeth fydd efallai'n ddefnyddiol i rieni galarus, ar sail yr enghreifftiau o ymarfer da a gawsom mewn ymateb i'r ymgynghoriad.
- Bydd y gweithgor hefyd yn ystyried sut orau i ledaenu gwybodaeth i rieni mewn profedigaeth sy'n ystyried amlosgi.

- Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod rhieni’n derbyn yn gyson y wybodaeth sydd ei hangen arnynt, mewn ffordd briodol, ac y medrant ofyn a chael atebion i’w cwestiynau, fel y medrant wneud penderfyniad gwybodus am amlosgi eu baban.

## 12 - Amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos oed (ffetysau 'cyn 24 wythnos oed')

Materion trosfwaol sy'n berthnasol i reoleiddio amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos oed

**C21 – Ydych chi'n meddwl y dylid dod ag amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos oed o fewn sgôp rheoliadau 2008? A fyddech gystal ag egluro eich ateb.**

106. Atebodd ddau o bob tri o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn gyda phob un ohonynt bron yn dweud y dylid dod ag amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos oed ('ffetysau cyn 24 wythnos oed') o fewn sgôp rheoliadau 2008. Ni ddywedodd yr un rhiant mewn profedigaeth nac ymatebwyr unigol eraill, cyrff gwirfoddol, grwpiau ffydd, elusennau ac awdurdodau lleol (heblaw un) y byddent yn erbyn rheoleiddio o'r fath.

107. Fodd bynnag roedd rhai o'r proffesiynau meddygol ac angladdau yn cymell pwyll gyda thrin amlosgi ffetysau cyn 24 wythnos oed yn yr un ffordd yn union â babanod marw-anedig a marwolaethau babanod.

108. Roedd barn Cyngor Bwrdeistref Barnsley, oedd o blaid rheoleiddio, yn nodweddiadol iawn:

*"Pe bai amlosgi ffetysau'n cael ei reoleiddio byddai mewn gwirionedd yn gwneud i ffwrdd â'r posibilrwydd o barhau gyda'r problemau a gafwyd eisoes ac yn tawelu meddyliau rhieni mewn profedigaeth yn y dyfodol. Byddai rheoleiddio'n gorfodi dull cyson ar gyfer pob amlosgfa fydd yn tawelu meddyliau pobl ymhellach."*

109. Awgrymodd Sands fod angen dybryd i wella'r arferion presennol:

*"Mae rhai o'r arferion gwaethaf a adroddwyd yn ymwneud ag amlosgi babanod wedi digwydd gyda ffetysau llai na 24 wythnos oed, ac mae taer angen gwella arferion ac atebolrwydd fel nad yw hyn yn digwydd eto. Byddai dod ag amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos oed o fewn sgôp rheoliadau 2008 yn helpu i gryfhau'r rhagofalon ar gyfer rhieni, yn gwella ymarfer ac yn tawelu mwy ar feddyliau rhieni. Nid yw'r ymlyniad sydd gan rieni at eu baban yn dibynnu ar eu hoed yn y groth. Mae pob colled yr un mor bwysig, a dylid adlewyrchu hyn yn y ffordd y mae amlosgfeydd yn delio gydag amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos oed".*

110. Roedd gan Gyngor South Tyneside farn am weinyddu'r broses:

*"Dylid amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos oed gyda chaniatâd gwybodus y rhiant neu'r rhieni. Dylid ond amlosgi, p'un ai'n amlosgiad unigol neu ar y cyd, ar ôl trafod yr holl opsiynau (claddu ac amlosgi) gyda'r rhieni. Dylai cynrychiolydd yr ysbyty / trefnydd angladdau dicio blwch a gwrthlofnodi'r ffurflen gofnodi Amlosgi'n nodi bod y rhieni wedi rhoi eu caniatâd gwybodus. Dylid cadw caniatâd wedi'i lofnodi yng nghofnodion yr ysbyty. Dylid ymgorffori'r elfen hon yn y Rheoliadau. Mae'n hanfodol cofnodi tystiolaeth o ddymuniadau'r rhiant neu rieni'n fel nad oes unrhyw honiadau o gamweinyddu yn y dyfodol."*

111. Roedd yr awdurdodau amlosgi a'r cyrff sy'n eu cynrychioli i gyd o blaid hyn. Roedd barn Cymdeithas Amlosgi Prydain yn nodweddiadol: *"Bydd hyn yn gwneud i ffwrdd ag unrhyw amwysedd ac yn darparu ymarfer gwaith safonol a rheoledig."*

112. Roedd y trefnwyr angladdau a ymatebodd o blaid rheoleiddio ffetysau cyn 24 wythnos oed, ac eithrio Cymdeithas Genedlaethol y Trefnwyr Angladdau (NAFD) a leisiodd bryderon am gyflwyno rheoleiddio gan awgrymu y byddai canllawiau'n ateb gwell:

*"Mae'r Gymdeithas yn bryderus y byddai dod â ffetysau llai na 24 wythnos oed o fewn sgôp rheoliadau 2008 yn rhoi baich diangen ar awdurdodau amlosgi. Oherwydd nad oes gan ffetws*

*unrhyw hunaniaeth gyfreithlon hyd nes y mae'n 24 wythnos oed, ni fyddai'n briodol gofyn i rieni galarus wneud cais am ffurflen gais amlosgi statudol. Yn hytrach, mae'r NAFD yn credu y byddai'n fwy priodol darparu canllawiau clir i awdurdodau amlosgi'n nodi eu cyfrifoldebau cyfreithiol ac y medrant ymarfer eu disgresiwn yn wyneb achos o'r fath. Mae canllawiau'r ICCM 'Gwaredu Gweddillion Ffetysau'n Sensitif (2015)' yn rhoi enghraifft ddefnyddiol o sut fath o achos allai hyn fod. [...] Mae'r NAFD yn cefnogi'r ymarfer gorau bod awdurdodau amlosgi'n cadw cofrestr anstatudol o amlosgi gweddillion ffetysau."*

113. Roedd y garfan feddygol o blaid ehangu'r rheoliadau, ac eithrio dau sef y *Human Developmental Biology Resource* (HDBR) ac Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Prifysgol Nottingham (NUHNHST). Roedd NUHNHST yn bryderus ynghylch sefyllfa gyfreithiol ffetysau cyn 24 wythnos oed ac effaith rheoleiddio ar rieni ac ymarferwyr meddygol:

*"Yn siarad yn gyfreithiol nid yw gweddillion ffetysau'n cael eu cydnabod ac yn gyfreithiol ystyrir eu bod yn sampl llawdriniaethol ac yn rhan o'r fam. Rhaid 'priodi' hyn gydag ymateb emosiynol merched am golli baban yn ystod beichiogrwydd a dylid trin pob colled yn sensitif ond nid yw hyn yn golygu y dylai fod yn gymhleth ac anodd i Ymddiriedolaethau ddelio â'r mater. Gyda'r colledion cynharaf yn ystod beichiogrwydd, yn aml iawn y cwbl y mae merched eisiau ei wybod yw y deliwyd yn sensitif â'u beichiogrwydd, nid ydynt am i bobl ddod ar eu hôl yn gofyn beth i'w wneud â gweddillion y beichiogrwydd. Dylai'r Ymddiriedolaeth fod yn gallu gwneud penderfyniad diofyn heb ofni adlach gyfreithiol. [….] Wrth ddylunio'r canllawiau hyn dylai cyfrinachedd ac aros yn ddienw fod yn allweddol. Ni ddylid creu trallod pellach i famau drwy ofyn iddynt lenwi ffurflenni neu orfod dod yn ôl i'r Ymddiriedolaeth i lenwi gwaith papur. Dylai Ymddiriedolaethau fod yn rhydd i waredu gweddillion ffetysau o dan ganllawiau'r HTA a gallu gwaredu'n rhwydd unrhyw weddillion ffetysau na chawsant eu hawlio."*

114. Mae'r HDBR yn derbyn deunydd ffetysol o ffetysau a erthylwyd hyd at 22 wythnos oed ar gyfer ymchwil feddygol, a bod merched sy'n cael erthyliad yn rhoi eu caniatâd gwybodus ysgrifenedig bob tro. Meddai HDBR: *"Dylai fod sgôp ar gyfer trin meinwe o gam-esgor, a ffetysau sy'n cael eu herthylu, mewn ffordd wahanol. Felly byddai cymhwyso'r un rheoliadau i'r ddau beth yn amhriodol."*

**C22 - Byddai rheoleiddio ffetysau llai na 24 wythnos oed yn cynnwys pob achos o gam-esgor a ffetysau sy'n cael eu herthylu, bron o ddechrau beichiogrwydd, hyd at 23 wythnos a 6 diwrnod oed. Ydych chi'n meddwl y byddai'r un broses o wneud cais yn briodol ar gyfer pob un o'r achosion hyn? A fyddech gystal ag egluro eich ateb.**

115. Atebodd dros hanner yr ymatebwyr y cwestiwn hwn, gyda thri chwarter y rhai a atebodd yn teimlo y dylid defnyddio'r un broses ar gyfer amlosgi ffetysau cyn 24 wythnos oed, p'un ai oedd yr amlosgi'n digwydd cam-esgor neu erthylu.

116. Roedd yr awdurdodau amlosgi i gyd o blaid hyn. Ehangodd Ffederasiwn yr Awdurdodau Claddu ac Amlosgi (FBCA) ar y gwahaniaethau rhwng y broses o wneud cais am amlosgi'n dilyn cam-esgor, ac yn dilyn erthyliad:

*"O safbwynt rheoleiddio'r broses amlosgi, nid oes angen gwneud dim neu fawr ddim newidiadau. Fodd bynnag efallai fod angen cael proses wahanol ar gyfer y ffurflenni / cwestiynau a ddefnyddir mewn amrywiol amgylchiadau a gallai faint o fanylion sydd ar gael amrywio'n eithaf sylweddol gan ddibynnu ar yr amgylchiadau a arweiniodd at yr amlosgiad. Mewn rhai achosion lle collwyd baban o ganlyniad i gamesgor, a'r rhiant yw'r ymgeisydd, gallai manylion llawn ac enwau ayyb fod ar gael, fodd bynnag mewn achosion lle cafodd y ffetws ei erthylu am wahanol resymau, efallai na fydd yr un faint o wybodaeth ar gael pan wneir y cais. Gallai hyn olygu bod cyfeirifau achos y GIG yn cael eu defnyddio yn lle enwau, ac mewn nifer o'r achosion hyn yr ysbyty fyddai'r ymgeisydd amlosgi yn hytrach na'r berthynas agosaf."*

117. Roedd trefnwyr angladdau o blaid neu nid oedd ganddynt farn. Yn ôl y NAFD (oedd yn erbyn rheoleiddio amlosgi ffetysau cyn 24 wythnos oed) dylid defnyddio'r un broses ar gyfer amlosgi'n dilyn camesgor ac erthylu.

118. Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol o blaid gan ddweud y byddai hyn yn helpu i sicrhau ymarfer cyson ar draws amlosgfeydd ac i rieni. Pwysleisiodd Gyngor Gateshead fod angen i'r ffurflen gais amlosgi ddangos bod y rhieni wedi rhoi eu caniatâd gwybodus i'r amlosgiad. Meddai Cyngor Dinas Caerlŷr:

*"Dylid cynhyrchu ffurflenni cais safonol ar gyfer amlosgi unigol ac ar y cyd i sicrhau ymarfer cyson ar draws pob amlosgfa. Dylai'r ffurflen gais gynnwys cadarnhad ysgrifenedig bod y ffetws neu ffetysau i gyd yn llai na 24 wythnos oed. Fodd bynnag gallai'r ymgeisydd fod yn ysbyty neu'n sefydliad neu ymarferydd meddygol arall. Os yw'r cais yn cael ei wneud gan sefydliad meddygol rhaid iddynt fod wedi cael caniatâd ysgrifenedig y fam i wneud hynny a rhaid i hyn gael ei gadarnhau ar y ffurflen gais. Yr arfer presennol a ddefnyddir gan ein hysbytai lleol ar gyfer amlosgi ar y cyd yw rhoi rhestr o'r ffetysau wedi eu hadnabod gan rif achos ffeil, yn hytrach na rhiant unigol, sy'n cadw hawl y rhieni i breifatrwydd. Gellid defnyddio'r arfer hwn hefyd gydag amlosgiadau unigol lle bo angen. Ni ddylid bod angen wedyn cael canolwr meddygol i awdurdodi amlosgi ffetysau cyn 24 wythnos oed.*

*119.* Ychwanegodd Gyngor Blackpool, *"Byddai angen edrych ar sut y gellid sicrhau bod meinwe dynol a gyflwynir i'w amlosgi'n cydymffurfio â'r Ddeddf Meinwe Dynol sef bod y rhiant yn gallu aros yn ddienw".*

120. Roedd gan rieni mewn profedigaeth ac unigolion eraill farn gymysg, gyda rhai'n dweud y byddai barn rhieni'n wahanol ar ôl camesgor neu erthyliad, ac eraill yn dweud bod y ffetws cyn 24 wythnos oed yr un fath beth bynnag oedd y rheswm am beidio â pharhau gyda'r beichiogrwydd, felly y dylid cymhwyso'r un rheoliadau i amlosgi ffetysau wedi eu herthylu ag i golledion beichiogrwydd eraill. Roedd cyrff gwirfoddol a grwpiau ffydd o blaid neu nid oedd ganddynt farn. Meddai Sands:

*"Ar gyfer rhieni sy'n dewis amlosgi mae'n bwysig bod y broses yn cael ei rheoleiddio ac y gellir ei harchwilio a'i holrhain. Os nad yw rhieni'n teimlo bod y broses reoledig o wneud cais yn briodol iddyn nhw, mae ganddynt hefyd yr opsiwn o gladdu neu losgi'n sensitif.*

*121.* Ar y cyfan roedd ymatebwyr meddygol o blaid, er bod HDBR er enghraifft yn erbyn:

*"At ei gilydd nid yw merched sy'n terfynu eu beichiogrwydd eisiau cael trafodaeth am waredu meinwe. Mae gorfodi'r un broses reoledig o wneud cais ar gyfer gwaredu meinwe o gamesgor a ffetysau wedi'u herthylu'n mynd yn erbyn yr argraff emosiynol o'r meinwe gan y merched dan sylw a byddai'n cyflwyno problemau sylweddol i glinigau erthylu a phartneriaid ymchwil fel yr HDBR, sef y corff a gynrychiolwn."*

122. Dywedodd Ymddiriedolaeth y NUHNHS y gallai'r amgylchiadau sy'n arwain at amlosgi amrywio:

*"Dylem ystyried nad yw pob beichiogrwydd wedi'i ddymuno am nifer o resymau ac efallai bod materion crefyddol neu drais domestig i'w hystyried. Mae cyfrinachedd yn hynod bwysig i bawb ohonom sy'n gweithio yn y maes hwn. Nid ydym ychwaith yn trafod dulliau gwaredu gydag unrhyw un sy'n honni eu bod yn dad y baban oni bai fod gennym ganiatâd y fam. Rhaid cymryd hyn o ddifrif a dylai'r canllawiau adlewyrchu hyn yn yr un modd."*

**C23 – Ers cyhoeddi canllawiau'r HTA ym mis Mawrth 2015:**

- **yn eich profiad chi ydy nifer y ceisiadau i amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos oed wedi cynyddu neu leihau? A fyddech gystal ag egluro eich ateb.**

- **ydych chi’n ymwybodol o unrhyw achosion lle na ddilynwyd y canllawiau? Os felly, rhowch fanylion os gwelwch yn dda.**

123. Atebodd ychydig dros draean yr ymatebwyr y cwestiwn hwn (dywedodd rai na wnaeth ateb ei bod yn rhy fuan i ddweud). O’r rhain, dywedodd y rhan fwyaf nad oedd unrhyw newid wedi bod yn nifer yr amlosgiadau ers Mawrth 2015; dywedodd rai y gwelsant gynnydd; a dywedodd un neu ddau y gwelsant leihad.

124. O’r rhai a welsant gynnydd, dim ond un ymatebwr a ddywedodd fod y cynnydd yn sylweddol. Dywedodd eraill fod y cynnydd oherwydd cytundebau a roddwyd yn eu lle rhwng yr ysbyty a’r amlosgfa, neu fod cynnydd wedi bod mewn rhieni’n dymuno cael amlosgiad preifat.

125. Dywedodd un caplan ysbyty *“Yn fy mhrofiad i fel Caplan Gofal Iechyd ers deng mlynedd yn y GIG, mae nifer y ceisiadau i amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos oed wedi dringo’n gyson wrth i staff clinigol gydnabod pa mor bwysig yw gwaredu’r ffetws gydag urddas oherwydd, yn argraff y rhieni, mae’n ‘faban’ pa bynnag mor ddi-ffurf ydyw pan fo’n cael ei eni.”*

126. Dywedodd un ymatebwr o Ymddiriedolaeth GIG Sefydliad Iechyd Gateshead *“Mae cyhoeddusrwydd i’r mater hwn wedi arwain at fwy o ymholiadau am waredu gweddillion ffetws yn barchus yn y ddwy flynedd ddiwethaf nag yn yr holl 24 mlynedd ers imi ddechrau ymarfer.”*

127. Dywedodd gwpwl o awdurdodau lleol, ar gyfer amlosgi ar y cyd a drefnwyd gan ysbytai, nad oeddent yn derbyn gwybodaeth am oed y ffetysau, dim ond cyfeirif ysbyty unigryw.

**C24 - O ran canolwyr meddygol amlosgfeydd:**

- **Yn eich profiad chi, ydy canolwyr meddygol amlosgfeydd ar hyn o bryd yn edrych ar y ffurflenni ar gyfer amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos oed, er nad oes ganddynt rôl statudol i wneud hynny?**
- **Pe bai amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos oed yn cael ei reoleiddio, pa effaith fyddai hyn yn ei chael (gan gynnwys goblygiadau cost) ar lwyth gwaith canolwyr meddygol amlosgfeydd?**

128. Roedd gan ychydig dros hanner yr ymatebwyr farn am y cwestiwn hwn. Nid oedd barn gyson gan y gwahanol fathau o ymatebwyr. Dywedodd hanner y rhai a ymatebodd nad yw canolwyr meddygol yn edrych ar ffurflenni ac y byddai rheoleiddio amlosgi ffetysau cyn 24 wythnos oed yn trymhau gwaith canolwyr meddygol. Dywedodd bron yr un nifer fod canolwyr meddygol eisoes yn craffu ar ffurflenni ac felly na fyddai rheoleiddio’n cael fawr ddim effaith ar eu llwyth gwaith. Dywedodd nifer o’r rhai a ymatebodd fod arferion yn amrywio naill ai ymhlith canolwyr meddygol neu'n ôl gwahanol fathau o amlosgiadau – er enghraifft, mae rhai canolwyr meddygol yn edrych ar geisiadau amlosgi unigol, ond nid ar rai ar y cyd.

129. Nid oedd gan rieni ac unigolion eraill, a chyrff gwirfoddol a grwpiau ffydd, farn gref am hyn. Ni atebodd y rhan fwyaf o drefnwyr angladdau ond awgrymodd un neu ddau y byddai llwyth gwaith y canolwyr meddygol yn cynyddu.

130. O ran codi tâl, roedd arferion yn amrywio ymhlith awdurdodau amlosgi ac awdurdodau lleol. Dywedodd rai fod canolwyr meddygol yn edrych ar y ffurflenni heb godi tâl, dywedodd eraill fod canolwyr meddygol yn codi tâl a’r awdurdod amlosgi’n derbyn y gost a dywedodd eraill wedyn fod canolwyr meddygol yn codi tâl a bod y gost yn cael ei phasio ymlaen i’r teulu. Awgrymodd rai, er nad oedd eu canolwyr meddygol yn codi ar hyn o bryd, pe bai’r amlosgiadau hyn yn cael eu rheoleiddio y byddai angen dechrau codi oherwydd y byddai nifer yr achosion lle’r oedd angen craffu’n cynyddu.

131. Awgrymodd Gyngor Dinas Caerlŷr nad oedd angen i ganolwyr meddygol archwilio'r ffurflenni oherwydd bod *"Statws cyfreithiol y ffetws fel meinwe'r fam ond yn gofyn am awdurdodiad gan y fam a chadarnhad meddygol ysgrifenedig o'r amser yn y groth cyn gallu amlosgi".*

132. Rhoddodd y Sefydliad Rheoli Mynwentydd ac Amlosgfeydd (ICCM) fanylion defnyddiol mewn ymateb i ddwy ran y cwestiwn:

*"(a) Mae'r Sefydliad yn ymwybodol bod rhai amlosgfeydd, ond nid eraill, yn gofyn i'w canolwr meddygol roi Ffurflen 10. Mae hyn yn faich ariannol diangen ar rieni mewn profedigaeth, neu ar awdurdodau amlosgi nad ydynt yn codi tâl am amlosgi babanod.*

*(b) Nid oes gwir angen i'r Canolwr Meddygol archwilio'r ffurflen a'r dystysgrif ar gyfer amlosgi ffetysau, oherwydd nid oes gwybodaeth feddygol fanwl ynddynt. Mae'r awdurdodau amlosgi nad ydynt ar hyn o bryd yn gofyn i'w canolwr meddygol roi Ffurflen 10 wedi profi hyn. Gellid yn hawdd parhau i ofyn bod rheolwyr amlosgfa'n archwilio cais statudol a thystysgrif, o gynnwys hyn yn y rheoliadau. Ni fyddai'r uchod yn achosi cost ychwanegol i amlosgfeydd a byddai'n arbed talu'r oddeutu £20 a godir gan ganolwyr meddygol ar (rai) rhieni mewn profedigaeth. Dylid cofio bod swydd y canolwr meddygol wedi cael ei dileu yn yr Alban ar 13 Mai 2015 pan gyflwynwyd y cynllun ardystio marwolaeth newydd. Yn yr Alban, staff amlosgfeydd sydd bellach yn archwilio ffurflenni a thystysgrifau ac nid oes unrhyw broblem wedi'i hadrodd ers cyflwyno'r cynllun. Mae'r staff hyn hefyd yn archwilio ffurflenni ar gyfer amlosgi babanod marw-anedig a ffetysau nad ydynt yn mynd drwy swyddfa'r Adolygydd Meddygol. Gallai'r un sefyllfa fodoli os a phryd y caiff proses ardystio marwolaeth newydd ei chyflwyno yng Nghymru a Lloegr."*

**C25 – Ydych chi'n meddwl y byddai rheoleiddio amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos oed yn cael effaith ar nifer yr amlosgiadau hyn? Ydych chi'n rhagweld unrhyw gostau ychwanegol? Os ydych, rhowch fanylion am ba gostau fyddai'n codi a faint y byddech yn disgwyl i'r costau fod.**

133. Atebodd ychydig dros draean o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn, gyda'r farn yn gymysg. Teimlai rai y byddai rheoleiddio'n cynyddu nifer yr amlosgiadau unigol, gydag eraill yn teimlo y gallai rheoleiddio gymell rhieni i beidio â dewis yr opsiwn hwn.

134. Teimlai rai ymatebwyr y byddai nifer yr amlosgiadau'n cynyddu oherwydd eu bod yn credu y byddai rheoleiddio'n golygu rhoi'r gorau i'r arfer presennol o amlosgi ar y cyd. Gallwn gadarnhau fodd bynnag nad yw hyn yn fwriad gan y Llywodraeth. Yn hytrach, ein bwriad yw ystyried rheoleiddio amlosgi, p'un ai'n amlosgi unigol neu ar y cyd, heb newid yr arferion presennol.

135. Yn ôl y FBCA:

*"Efallai na fyddai rheoleiddio'n effeithio ar nifer yr amlosgiadau unigol o ffetysau, fodd bynnag oni bai fod yr awdurdod amlosgi'n barod i dderbyn y gost, byddai angen i'r rhiant neu'r GIG (pe bai'n gweithredu fel yr ymgeisydd amlosgi) dalu ffioedd y canolwyr meddygol. Yn ogystal, dylid nodi pe bai nifer yr amlosgiadau unigol yn cynyddu'n sylweddol, y byddai'n golygu bod angen gosod mwy o amlosgyddion ac y byddai costau'r gweithredwyr yn cynyddu yn yr un modd."*

136. Rhoddwyd enghreifftiau o arferion da, er enghraifft, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf:

*"Mae polisi CTUHB [....] ar gyfer gwaredu gweddillion ffetws llai na 24 wythnos oed yn sensitif yn nodi bod y fam yn cael cynnig yr holl opsiynau o waredu'n sensitif sydd ar gael i'r Bwrdd Iechyd gan wasanaethau profedigaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Maen nhw hefyd yn cael eu hysbysu'n llawn y medrant wneud trefniadau angladd preifat ar gyfer eu baban. Os yw'r fam yn dewis amlosgiad Bwrdd Iechyd, eglurir iddi y bydd y gweddillion yn cael eu hamlosgi ar y cyd â gweddillion ffetysau eraill ac felly, lle mae llwch yn cael ei hel, na fydd yn dod o weddillion unigol. Mae'r polisi'n egluro nad yw llwch unigol felly ar gael i'w ddychwelyd i'r rhieni'n dilyn*

*amlosgiad Bwrdd Iechyd ond bod unrhyw lwch ar y cyd sy'n cael ei hel yn cael ei wasgaru'r diwrnod ar ôl yr amlosgiad ar safle dynodedig ym mhob amlosgfa. Mae'r ffurflen ganiatâd a lofnodir gan y fam i wneud cais amlosgi'n cynnig yr opsiynau'n glir, yn cadarnhau bod yr holl wybodaeth wedi cael ei rhoi am yr opsiynau ac nad yw'n bosib hel llwch unigol os dewisir amlosgiad Bwrdd Iechyd."*

**C26 – [Ar gyfer awdurdodau amlosgi] A fyddai rheoleiddio amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos oed yn golygu bod angen i chi gael cyfarpar ychwanegol yn eich amlosgfa oherwydd y nifer fwy o amlosgiadau? Os byddai, rhowch fanylion am ba gyfarpar y byddai ei angen a beth fyddai'r costau cysylltiedig y byddech yn eu disgwyl.**

137. Atebodd dros dri chwarter yr awdurdodau amlosgi a'r awdurdodau lleol a ymatebodd i'r ymgynghoriad y cwestiwn hwn, ac o'r rhain dywedodd eu hanner na fyddai angen cyfarpar newydd. Dywedodd rai y gallai fod angen mwy o gyfarpar neu adnoddau eraill pe bai nifer yr amlosgiadau'n cynyddu. Nid oedd llawer o gonsensws gyda'r adnoddau y soniwyd amdanynt yn cynnwys treis babanod, rhaglenni ar gyfer amlosgyddion, technegwyr, oriau ychwanegol o ddefnyddio canolwyr meddygol, neu amlosgydd newydd.

**Ymateb a gweithredu arfaethedig**

- Roedd yr ymgynghoriad yn holi barn ynghylch, ar gyfer rhai oedd yn dewis amlosgi, a ddylid rheoleiddio'r broses amlosgi. Roedd gan rai ymatebwyr bryderon bod y Llywodraeth yn ystyried gwneud amlosgi'r unig opsiwn ar gyfer ffetysau cyn 24 wythnos oed. Gallwn gadarnhau nad oes cynlluniau i newid yr arferion presennol lle gall rhiant ddewis a ydynt am amlosgi, claddu, llosgi neu beidio â chael unrhyw ran mewn penderfynu pa drefniadau i'w gwneud a gofyn i'r ysbyty wneud y trefniadau.

- Cynigiwn ddod ag amlosgi ffetysau cyn 24 wythnos oed o fewn sgôp Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008.

- Oherwydd na fydd hyn yn fater syml o ehangu'r rheoliadau presennol, byddwn yn ystyried ymhellach y problemau ymarferol a godir yn yr ymgynghoriad hwn cyn cytuno'n derfynol ar y rheoliadau a'r ffurflenni cysylltiedig, gyda golwg ar weithredu'r newidiadau yn 2017.

- Mae ein hymatebion i'r cwestiynau isod yn rhoi mwy o fanylion am sut y bwriadwn ddelio ag agweddau penodol ar reoleiddio.

- Nodwn, ac rydym yn ddiolchgar, am farn yr ymatebwyr am effaith rheoleiddio amlosgi ffetysau cyn 24 wythnos oed.

- Nodwn nad oes newid mawr wedi bod yn nifer yr amlosgiadau ers i ganllawiau'r Awdurdod Meinwe Dynol ar waredu gweddillion ffetysol yn sensitif gael eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2015.

Ffurflen gais a phroses ar gyfer amlosgi ffetws llai na 24 wythnos oed

**C27 – Ydych chi'n meddwl y dylid cael ffurflen gais statudol ar gyfer amlosgi ffetws llai na 24 wythnos oed, ac na ellid amlosgi heb lenwi'r ffurflen hon? A fyddech gystal ag egluro eich ateb.**

138. Atebodd bron i dri chwarter yr ymatebwyr y cwestiwn hwn ac o'r rhain roedd bron i'w tri chwarter o blaid cael ffurflen gais statudol. Roedd gan y gweddill naill ai farn gymysg neu yn erbyn y syniad.

139. O ran pobl mewn profedigaeth ac unigolion eraill, roedd tua dau o bob tri o blaid ffurflen gais statudol a'r lleill heb farn. Dywedodd un y dylid cael ffurflenni gwahanol yn dilyn camesgor neu erthyliad. Roedd grwpiau ffydd a chyrff gwirfoddol hefyd naill ai o blaid neu heb fynegi barn. Roedd Sands o blaid, gan ddweud:

*"Ie. Dylid cael ffurflen gais statudol ar gyfer amlosgi ffetws llai na 24 wythnos oed, ac ni ddylid gallu amlosgi heb lenwi'r ffurflen hon. Byddai hyn, ynghyd â'r cynigion ar gyfer amlosgi ffetysau mwy na 24 wythnos oed, yn gwneud pob amlosgiad baban yn gyfreithiol gyfartal gan sicrhau bod pob colled yn cael ei thrin yr un fath ac yn derbyn yr un ymarfer cyson. Mae'n bwysig bod rhieni'n cael gwybod am bob opsiwn sydd ar gael i waredu gweddillion ffetysol yn sensitif, beth bynnag yw oed y ffetws, fel y medrant wneud dewis gwybodus ar gyfer eu baban. Byddai ffurflen gais statudol yn helpu i wneud y wybodaeth a roddir i rieni mewn profedigaeth yn fwy unffurf ac yn gwella atebolrwydd wrth amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos oed."*

140. Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau amlosgi ac awdurdodau lleol o blaid cael ffurflen gais statudol, gyda dim ond dau'n anghytuno (er i un ohonynt amodi hyn drwy ddweud bod angen cael trywydd archwilio clir). Roedd Cyngor Kirklees yn nodweddiadol o'r grŵp hwn oedd o blaid cael ffurflen gais statudol, gan ddweud:

*"Ie – mae'n rhoi trywydd archwilio. Mae'n dangos caniatâd y rhiant / rhieni ac eglurder o ran manylion yr angladd. Mae'n gadael i'r cwestiwn o hel llwch gael ei godi ac yn caniatáu i'r teulu gael sgwrs am eu dymuniadau sydd yna'n cael ei chofnodi ac y gellir cyfeirio'n ôl ati."*

141. Dywedodd y FBCA, Cymdeithas Amlosgi Prydain ac Amlosgfa Abertawe:

*"Os yw amlosgi ffetysau cyn 24 wythnos oed yn dod o fewn y ddeddfwriaeth, yna byddai angen ffurflen gais statudol i sicrhau bod yr holl gwestiynau statudol yn cael eu hateb yn foddhaol; neu fel arall ni fyddai'n iawn gofyn i bobl lenwi ffurflen statudol ar gyfer proses anstatudol."*

142. Ar y cyfan roedd yr ymatebwyr meddygol o blaid er i rai awgrymu bod ffurflenni eraill yr oeddent eisoes yn eu defnyddio oedd yn ddigonol (gan ddarparu copïau chwarae teg). Gwnaed awgrymiadau bod angen dulliau gwahanol ar gyfer camesgor ac erthylu neu y dylid defnyddio ffurflenni gwahanol ar gyfer cyfnodau gwahanol yn y groth (e.e. dros a llai na 12 wythnos).

*143.* Ac eithrio'r NAFA (gweler cwestiwn 21) roedd y trefnwyr angladdau o blaid. Cymharodd un trefnydd angladdau'r posibilrwydd i gyflwyno ffurflenni statudol eraill yn y gorffennol:

*'Yn hollol, pan newidiodd y rheoliadau ar Amlosgi ar 1 Ionawr 2009, fe wyddai bob trefnydd angladdau na fyddai amlosgiad yn gallu digwydd heb y ffurflenni newydd. Yn yr un modd, pe bai ffurflen gais statudol yn cael ei chyflwyno ar gyfer ffetws llai na 24 wythnos oed, byddai'n gwneud i ffwrdd â'r mater o gael caniatâd yn syth a byddai cofnod o'r ffaith bod y rhieni wedi rhoi eu caniatâd ac yn deall y broses amlosgi a'i goblygiadau.'*

**C28 – A gawsoch / ydych chi'n ymwybodol o unrhyw broblemau'n codi o'r ffaith nad yw'r ffurflenni ar gyfer amlosgi ffetws llai na 24 wythnos yn rhai statudol? Os ydych, rhowch fanylion os gwelwch yn dda.**

144. Atebodd bron i hanner yr ymatebwyr y cwestiwn hwn. O'r rheini, dywedodd eu hanner nad oeddent yn ymwybodol bod problem wedi codi oherwydd nad oedd ffurflen gais statudol. Ar gyfer rhai ohonynt, wrth ystyried eu hateb ochr yn ochr â'u hatebion i gwestiynau eraill, roedd yn ymddangos eu bod wedi ateb 'na' oherwydd nad oedd ganddynt brofiad yn y maes, yn hytrach na'u bod wedi gweithio yn y maes a heb ddod ar draws unrhyw broblem. Ni chawsom fawr ddim gwybodaeth mewn ymateb i'r cwestiwn hwn am ba weithdrefnau oedd yn eu lle i atal problemau.

145. Roedd bron i chwarter yr ymatebwyr wedi ateb 'ie' neu wedi codi materion eraill cysylltiedig. Roeddent yn cynnwys ystod o ymatebwyr - rhieni ac unigolion, awdurdodau lleol ac awdurdodau amlosgi, ynghyd ag un neu ddau ymarferydd meddygol a threfnydd angladdau a ddywedodd y cawsant broblemau. Y prif reswm cyntaf a roddwyd oedd bod diffyg cysondeb ar hyn o bryd gyda'r gwaith papur oedd ei angen gan wahanol amlosgfeydd a / neu fod ansawdd y gwaith papur weithiau'n wael. Dywedodd nifer o rieni nad oeddent yn cael gwybod beth a ddigwyddodd i lwch eu babanod, neu ei bod yn cymryd amser hir i dderbyn y wybodaeth. Ar nodyn cysylltiedig soniodd y FBCA fod y diffyg rheoleiddio'n golygu, er enghraifft, nad yw'n ofynnol cofnodi gwybodaeth mewn cofrestr amlosgiadau.

146. Dywedodd eraill a atebodd 'ie' fod dryswch ynghylch beth oedd y broses. Yn ôl un trefnydd angladdau *"Cefais alwad ffôn yn ddiweddar gan gorffty ysbyty oedd ddim yn hollol ymwybodol o'r drefn iawn i'w dilyn ac yn gofyn am arweiniad."*

147. Felly hefyd, dywedodd Gyngor Blackpool fod trafferthion weithiau:

*"Oherwydd efallai nad yw nyrsys sy'n helpu'r fam i lenwi'r ffurflen yn llenwi'r ffurflenni hyn yn rheolaidd. Ar y llaw arall mae meddygon wedi cael peth hyfforddiant neu'n mynd i'r Swyddfa Brofedigaeth yn yr ysbyty i gael help i lenwi'r ffurflen. Mae rhai nyrsys yn cael trafferth llenwi'r ffurflenni pan fydd y terfyniad yn derfyniad llawdriniaethol a gynlluniwyd ac mae angen cadw pethau'n ddienw."*

148. Yn ôl Cyngor Medway, *"Ni chawsom broblem benodol ond, yn ein profiad ni, heb fformat unedig mae dryswch weithiau'n codi ynghylch beth sy'n cael ei gyflwyno a sut i'w ddehongli".*

**C29 – Ydych chi'n meddwl, ar gyfer amlosgi ffetws llai na 24 wythnos oed a drefnir gan yr ysbyty, y dylai'r ffurflen gais gadarnhau bod y rhieni (neu yn achos amlosgi ar y cyd, rhieni pob un o'r ffetysau) wedi cytuno mai'r ysbyty fydd yn gwneud y cais i amlosgi?**

149. Atebodd bron i ddau o bob tri o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd pawb bron o'r rheini – ar draws pob categori o ymatebwyr – yn cytuno, ar gyfer amlosgi ffetws llai na 24 wythnos oed a drefnir gan yr ysbyty, y dylai'r ffurflen gais gadarnhau bod y rhieni (neu yn achos amlosgi ar y cyd, rhieni pob un o'r ffetysau) wedi cytuno mai'r ysbyty fydd yn gwneud y cais i amlosgi.

150. O'r rhai oedd yn cytuno, roedd barn Coleg Brenhinol y Patholegwyr yn nodweddiadol:

*"Ym marn Cymrodyr y Coleg i ni ymgynghori gyda nhw, ar gyfer amlosgi ffetws llai na 24 wythnos oed a drefnir gan yr ysbyty, dylai'r cais gadarnhau bod y rhieni (neu yn achos amlosgi ar y cyd, rhieni pob un o'r ffetysau) wedi cytuno mai'r ysbyty fydd yn gwneud y cais amlosgi ac efallai na fydd yn bosib hel unrhyw lwch ar ôl yr amlosgiad, ac yn cadarnhau bod y rhieni wedi deall hyn. Credwn y dylid hefyd nodi'n glir na fydd amlosgiadau ar y cyd yn gallu dychwelyd llwch unigol. Bydd angen nodi'n glir beth fydd yr opsiynau ar gyfer gwaredu llwch ond gallai amrywio o un amlosgfa i'r llall."*

151. Roedd Sands yn cytuno:

*"Ie, er na fydd pob rhiant neu rieni am fod yn rhan o'r broses, mae'n bwysig bod rhieni'n cael eu hysbysu o'r hyn fydd yn digwydd. Drwy gadarnhau bod y rhieni wedi cytuno drwy'r ffurflen gais mai'r ysbyty fydd yn gwneud cais i amlosgi, bydd yn sicrhau proses well o ran caniatâd ac atebolrwydd ar gyfer yr amlosgiadau hyn."*

152. Nid oedd Action 4 Ashes yn cytuno:

*"Mae fy ateb i'n syml, ni ddylai ysbytai fod yn trefnu angladdau, nid nhw ddylai fod yr ymgeisydd amlosgi. Mae hyn wedi creu problemau difrifol yn Hull a theuluoedd ddim yn gwybod beth a ddigwyddodd i'w baban."*

153. Roedd Ymddiriedolaeth Ysbytai Prifysgol Nottingham yn poeni am ddymuniadau'r fam:

*"Mae llawer o ferched eisiau cerdded i ffwrdd o'r sefyllfa, nid ydynt eisiau llenwi ffurflenni. Bydd rhai ffurflenni byth efallai'n cael eu llenwi gan adael yr Ymddiriedolaeth mewn sefyllfa anodd o ran sut i ddelio â'r ffetws. Mae'n digwydd yn llawer amlach nag y tybiwch."*

154. Roedd llawer o'r ymatebwyr wedi rhoi enghreifftiau o'r cymhlethdodau oedd angen eu hystyried cyn cytuno ar ffordd ymlaen. Meddai'r Gymdeithas Amlosgfeydd a Mynwentydd Preifat:

*"Ie, lle mae dau riant, dylai'r ddau gadarnhau eu bod yn cytuno mai'r ysbyty ddylai wneud y cais i amlosgi. Fodd bynnag, gallai fod achosion lle na fydd y rhieni efallai'n rhoi caniatâd ffurfiol neu lle mae'r rhieni'n anghytuno. Yn yr achosion hyn rhaid cael cyfnod diofyn a phroses swyddogol ar gyfer awdurdodi'r amlosgiad."*

155. Roedd Cyngor South Tyneside hefyd o blaid cael ffurflen yn cadarnhau cytundeb y rhieni, ond yn ychwanegu:

*"Oherwydd bod hwn yn faes newydd yn y ddeddfwriaeth hon, rhaid ystyried yn ofalus pwy sydd â chaniatâd rhieni. Mae'n debyg mai'r fam yw'r un a fyddai'n rhoi caniatâd yn y rhan fwyaf o achosion lle mae ffetws yn camesgor neu'n cael ei erthylu. Fodd bynnag, gallai fod achosion beichiogrwydd eraill, drwy fam fenthyg er enghraifft, lle mae rhieni'r ffetws yn llai clir. Gallai fod enghreifftiau lle mae'r fam wedi marw, felly mae angen bod yn glir ynghylch ai perthynas agosaf mam a fu farw sydd â chaniatâd, neu ai tad y ffetws sydd â chaniatâd rhieni. Mae ffetysau o roddwr sberm yn debygol o fod yn llai cymhleth, gyda deddfwriaeth eisoes yn ei lle i sefydlu cyfrifoldebau rhieni. Dylid geirio'r ffurflenni ysbyty'n sensitif i sicrhau mai'r person sy'n rhoi caniatâd yw'r person yr ystyrir bod ganddynt, o dan y gyfraith fel y mae, gyfrifoldeb rhieni. Mae hyn yn hollbwysig fel na hawlir yn y dyfodol bod llwch wedi'i waredu'n anghyfreithlon. Bydd yr awdurdod amlosgi'n derbyn ceisiadau dim ond lle mae'n glir bod y Trefnydd Angladdau / Cynrychiolydd Iechyd / Ysbyty neu'r rhiant wedi cytuno'n glir mai ganddyn nhw y mae'r cyfrifoldeb rhieni."*

**C30 – Ydych chi'n meddwl y dylai'r ffurflen gais i amlosgi ffetws llai na 24 wythnos oed nodi na fydd efallai'n bosib hel llwch ar ôl amlosgi, a chadarnhau bod y rhieni wedi deall hyn? Neu a oes ffyrdd eraill / gwell o wneud hyn yn glir i rieni? Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda.**

156. Atebodd ddau o bob tri o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd y rhan fwyaf yn credu y dylai'r ffurflen gais i amlosgi ffetws llai na 24 wythnos oed nodi na fydd efallai'n bosib hel llwch ar ôl amlosgi, a gofyn i'r rhieni gadarnhau eu bod wedi deall hyn. Teimlai nifer o'r ymatebwyr na ddylai'r ffurflen gynnwys y wybodaeth yma.

157. Roedd yr awdurdodau amlosgi, heblaw am un, awdurdodau lleol, trefnwyr angladdau, crwneriaid ac elusennau i gyd o blaid, neu mewn rhai achosion ni wnaethant fynegi barn. Roedd y

rhan fwyaf o'r ymatebwyr meddygol, rhieni ac unigolion eraill hefyd o blaid. Roedd barn Cyngor Dinas Caerlŷr yn nodweddiadol o'r rhai oedd o blaid hyn:

*"Dylai'r ffurflen gais gynnwys paragraff syml yn egluro na fydd efallai'n bosib hel unrhyw lwch. Bydd hyn yn rhoi neges gyson ac yn gadael i rieni wneud penderfyniadau cwbl wybodus. Mae dibynnu ar ddulliau eraill yn cyflwyno'r posibilrwydd y bydd y neges yn cael ei cholli neu ddim yn cael ei deall."*

158. Teimlai'r Westerleigh Group ei bod *"yn hanfodol bod y cyngor a'r cadarnhad hwn yn cael ei roi fel bod rhieni'n gallu dewis claddu os yw hel gweddillion yn hanfodol".* Roedd ymateb y FBCA yn debyg:

*"Mae'r FBCA yn credu bod angen i'r ymgeisydd fod yn ymwybodol, ar yr adegau prin wrth amlosgi ffetysau ifanc iawn, efallai na fydd unrhyw weddillion ar ôl i'w hel. Dylai hyn fod ar ffurf datganiad ar wahân yn y ffurflen gais amlosgi a dylid gofyn i'r ymgeisydd lofnodi eu bod wedi deall beth sy'n cael ei ddweud. Mae hyn er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r ffaith fel bo'r ymgeisydd yn gallu penderfynu a fyddai'n well ganddynt gladdu gweddillion eu baban yn hytrach nag amlosgi os yw gwybod lle bydd gorffwysfa derfynol y gweddillion yn hollbwysig i'r ymgeisydd."*

159. Cytunodd Sands gan ychwanegu:

*"Dylid hefyd rhoi pwyslais ar bwysigrwydd bod awdurdodau amlosgi'n gwneud eu gorau glas i sicrhau bod llwch yn cael ei hel. Ym marn Sands, dylid adrodd ac ymchwilio i bob achos lle nad yw llwch yn cael ei hel i weld a ellir dysgu gwersi o'r achos".*

160. Teimlai rai rhieni y dylai'r wybodaeth yma fod ar y ffurflen a'r neges yn cael ei hatgyfnerthu gan drefnwyr angladdau. Ym marn yr ICCM dylai rhieni hefyd dderbyn y wybodaeth hon cyn llenwi'r ffurflen gais, i roi amser iddynt ystyried hyn cyn symud ymlaen.

161. Dywedodd nifer o'r ymatebwyr y dylid nodi'n glir fod dychwelyd llwch ond yn bosib gydag amlosgiadau unigol ac nad yw'n opsiwn ar gyfer amlosgi ar y cyd.

*162.* Dywedodd rai rhieni na ddylai'r wybodaeth yma fod ar y ffurflen oherwydd y dylid gallu hel llwch. Teimlai rai o'r ymatebwyr y gallai'r wybodaeth achosi trallod ond teimlai eraill na fyddai. Yn ôl Action 4 Ashes, dylai'r wybodaeth:

*"...fod yn bresennol ar y ffurflenni ond dylai hefyd ddweud y bydd disg fetel yn cael ei chyflwyno i chi (a gynhyrchir gan Keep Me Close) fydd yn cael ei hamlosgi gyda'r corff ac yna'n cael ei dychwelyd i chi os na fydd unrhyw lwch yn cael ei hel. Fel hynny mae'n gwneud i ffwrdd â'r posibilrwydd na fydd dim ar ôl. Rhaid gwneud pob ymdrech i hel y llwch gwreiddiol."*

### C31 – A ddylai'r ffurflen gais i amlosgi ffetws llai na 24 wythnos oed ofyn bod y rhieni wedi datgan beth a ddylai ddigwydd i unrhyw lwch sy'n cael ei hel?

163. Atebodd tua dau o bob tri o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn. O'r rhain dywedodd ddau o bob tri y dylai'r ffurflen gais i amlosgi ffetws llai na 24 wythnos oed ofyn bod y rhieni wedi datgan beth a ddylai ddigwydd i unrhyw lwch sy'n cael ei hel. Teimlai gweddill yr ymatebwyr naill ai na ddylai'r ffurflen gais ofyn am hyn, neu roedd ganddynt bryderon.

164. Er bod barn yr ymatebwyr i ddechrau'n ymddangos i fod yn amrywio, o graffu'n fwy manwl awgrymir bod barn yr ymatebwyr yn eithaf tebyg, gyda phwyntiau tebyg yn cael eu gwneud, yn enwedig na fydd rhieni efallai'n gwybod ar adeg yr amlosgi beth ydynt eisiau ei wneud gydag unrhyw lwch, ac y dylai'r ffurflen roi amser i rieni benderfynu ar ôl yr amlosgiad. Gan ymatebwyr meddygol a threfnwyr angladdau oedd y pryderon mwyaf.

165. Dywedodd rai y dylid nodi'n glir bod opsiynau ar gael ar gyfer llwch dim ond ar ôl amlosgiad unigol, nid ar ôl amlosgi ar y cyd. Er enghraifft, dywedodd un cyn Reolwr Gwasanaethau Profedigaeth:

*"Lle mae'r angladd yn un unigol, ac felly'n cael ei ariannu gan y rhieni, yna "ie" yw'r ateb. Ni fyddai'r ffurflen hon fawr ddim gwahanol i'r un a ddefnyddir ar gyfer unrhyw amlosgiad unigol, beth bynnag yw'r oed. Mae hyn oherwydd y gallwn ragweld y rhiant yn enwi'r ffetws ac yn gofyn am wasanaeth angladd, ac felly bydd angen cael manylion y seremoni, y grefydd a'r gerddoriaeth ayyb. Oherwydd fy mod yn rhagweld mai amlosgi ar y cyd fydd y norm, ac na fydd llwch ar wahân yn bosib, yna nid oes angen datganiad gan y rhieni ar gyfer amlosgi ar y cyd. Byddai llwch amlosgi ar y cyd yn cael eu rhoi mewn lle dynodedig yn yr Ardd Goffa, felly ni fyddai unrhyw ddryswch o ran eu lleoliad. I rai na fyddai efallai'n cytuno i'r ymarfer hwn, byddwn yn rhagweld bod pob rhiant yn cael cyfle i amlosgi eu ffetws ar wahân ac ar gost iddynt eu hunain."*

*166.* O ran na fydd rhieni efallai'n gwybod, pan fyddant yn gwneud cais i amlosgi, beth a ddylai ddigwydd i'r llwch, dywedodd un unigolyn fod rhieni efallai angen hyd at chwe mis i benderfynu. Dywedodd riant arall mewn profedigaeth *"Na nid wyf yn meddwl y dylai rhieni orfod dweud pan fyddant yn gwneud cais beth ddylai ddigwydd pan fydd yr amlosgi'n digwydd. Ni fydd y rhieni ar y pwynt hwn (fel yn fy achos i) yn meddwl yn glir a bydd angen amser arnynt i feddwl am y penderfyniad hwn."*

167. Roedd Amlosgfa Abertawe'n cytuno *"Yn aml iawn mae'n rhy fuan i benderfynu ar yr adeg pan wneir y cais; fodd bynnag dylai'r ffurflen gais gynnig opsiynau i wasgaru, claddu, cadw a chasglu."*

168. Roedd gan y FBCA farn debyg:

*"O gofio'r amgylchiadau trallodus a allai ymyrryd â gwneud penderfyniad yn syth ar ôl colli baban am ba bynnag reswm, dylai penderfyniad yr ymgeisydd ar yr adeg y gwneir y trefniadau fod yn seiliedig ar y canlynol. Llwch i'w wasgaru (heb dyst), Llwch i'w wasgaru (gyda thyst), Llwch i'w symud o'r amlosgfa, Llwch i'w gadw yn yr amlosgfa (hyd nes y gwneir penderfyniad – a gellid rhoi terfyn amser ar gyfer hyn). Gellid delio â hyn fel rhan o'r ffurflen gais neu, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd yn y rhan fwyaf o amlosgfeydd, drwy lenwi ffurflen anstatudol ar wahân."*

169. Dywedodd Sands fod yn well gan rai rhieni i ysbyty benderfynu beth a ddylai ddigwydd i'r llwch:

*Na." Oni bai, fel gyda'r cynigion ar gyfer y ffurflen gais i amlosgi ffetws dros 24 wythnos oed, ei bod hefyd yn cynnwys opsiynau i rieni awdurdodi'r ysbyty i wneud penderfyniadau ar eu rhan a bod yr awdurdod amlosgi / trefnydd angladdau'n cadw'r llwch am gyfnod penodol hyd nes y rhoddir cyfarwyddyd pellach. Er y bydd llawer o rieni am gael eu cynnwys yn y broses hon, ni fydd eraill am fod, neu bydd angen amser arnynt i feddwl am beth y maen nhw eisiau ei wneud. Mae anghenion y rhieni'n hollbwysig a dylid eu parchu a'u cefnogi bob amser."*

170. Yn fyr, roedd yr ymatebwyr yn ymddangos i gytuno y dylid rhoi dymuniadau'r rhieni wrth galon y broses – bydd rhai efallai'n gwybod pan wneir y cais beth a ddylai ddigwydd i'r llwch ar ôl amlosgiad unigol; beth rhai am ohirio eu penderfyniad; a bydd eraill eisiau i'r ysbyty benderfynu. Credai'r ymatebwyr y dylai'r ffurflen amlosgi ganiatáu ar gyfer trafod a chofnodi dymuniadau'r rhieni.

**C32 – A ddylai ffurflen gais i amlosgi ffetws llai na 24 wythnos oed fod yn wahanol lle mae rhiant yn dymuno trefnu'r amlosgiad eu hunain, yn hytrach na thrwy'r ysbyty?**

171. Atebodd ddau o bob tri o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn. O'r rhain teimlai'r rhan fwyaf (dau o bob tri o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn) y dylai'r ffurflen gais fod yr un fath p'un ai'r rhieni neu'r ysbyty oedd yn gwneud y cais amlosgi. Teimlai'r gweddill y dylai'r ffurflen fod yn wahanol.

172. Roedd barn y rhieni ac unigolion eraill yn rhanedig. Ni atebodd y rhan fwyaf o'r cyrff gwirfoddol a'r grwpiau ffydd, er y dywedodd un neu ddau eu bod yn teimlo y dylai'r ffurflen fod yr un fath. Teimlai'r rhan fwyaf o'r awdurdodau amlosgi ac awdurdodau lleol a'r ymatebwyr meddygol a atebodd y cwestiwn, y dylid cael un ffurflen, felly hefyd y trefnwyr angladdau a atebodd.

173. Roedd yr ymatebwyr yn tueddu i deimlo bod angen amrywio rhywfaint ar y ffurflen ar gyfer amlosgi unigol ac amlosgi ar y cyd. Meddai'r FBCA, *"Nid oes angen yn benodol cael ffurflen gais wahanol ar gyfer amlosgiad unigol; fodd bynnag byddai angen cael dyluniad gwahanol ar gyfer cais i amlosgi ar y cyd er mwyn cynnwys gwybodaeth ychwanegol am y ffetysau lluosog."*

174. Roedd Amlosgfa Abertawe'n cytuno nad oedd angen ffurflenni gwahanol ar gyfer amlosgi unigo, *"Fodd bynnag, byddai'n wahanol yn achos amlosgi ar y cyd oherwydd dim ond rhifau ysbyty sydd angen eu darparu.*"

*175.* Awgrymodd Ysbyty'r Frenhines Alexandria, Portsmouth:

*"Gallai'r un ddogfen fod ag adran ar wahân oedd angen ei llenwi. Pe na bai'r adran yn berthnasol, gellid rhoi croes trwyddi. Gallai ceisio cyflwyno gwahanol ddogfennau arwain at lenwi'r ffurflenni anghywir, neu waeth fyth, na fyddai cyfarwyddiadau'r rhieni'n cael eu cwrdd."*

*176.* Fodd bynnag roedd gan yr ICCM farn wahanol gan ddweud bod angen ffurflenni ar wahân, oherwydd, *"Byddai'n anodd creu un ffurflen ar gyfer amlosgi ar y cyd wedi'i drefnu gan ysbyty, ac ar gyfer amlosgi unigol preifat, a gallai greu dryswch a allai arwain at gamgymeriadau."*

*177.* Awgrymodd Gyngor Metropolitan Barnsley fod angen cael un ffurflen, *"Fodd bynnag byddai'n ddefnyddiol cael blwch i nodi ai'r rhiant neu'r ysbyty oedd yn gwneud y cais ac yn cwtogi ar nifer y ffurflenni y byddai eu hangen."*

178. Awgrymodd Gyngor Kirklees *"Y dylid defnyddio'r un ffurflen oherwydd dylid sicrhau bod sgwrs yn digwydd rhwng y teulu a'r gweithwyr proffesiynol. Gallai'r teulu ddefnyddio copi o'r ffurflen a'i defnyddio gyda'r awdurdod amlosgi os na fyddai trefnydd angladdau'n cael ei ddewis".*

**C33 – Yn eich profiad chi, ydy cais i amlosgi ffetws llai na 24 wythnos oed bob amser yn dod gyda thystysgrif feddygol yn nodi bod y ffetws wedi cael ei golli cyn 24 wythnos oed ac nad oedd yn dangos unrhyw arwydd o fywyd? A ddylai tystysgrif feddygol o'r fath fod yn ofynnol ar gyfer amlosgi, a pham?**

179. Atebodd bron i hanner yr ymatebwyr y cwestiwn hwn. O'r rhai a atebodd, dywedodd bron pob un fod ceisiadau i amlosgi ffetws llai na 24 wythnos oed bob amser yn dod gyda thystysgrif feddygol yn nodi bod y ffetws wedi cael ei golli cyn 24 wythnos oed ac nad oedd yn dangos unrhyw arwydd o fywyd.

180. Eglurodd lawer o'r ymatebwyr mai pwrpas a phwysigrwydd y dystysgrif feddygol oedd cadarnhau bod y ffetws yn llai na 24 wythnos oed oherwydd, os oedd dros 24 wythnos oed, byddai'n rhaid dilyn y rheoliadau ar amlosgi. Er enghraifft, yn ôl Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Tameside, roedd arnynt angen *"Cadarnhad gan berson meddygol yn nodi'n glir nad ydym yn amlosgi baban marw-anedig lle byddai angen dogfennau statudol gwahanol".*

181. Roedd Cymdeithas Amlosgi Prydain yn cytuno:

*“RHAID i bob cais i amlosgi ffetws llai na 24 wythnos oed gynnwys tystysgrif gan feddyg neu fydwraig. Bydd y dystysgrif yn nodi bod y ffetws wedi’i esgor ac nad oedd yn dangos unrhyw arwydd o fywyd. Bydd y dystysgrif yn sicrhau bod esgor y ffetws yn cael ei gofnodi’n gywir".*

182. Roedd gan Fwrdd Iechyd Cwm Taf fwy o fanylion:

183. *“Ie, bob amser – yn ein Bwrdd Iechyd ni mae’r dystysgrif a’r caniatâd i amlosgi ar yr un ffurflen (un ochr i bapur A4) oherwydd mae angen y ddau i symud ymlaen gyda’r amlosgi ac mae’n helpu staff yr ysbyty wrth graffu’r ffurflenni. Dylai fod angen tystysgrif feddygol ar gyfer amlosgi i sicrhau nad oes unrhyw amgylchiadau amheus gyda cholli’r beichiogrwydd (oherwydd byddai amlosgi’n dinistrio unrhyw dystiolaeth bosib) a bod y baban wedi cael ei esgor heb guriad calon ac felly nad yw’n cael ei ystyried i fod yn hyfyw, yn hytrach na marwolaeth newydd-anedig a ddylai gael ei thrin fel un farw-anedig.”*

184. Ychwanegodd Goleg Brenhinol y Patholegwyr *“Ystyrir y dystysgrif feddygol i fod cyfwerth â thystysgrif marwolaeth ar gyfer corff plentyn neu oedolyn".*

185. Rhoddodd yr ICCM fanylion am y broses a ddilynir gan ei aelodau:

*“Mae’r awdurdodau sy’n defnyddio canllawiau’r ICCM yn derbyn y canlynol:*
*Ar gyfer amlosgi ar y cyd (a drefnir gan yr ysbyty) mae’r cais yn cynnwys datganiad eu bod i gyd yn ffetysau cyn 24 wythnos oed nad oedd yn dangos unrhyw arwydd o fywyd.*
*Ar gyfer amlosgiad preifat unigol, bydd yr ysbyty’n cyflwyno tystysgrif yn nodi bod y ffetws yn llai na 24 wythnos oed ac nad oedd yn dangos unrhyw arwydd o fywyd.*
*Mae canllawiau’r Sefydliad ar Waredu Gweddillion Ffetysol yn Sensitif ar gael yn–* [*http://www.iccm-uk.com/iccm/library/Fetal%20Remains%20Policy%20Updated%20Sept2015%20.pdf*](http://www.iccm-uk.com/iccm/library/Fetal%20Remains%20Policy%20Updated%20Sept2015%20.pdf)*”.*

**Ymateb a gweithredu arfaethedig**

- Cynigiwn gael ffurflen gais statudol ar gyfer ffetysau cyn 24 wythnos oed a byddwn yn gofyn i’r gweithgor amlosgi cenedlaethol ystyried manylion hyn. Bydd hyn yn cynnwys y canlynol:

    - A ddylid cael ffurflenni ar wahân (neu un ffurflen gydag adrannau gwahanol) ar gyfer amlosgi unigol ac amlosgi ar y cyd.

    - Adran yn nodi na fydd, mewn rhai achosion, unrhyw lwch i'w hel ac yn gofyn i'r rhieni gadarnhau eu bod yn deall hyn ac yn hapus i fwrw ymlaen gyda'r amlosgiad.

    - Ar gyfer amlosgiadau unigol - adran yn rhoi'r opsiynau ar gyfer y llwch ar ôl amlosgi ac yn cadarnhau bod y rhieni'n deall hyn, ac yn nodi beth y mae'r rhieni am ei wneud gyda'r llwch.

    - Ar gyfer amlosgi ar y cyd - testun yn egluro na fydd ymgeiswyr yn derbyn unrhyw lwch yn ôl; blwch testun rhydd yn nodi beth fydd yn cael ei wneud gyda'r llwch (e.e. ble y byddant yn cael eu gwasgaru); ac adran i rieni gadarnhau eu bod yn fodlon gyda hyn a'u bod eisiau bwrw ymlaen.

    - Blwch yn cadarnhau bod ffurflen feddygol wedi'i chynnwys gyda'r cais yn cadarnhau bod y ffetws yn llai na 24 wythnos oed (gweler hefyd yr adran nesaf yn y ddogfen hon).

- Credwn mai'r ffordd orau o sicrhau cysondeb ymarfer da yw drwy wneud y ffurflenni cais amlosgi mor syml a thebyg â phosib ar gyfer gwahanol amlosgiadau. Byddwn yn ystyried geiriad priodol ac i gynorthwyo hyn byddwn yn ystyried y ffurflenni anstatudol a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer amlosgi cyn 24 wythnos oed.

Amlosgi'n dilyn colli beichiogrwydd cyn 24 wythnos oed y tu allan i ysbyty

**C34 - A oes gennych brofiad o amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos oed lle nad oedd tystysgrif feddygol? Os oes, beth oedd y broses?**

186. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr na chawsant unrhyw brofiad o amlosgi ffetws heb dystysgrif feddygol.

187. Dywedodd nifer (ymatebwyr meddygol, awdurdodau amlosgi ac awdurdodau lleol) na fyddai amlosgi'n bosib heb dystysgrifau oherwydd bod angen dangos bod y ffetws yn llai na 24 wythnos oed. Dywedodd gwpwl o'r ymatebwyr, gydag amlosgi ar y cyd wedi'i drefnu gan yr ysbyty, na fyddai awdurdodau amlosgi'n gweld tystysgrifau meddygol unigol. Awgrymodd un ymatebwr fod claddu'n briodol mewn achosion lle nad oedd tystysgrif feddygol.

188. Tynnodd yr ICCM sylw at ei ymarfer cymeradwy ac at y canllawiau a gyhoeddwyd gan yr ICCM, Sands a'r Gymdeithas Camesgor:

*"Mewn amgylchiadau lle mae camesgor wedi digwydd yn y cartref heb unrhyw ymarferydd meddygol na bydwraig yn bresennol, mae rhieni mewn profedigaeth wedi cael trafferth cael gafael ar dystysgrif fel y medrant amlosgi neu gladdu. Yn yr amgylchiadau hyn mae'r Sefydliad wedi cynghori'r fam i fynd â'i baban at ei Meddyg Teulu neu ysbyty i ofyn am lythyr yn rhoi barn feddygol.*
*Mae'r Sefydliad, Sands a'r Gymdeithas Camesgor wedi drafftio canllawiau ar gyfer yr amgylchiadau hyn, sydd ar gael yn:*
*<http://www.iccm-uk.com/iccm/library/Miscarriages%20that%20occur%20at%20home%20final%208th%20June%202015.pdf>"*

*189.* Dywedodd Gyngor Bwrdeistref Kettering rywbeth tebyg:

*"Nid ydym wedi amlosgi heb dystysgrif. Cawsom un enghraifft lle daeth y fam i'r amlosgfa gyda ffetws ar ôl camesgor tra'r oedd ar wyliau yn y wlad hon. Fe wnaethom ei chyfeirio at Feddyg Teulu a ofalodd am y fam ac a ddarparodd y dogfennau angenrheidiol".*

**C35 - Pe bai amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos oed yn cael ei reoleiddio, beth ddylai'r broses o wneud cais fod mewn achosion lle nad oes tystysgrif feddygol?**

190. Atebodd bron i hanner yr ymatebwyr y cwestiwn hwn a theimlai bob un ohonynt y dylid cael tystysgrif feddygol er mwyn amlosgi ffetws llai na 24 wythnos oed. Er enghraifft, meddai'r ICCM:

*"Dylai'r broses a'r ffurflen gais fod yr un fath ag ar gyfer pob amlosgiad ffetws arall gyda'r llythyr gyda barn feddygol y sonnir amdano yn C34 uchod yn rhoi'r ardystiad angenrheidiol lle na ellir darparu unrhyw dystysgrif feddygol arall".*

191. Ym marn Cyngor Hull, *"Ein barn ni yw y dylid bob amser cynnwys dogfen awdurdodedig wedi'i llofnodi gan weithiwr meddygol proffesiynol gyda'r cais i gysylltu'r ffetws i gofnodion meddygol yr ysbyty".*

192. Dywedodd nifer o'r ymatebwyr, fel y FBCA, mai claddu ddylai fod yr unig opsiwn os nad oedd tystysgrif feddygol: *"Mae'n bosib yn yr amgylchiadau hyn na fyddai amlosgi'n bosib ac mai claddu fyddai'r unig opsiwn. Mae hyn yn rhywbeth y byddai angen i'r gweithgor ei ystyried yn eithaf manwl".*

**Ymateb a gweithredu arfaethedig**

- Fel y dywedwn yn yr adran flaenorol, cynigiwn ddod ag amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos oed o fewn sgôp Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008 a gofyn i'r gweithgor amlosgi cenedlaethol ystyried y manylion terfynol ar gyfer hyn. O ran amlosgi'n dilyn colli beichiogrwydd cyn 24 wythnos oed y tu allan i ysbyty, bydd y gweithgor yn ystyried:
    - Ei gwneud yn ofynnol bod cais i amlosgi ffetws llai na 24 wythnos oed yn cynnwys tystysgrif feddygol. Yn ymarferol, mae awdurdodau amlosgi eisoes yn gofyn am gadarnhad mai ffetws llai na 24 wythnos oed, yn hytrach na baban marw-anedig neu faban wedi'i eni'n fyw, sy'n cael ei amlosgi. Byddwn yn ystyried natur y dogfennau sydd eu hangen cyn drafftio'r ffurflen gais amlosgi, a'r canllawiau, yn derfynol ar gyfer rhieni mewn profedigaeth a rhai sy'n rhan o drefnu amlosgiad.
    - Canllawiau'n nodi beth ddylai rhiant ei wneud os nad oes tystysgrif feddygol.

<u>Pwy ddylai wneud cais i amlosgi ffetws llai na 24 wythnos oed</u>

**C36 - Ydych chi'n teimlo bod iaith Ffurflen Amlosgi 3, fel y'i disgrifir uchod, yn briodol o ran pwy sy'n gallu gwneud cais / cyfarwyddo ysbyty i wneud cais i amlosgi ffetws llai na 24 wythnos oed? Neu ydych chi'n meddwl y dylai deddfwriaeth ddiffinio pwy sydd â'r hawl i wneud cais? Eglurwch pam os gwelwch yn dda.**

193. Atebodd ddau o bob tri o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn gyda'r rhan fwyaf yn cytuno y byddai iaith Ffurflen Amlosgi 3 yn briodol ar gyfer amlosgi ffetws cyn 24 wythnos oed. Teimlai'r gweddill nad oedd y ffurflen yn briodol neu y dylai deddfwriaeth ddiffinio pwy allai wneud cais amlosgi.

194. Roedd barn y rhieni mewn profedigaeth a atebodd y cwestiwn hwn yn gymysg. Teimlai rhai y byddai'r ffurflen yn briodol ond teimlai eraill y dylai deddfwriaeth ddiffinio pwy allai wneud cais amlosgi. Tynnodd un rhiant sylw at fater a wynebodd rai rhieni pan ddywedodd "Dylai deddfwriaeth ddiffinio pwy sy'n gallu gwneud cais - mae rhieni'n aml yn cael eu gadael allan o'r rhan fwyaf o'r broses. *Ar y funud mae rhai trefnwyr angladdau'n gwrthod rhoi gwybodaeth i rieni heb ganiatâd yr ysbyty oherwydd mai'r ysbyty a wnaeth y cais".* Awgrymodd riant arall os oedd y fam o dan oed, y dylai oedolyn ddod gyda nhw.

195. Teimlai'r rhan fwyaf o'r awdurdodau amlosgi, awdurdodau lleol, cyrff gwirfoddol a'r gweithwyr meddygol a ymatebodd fod Ffurflen Amlosgi 3 yn briodol gydag un neu ddau'n teimlo y dylid cael diffiniad o bwy allai wneud cais amlosgi.

196. Dywedodd ddau ymatebwr - un meddygol ac un awdurdod lleol - na fyddai'r fam efallai am i'r tad gael ei gynnwys mewn achos o erthyliad.

**C37 - Ydych chi'n meddwl y dylai'r ffurflen gais amlosgi (ar gyfer unrhyw amlosgiad rheoledig, p'un ai'n faban marw-anedig, baban wedi'i eni'n fyw, plentyn neu oedolyn) ofyn bod rhywun nad yw'n aelod o deulu'r ymgeisydd ac nad yw'n rhan o'r trefniadau ar gyfer yr amlosgiad, wrthlofnodi'r ffurflen? Neu ydych chi'n meddwl y gallai hyn fod yn anymarferol, ac yn enwedig efallai ar ôl erthyliad neu golli baban yn fuan iawn yn ystod y beichiogrwydd?**

197. Atebodd tua thri chwarter yr ymatebwyr y cwestiwn hwn, gyda tua thri chwarter y rhai a atebodd yn dweud na fyddent o blaid bod angen gwrthlofnodi. Roedd hyn yn gyson ar draws yr ymatebwyr, gydag awdurdodau amlosgi ac awdurdodau lleol yn ymddangos i fod fwyaf yn erbyn

gwrthlofnodi. Roedd y farn nodweddiadol fel a ganlyn ac yn bennaf yn awgrymu y byddai gorfod gofyn i rywun wrthlofnodi'n anymarferol a beichus.

198. Meddai un rhiant mewn profedigaeth *"Byddai hyn yn anymarferol. Efallai na fyddwch mewn cyflwr i ofyn i unrhyw un wrthlofnodi, ac os ydych efallai y byddai'r person yn teimlo dan bwysau neu'n chwithig. Dylid diogelu cyfrinachedd y rhieni."*

199. Roedd Cyngor Bwrdeistref Kettering yn cytuno: *"Mae hyn yn anymarferol. Mewn nifer o achosion mae'r ffurflen yn cael ei chadw gan y trefnydd angladdau nid gan yr ymgeisydd, a byddai gofyn i rywun mewn profedigaeth ddelio â hyn yn faich diangen. Byddai'n debygol o fod yn broses er mwyn proses a gorfod gofyn i unrhyw un lofnodi."*

200. Yn ôl y NAFD *"Nid yw'r NAFD yn credu bod angen hyn, ac yn poeni y byddai gorfod dod o hyd i unigolyn addas yn rhoi baich ychwanegol ar rywun mewn profedigaeth. Fel yr awgryma'r cwestiwn, byddai'n arbennig o anodd a thrallodus mewn rhai achosion, gan gynnwys ar ôl camesgor neu erthyliad, neu lle cadwodd y fam y beichiogrwydd yn gyfrinach."*

201. Ychwanegodd un trefnydd angladdau *"Na, nid wyf yn meddwl bod angen i unigolyn na fyddai'n rhan o'r broses angladd wrthlofnodi'r ffurflen. Gyda ffurflenni cais cyn 2009, roedd angen i ddeiliad tŷ lofnodi oedd yn golygu naill ai cymydog neu rywun oedd yn pasio heibio. Byddai'n anodd ceisio dod o hyd i rywun diduedd ac wrth law i lofnodi ffurflen o'r fath (ac felly a allai gael ei gynnwys mewn unrhyw broblemau yn y dyfodol".*

202. Roedd y Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Golli Babanod yn cytuno: *Na." Byddai gwrthlofnod gan rywun o'r tu allan i'r teulu'n cymhlethu'r broses yn ddiangen."*

203. O'r rhai oedd o blaid y syniad o gael gwrthlofnod, awgrymodd rai y dylai fod yn wrthlofnod meddygol. Er enghraifft, meddai Sands:

*"Byddai gofyn bod y ffurflen gais amlosgi'n cael ei gwrthlofnodi gan rywun nad yw'n aelod o deulu'r ymgeisydd, sy'n gallu cadarnhau y rhoddwyd yr holl wybodaeth berthnasol i'r rhiant i wneud penderfyniad gwybodus, yn helpu i sicrhau bod caniatâd wedi'i roi'n briodol. Fodd bynnag, nid yw'n glir pam fod angen i'r person yma fod yn weithiwr proffesiynol na fyddai ganddynt unrhyw ran arall yn y trefniadau ar gyfer yr amlosgiad. Pwysigrwydd y gwrthlofnod yw er mwyn cadarnhau bod y rhieni'n gwneud penderfyniad hollol wybodus ac mae'n sefydlu atebolrwydd clir o ran y wybodaeth sydd wedi'i rhoi a'r penderfyniad sydd wedi'i wneud. Gallai gofyn i rywun heb unrhyw ran yn y mater wrthlofnodi'r ffurflen brofi'n ddiangen o feichus mewn rhai sefyllfaoedd."*

204. Ym marn Coleg Brenhinol y Patholegwyr *"Ystyrir bod gwrthlofnodi'n syniad da i sicrhau nad yw'r llofnod wedi cael ei ffugio, ond dylai fod yn dderbyniol i'r gwrthlofnod fod yn aelod o'r teulu neu'r tîm gofal clinigol."*

**Ymateb a gweithredu arfaethedig**

- Fel y dywedwn mewn adrannau blaenorol yn y ddogfen hon, cynigiwn ddod ag amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos oed o fewn sgôp Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008. Bydd y gweithgor amlosgi cenedlaethol yn ystyried manylion, ac yn benodol pwy ddylai wneud cais i amlosgi ffetws cyn 24 wythnos oed, ein cynigion sef:
    - Y dylai adran 'ymgeisydd' y ffurflen gais amlosgi cyn 24 wythnos oed fod yn seiliedig ar y ffurflen gais amlosgi ar gyfer babanod marw-anedig.
    - Na fydd gofyniad newydd i wrthlofnodi ffurflen gais amlosgi. Yn hytrach, bwriadwn gael blwch ar y ffurflen gais lle gall y rhiant / rhieni gadarnhau eu bod wedi trafod

gyda'r ysbyty / trefnydd angladdau a bod y ddau'n deall ac yn dymuno symud ymlaen gyda'r amlosgiad.

Cadw cofnodion o amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos oed

**C38 – A ddylai fod yn gyfreithiol ofynnol i awdurdodau amlosgi gofnodi amlosgi pob ffetws llai na 24 wythnos oed yn eu cofrestri? Os dylai, pa wybodaeth ddylai gael ei chofnodi o gofio bod eisiau cydbwyso'r angen i fod yn gallu olrhain amlosgiadau yn erbyn yr angen i ddiogelu cyfrinachedd rhieni mewn rhai achosion?**

205. Atebodd fwy na dau o bob tri o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd dros dri chwarter y rhai a atebodd o blaid ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau amlosgi sicrhau bod pob amlosgiad llai na 24 wythnos oed yn cael ei gofnodi yn eu cofrestri.

206. Roedd cytundeb ymhlith yr ymatebwyr y dylid diogelu cyfrinachedd y rhieni mewn achosion amlosgi (ar y cyd) oedd wedi'u trefnu gan yr ysbyty, ac y dylid sicrhau hyn wrth i'r ysbyty roi dim ond cyfeirif ysbyty unigryw'r rhieni i'r awdurdod amlosgi, yn hytrach nag enw. Fel hynny gallai'r rhieni olrhain yr amlosgiad nes ymlaen os oeddent yn dymuno.

207. Rhoddodd y FBCA a Chymdeithas Amlosgi Prydain fanylion am beth y dylid ei gofnodi yn y gofrestr:

*"Os yw amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos oed yn dod o fewn sgôp deddfwriaeth, dylai fod yn gyfreithiol ofynnol i bob Awdurdod Amlosgi gofnodi amlosgi babanod nad ydynt yn hyfyw. Rhaid i'r cofnod fod mewn cofrestr ar wahân.*

- *y rhif sy'n cael ei roi gan yr awdurdod amlosgi i'r amlosgiad;*
- *dyddiad yr amlosgiad;*
- *enw'r baban a / neu rif achos y GIG ar gyfer amlosgiad y ffetws llai na 24 wythnos oed;*
- *y dyddiad pryd y cafodd y ffetws llai na 24 wythnos oed ei esgor;*
- *yr ysbyty lle cafodd y ffetws llai na 24 wythnos oed ei esgor;*
- *enw a chyfeiriad, neu rif cais y GIG ar gyfer yr ymgeisydd os gwrthodir datgelu;*
- *enw a chyfeiriad unrhyw berson a wnaeth ddatganiad ar y cyfnod esgor ac nad oedd y ffetws yn dangos unrhyw arwydd o fywyd;*
- *enw a chyfeiriad unrhyw berson a archwiliodd y dystysgrif feddygol;*
- *os cafodd y llwch ei wasgaru neu gladdu, y dyddiad a lleoliad y llwch, ac os cafodd y llwch ei gasglu, y dyddiad a chan bwy"*

208. Roedd yr ICCM yn cytuno "Dylid cofnodi amlosgiad pob ffetws mewn cofrestr amlosgi statudol. *Lle trefnir amlosgiad preifat gan y rhiant / rhieni, dylid cofnodi enw(au) a chyfeiriad(au) y rhiant / rhieni. Lle mae angen cyfrinachedd, gellir cofnodi rhif achos yr ysbyty yn lle enw(au) a chyfeiriad(au) y rhiant neu rieni. Dylid cofnodi'r holl fanylion priodol eraill, gan gynnwys lle cafodd y ffetws ei esgor, gwaredu'r llwch, enw a chyfeiriad y person yn rhoi'r dystysgrif ayyb, yn y gofrestr".*

209. Roedd barn Cyngor Gateshead yn nodweddiadol o lawer o awdurdodau amlosgi eraill pan ddywedodd:

*"Dylid cofnodi amlosgiadau unigol. Ar gyfer amlosgi ar y cyd, dylai'r ysbyty ddarparu cyfeirif unigryw heb roi unrhyw fanylion eraill, a dylai'r Awdurdod Amlosgi gofnodi'r rhif hwn a lleoliad y llwch. Dylai'r ysbyty gadw pob gwybodaeth bersonol yn gyfrinachol. Os bydd ymholiad yn cael ei wneud yn y dyfodol, gall yr ysbyty gysylltu â'r awdurdod amlosgi'n dyfynnu'r cyfeirif unigryw i gael gwybod lle cafodd y llwch ei wasgaru. Dylid pasio cyn lleied o wybodaeth gyfrinachol ymlaen â phosib."*

210. Dywedodd Goleg Brenhinol y Patholegwyr rywbeth tebyg:

*“Ar gyfer amlosgi ar y cyd wedi’i drefnu gan yr ysbyty, dylai fod yn ofynnol i’r amlosgfa gofnodi’r cyfeirif unigryw, ond dienw, ar gyfer pob ffetws yn eu cofrestr, ynghyd â lleoliad unrhyw lwch cyfun. Bydd y cyfeirif yn diogelu pob agwedd ar gyfrinachedd ac yn cysylltu i gofnodion llawn yr ysbyty. Ar gyfer amlosgi preifat a drefnir gan y rhieni, dylid cofnodi’r un wybodaeth ag ar gyfer amlosgi oedolion.”*

211. Cyflwynodd un ymatebwr bersbectif caplan ei hysbyty, oedd yn debyg:

*“Ie, byddai’n briodol i awdurdodau amlosgi gofnodi amlosgiad pob ffetws drwy ddefnyddio cyfeirif unigryw. Fel Caplaniaid yn yr ysbyty hwn rydyn ni’n gweinyddu llawer o’r math yma o angladd heb gynnwys unrhyw Drefnydd Angladdau. Rydyn ni’n casglu’r ffetws, mewn blwch pwrpasol, o’r Corffty ac yn mynd â fo i’r Amlosgfa ar gyfer yr Angladd. Mae cyfenw’r fam yn cael ei roi i’r ffetws, e.e. Baban Jones, oni bai fod y rhieni wedi dewis enw arall ar gyfer y ffetws, e.e. Ifan Jones. Felly mae’r ffetws yn cael ei adnabod mewn un o ddwy ffordd. Rydyn ni hefyd yn cadw cofnodion ar gyfer y rhiant neu rieni, a'r dyddiad a’r math o angladd ac a ddaeth y rhiant neu rieni i’r angladd, neu a oeddent eisiau gwybod unrhyw beth amdano. Mae staff yn yr Amlosgfa leol yn mynnu ar fanylion cywir o ran enw’r fam a’r cyfeiriad cartref cyn y gall yr amlosgiad ddigwydd.”*

**C39 – Sut y dylai cofrestr amlosgi’r awdurdod amlosgi gysylltu i’r cofnod ysbyty perthnasol? A ddylai’r wybodaeth a gofnodir fod yn wahanol ar gyfer amlosgi a drefnir gan yr ysbyty, amlosgi a drefnir gan rieni, ac amlosgi ar y cyd, ac os felly sut?**

212. Atebodd ddau o bob tri o’r ymatebwyr y cwestiwn hwn, gyda bron i bob un o’r rheini’n dweud y dylai cofnodion yr awdurdod amlosgi, lle oedd hynny’n bosib, fod yr un fath ar gyfer amlosgi ffetysau cyn 24 wythnos oed ag ar gyfer amlosgiadau eraill. At ei gilydd teimlai’r ymatebwyr mai’r unig wahaniaeth ar gyfer amlosgi ffetysau cyn 24 wythnos oed a drefnir gan ysbyty (fel y mae’r atebion i gwestiwn 38 hefyd yn ei awgrymu) yw y dylai cofnod yr awdurdod amlosgi gysylltu i gofnod yr ysbyty dim ond drwy gyfeirif yr ysbyty. Dim ond y rhif neu’r cyfeirif hwn y dylai’r ysbyty ei roi (yn hytrach nag enw’r rhiant neu rieni neu fanylion adnabod eraill) i’r awdurdod amlosgi. Byddai hyn yn sicrhau y gellid olrhain yr amlosgiad a hefyd yn cadw cyfrinachedd y fam.

213. Yn ôl Cyngor Sir Essex *“er mwyn cysondeb a dealltwriaeth ar gyfer pobl mewn profedigaeth, dylai arferion a gweithdrefnau fod mor gyson a thebyg â phosib.”* Hefyd ym marn Cyngor Kirklees *“dylai’r wybodaeth a gofnodir fod yn gyson p’un ai y trefnir yr amlosgiad gan ysbyty, trefnydd angladdau neu aelod o’r teulu.”*

214. Meddai Cyngor Dinas Caerlŷr:

*“Dylai cofrestru amlosgi fod yn wahanol ar gyfer amlosgi ar y cyd ac amlosgiad unigol. Dylid cofnodi amlosgiadau unigol ar wahân yng nghofrestr Amlosgi’r NVF fel ar gyfer babanod marw-anedig. Dylai eirch yn cynnwys nifer o amlosgiadau ar y cyd gynnwys cyfeirif unigryw gan yr ysbyty, ar blât enw’r arch. Byddai’r cyfeirif hwn yn cysylltu’r holl ffetysau unigol i’r amlosgiad a gellid ei gofnodi felly yng nghofrestr Amlosgi’r NVF. Byddai’n rhoi trywydd archwilio o ran pa ffetysau gafodd eu hamlosgi, ble a phryd”.*

215. Teimlai rai o’r ymatebwyr y dylai awdurdod amlosgi gadw un gofrestr ar gyfer pob amlosgiad, gan nodi’r math o amlosgiad, ond teimlai eraill y dylai fod cofrestr ar wahân ar gyfer amlosgi ffetysau cyn 24 wythnos oed. Yn ôl un rhiant mewn profedigaeth *“Dylid enwi’r ysbyty yn y gofrestr – profodd hyn i fod yn ddefnyddiol yn Hull wrth geisio hel gwybodaeth”.*

**C40 – A fyddai gofyniad o'r fath i gadw cofnodion yn faich newydd ar awdurdodau amlosgi? Os byddai unrhyw oblygiadau cost, rhowch fanylion am ba gostau fyddai'n codi a faint y byddech yn disgwyl iddynt fod.**

216. Atebodd ychydig dros hanner yr ymatebwyr y cwestiwn hwn. O'r rhain dywedodd fwy na dau o bob tri na fyddai unrhyw faich ychwanegol yn codi o gofnodi amlosgi ffetysau cyn 24 wythnos oed. Dywedodd hanner yr ychydig a deimlai fel arall mai bach iawn fyddai unrhyw faich newydd, a'r hanner arall y gallai fod yn faich sylweddol.

217. Roedd barn yr ICCM a'r FBCA yn nodweddiadol o'r rhai a deimlai na fyddai baich ychwanegol. Yn ôl yr ICCM:

*"Na. Mae awdurdodau amlosgi eisoes yn cofrestru a chofnodi amlosgi ffetysau mewn cofrestr anstatudol ac yn cadw ffurflenni a thystysgrifau. Ni ddylai fod unrhyw faich ariannol mawr. Oherwydd bod y rhan fwyaf o amlosgfeydd yn defnyddio systemau gweinyddol cyfrifiadurol, gallai fod peth cost o ran addasu'r meddalwedd ond, yn ddelfrydol, dylai'r rhan fwyaf o'r prif gyflenwyr meddalwedd ddiwygio eu meddalwedd meistr a dosbarthu'r addasiadau fel diweddariad di-dâl."*

218. Awgrymodd yr FBCA *"Y dylai amlosgfeydd sy'n amlosgi ffetysau cyn 24 wythnos oed eisoes fod yn cofnodi'r wybodaeth [...] ac felly ni ddylai fod dim neu fawr ddim cost ychwanegol."*

219. O'r rhai a deimlai y gallai fod baich ychwanegol, awgrymodd un awdurdod lleol y byddai angen diweddaru'r systemau meddalwedd. Yn ôl Amlosgfa Medway: *"Credwn y byddai baich ychwanegol o brosesu gwaith papur, talu am ddatblygu meddalwedd, cofnodi data, storio cofnodion a sicrhau bod y data priodol yn cael ei gasglu gan ysbytai a chleifion."*

220. Awgrymodd ymatebwyr eraill mai dibwys fyddai unrhyw gost – yn codi o bethau fel cost papur, postio, llenwi'r gofrestr neu gadw dogfennau'n electronig, neu o storio copïau caled. Roedd gan y Westerleigh Group bwynt gwahanol i'w wneud sef y byddai baich ychwanegol yn codi os oedd mwy o amlosgiadau: *"Mae Westerleigh eisoes yn cadw'r cofnodion hyn ond byddai llawer mwy ohonynt yn creu cost ychwanegol".*

221. Awgrymodd Sands y gallai fod manteision o gadw cofnodion:

*"Er y bydd angen newid yr arferion cadw cofnodion os cyflwynir y mesurau hyn, mae'n debyg y byddent yn lleihau nifer y cwynion y mae awdurdodau amlosgi'n eu derbyn gan deuluoedd mewn profedigaeth am y materion hyn. Byddai effaith gadarnhaol a chlir o ran gofal hefyd, pan fyddai'r amlosgi'n digwydd ac mewn blynyddoedd i ddod pe bai'r rhieni eisiau siarad â'r awdurdod amlosgi i gael gwybod mwy am beth a ddigwyddodd i'w baban."*

**Ymateb a gweithredu arfaethedig**

- Fel y dywedwn mewn adrannau blaenorol, cynigiwn ddod ag amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos oed o fewn sgôp Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008.

- Bwriadwn wneud hyn ar ôl i'r gweithgor amlosgi cenedlaethol ystyried ymhellach y materion ymarferol sy'n cael eu codi gan yr ymgynghoriad. O ran cadw cofnodion ar gyfer amlosgi cyn 24 wythnos oed, bydd hyn yn cynnwys:

    - Gofyn bod yr awdurdod amlosgi'n cofnodi manylion wrth amlosgi pob ffetws llai na 24 wythnos oed. Bydd y rheoliadau'n caniatáu i awdurdodau amlosgi gofnodi cyfeirif unigryw'r ysbyty yn y gofrestr yn hytrach / yn ychwanegol at fanylion y rhieni ar gyfer amlosgi ar y cyd, yn ôl dymuniadau'r rhieni ym mhob achos.

- Nodwn ac rydym yn ddiolchgar am farn yr ymatebwyr am effaith y gofyniad hwn.

## 13 - Dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus

### C41 – Ydych chi’n meddwl y byddai unrhyw beth yn y ddogfen hon yn cael effaith anghymesur ar rai gyda nodwedd warchodedig? Os ydych, rhowch fanylion os gwelwch yn dda.

222. O’r rhai a atebodd, roedd tri chwarter yn credu nad oedd unrhyw beth yn y ddogfen a allai gael effaith anghymesur ar rai gyda nodwedd warchodedig. Dywedodd nifer fach nad oeddent yn deall y cwestiwn, neu nad oeddent yn siŵr a fyddai unrhyw effaith.

223. O’r rhai a ddywedodd eu bod yn teimlo y gallai fod effaith anghymesur, y pryder mwyaf oedd nad oedd y newidiadau arfaethedig yn creu tybiaeth ar ran teuluoedd, ysbytai neu rai yn y diwydiant angladdau mai amlosgi oedd yr unig opsiwn ar gyfer babanod neu blant bach. Roedd hyn yn bryder arbennig gan ysbytai lle’r oedd teuluoedd o grwpiau ffydd nad ydynt fel arfer yn amlosgi’n gofyn iddynt waredu babanod a ffetysau. Dywedodd un ysbyty y byddai’n well ganddynt gladdu yn lle amlosgi bob tro oherwydd y pryderon hyn. Dywedodd ymatebwr arall *“Dylai opsiwn o gladdu sensitif fod ar gael ochr yn ochr ag opsiwn amlosgi fel bod Mwslemiaid, Iddewon a rhai nad ydynt yn hoffi amlosgi’n gallu dewis opsiwn arall.”*

224. Ychwanegodd nifer fach o’r rhai a atebodd o blaid y gallai’r gofynion i rieni nodi'n benodol beth a ddylai ddigwydd i lwch eu baban effeithio’n andwyol ar famau gydag anableddau dysgu neu salwch meddwl. Fodd bynnag, o’r rhai a gododd y mater hwn roedd consensws, cyn belled â bod staff yr ysbyty neu’r amlosgfa’n gwneud yn siŵr bob tro eu bod yn fodlon bod y rhiant wedi deall y broses, nad oedd unrhyw effaith anghymesur yn debygol o fod.

225. Soniodd ymatebwyr eraill am yr effaith y gallai unrhyw gynnydd posib yng nghost amlosgi ac angladdau, o ganlyniad i gyflwyno arolygydd ar gyfer amlosgfeydd, ei chael ar deuluoedd ar incwm isel, ac a fyddai sefyllfa mamau benthyg, neu famau a ddefnyddiodd famau benthyg, yn cael eu heffeithio gan newidiadau i’r rheoliadau.

226. Mewn ymateb i C1, pwysleisiodd rai grwpiau ffydd a ymatebodd ba mor bwysig oedd parchu arferion gwahanol grefyddau, yn enwedig y gofyniad cyffredinol bod Mwslemiaid ac Iddewon yn claddu yn hytrach na’n amlosgi eu hanwyliaid.

### Ymateb a gweithredu arfaethedig

- Nid yw’n ymddangos bod angen gwneud unrhyw newid i’r mesurau arfaethedig a gyflwynir yn y ddogfen hon yng ngoleuni’r ymateb ynglŷn â nodweddion gwarchodedig. Bydd opsiynau eraill yn parhau i fod ar gael i rieni nad ydynt eisiau amlosgi, er enghraifft am resymau ffydd, a gellid ateb yr unig bryder arall o ran dealltwriaeth mamau o’r broses drwy gyfrwng canllawiau penodol yn y cod ymarfer arfaethedig.

**14 - Prawf teuluol**

**C42 – Ydych chi'n meddwl y bydd unrhyw beth yn y ddogfen hon yn cael effaith andwyol ar fywyd teuluol? Os ydych, rhowch fanylion os gwelwch yn dda.**

227. O'r rhai a atebodd, dywedodd ddau o bob tri nad oeddent yn teimlo y byddai unrhyw beth yn y ddogfen yn cael effaith andwyol ar fywyd teuluol. Roedd nifer fach o'r rhai a atebodd yn teimlo y byddai'r newidiadau sydd mewn golwg yn y ddogfen yn cael effaith gadarnhaol ar fywyd teuluol.

228. Dywedodd y rhan fwyaf o rieni mewn profedigaeth eu bod yn teimlo bod effaith andwyol eisoes wedi bod ar eu bywyd teuluol. Ni ddywedasant yn eu hymateb, fodd bynnag, y byddai unrhyw un o'n cynigion yn cael effaith negyddol ar fywyd teuluol yn gyffredinol. Awgrymodd Action 4 Ashes y gellid lleihau'r effaith ar fywydau teuluoedd profedigaethus pe bai'r Llywodraeth yn comisiynu ymchwiliad cenedlaethol, fel yr Ymchwiliad yn yr Alban gan y Comisiwn Amlosgi Babanod, i ymchwilio i achosion hanesyddol unigol.

229. O'r rhai a atebodd "ie", cododd y nifer fwyaf bryderon y gallai'r pwyslais penodol ar dryloywder a dewis yn y cynigion gael effaith negyddol ar deuluoedd nad oeddent arnynt eisiau dim i'w wneud â gwaredu gweddillion eu baban. Pwysleisiodd y rhai a gododd y pwynt hwn fod yn rhaid i rieni hefyd gael y dewis o ymneilltuo o'r broses ac aros yn ddienw os oeddent yn dymuno, yn enwedig mewn achosion o erthyliad, ac y gallai methu â chaniatáu hyn achosi trallod ychwanegol i'r teuluoedd hynny.

230. Teimlai nifer fach y byddai effaith ar fywyd teuluol pe bai'r cynigion yn y ddogfen yn arwain at gynnydd mewn costau angladd, yn enwedig i deuluoedd ar incwm isel neu deuluoedd nad oeddent yn gymwys i dderbyn cymorth gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).

231. Cyfeiriodd Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Belffast at ddwy broblem y daethant ar eu traws (yng Ngogledd Iwerddon, sy'n gweithredu o dan ddeddfwriaeth amlosgi wahanol i Gymru a Lloegr) lle gallai fod yn fanteisiol, meddent, darparu canllawiau er mwyn lleihau'r effaith bosib ar deuluoedd lle'r oedd y problemau hyn yn codi. Y broblem gyntaf oedd lle nad oedd cyplau dibriod neu wedi gwahanu'n cytuno ar y dull o waredu. Yr ail oedd lle'r oedd pobl ifanc dan oed (mamau rhwng 13-15 oed fel arfer) eisiau llenwi'r gwaith papur eu hunain, neu lle'r oeddent yn anghytuno â'u teulu neu deulu'r tad, a ddylid amlosgi neu gladdu'r baban.

**Ymateb a gweithredu arfaethedig**

- Nid yw'n ymddangos bod angen gwneud unrhyw newid i'r mesurau arfaethedig a gyflwynir yn y ddogfen hon yng ngoleuni'r ymateb ynglŷn â bywyd teuluol. Roedd y ffocws yn bennaf ar famau'n gallu ymneilltuo o'r broses ac aros yn ddienw os oeddent yn dymuno. Gellid cynnwys canllawiau ar y mater hwn, ac ar faterion eraill a allai effeithio ar deuluoedd, yn y cod ymarfer arfaethedig.

- Rydym ni o'r farn y byddai'n well ymrwymo adnoddau prin y Llywodraeth i wella arferion amlosgi babanod yn genedlaethol yn y dyfodol, gan adeiladu ar yr ymgynghoriad hwn ac ar adroddiadau Emstrey a'r Comisiwn Amlosgi Babanod. Rydym yn cefnogi hen ymchwiliadau lleol.

## Casgliad a'r camau nesaf

Mae’r adran hon yn dwyn ynghyd y gweithredu arfaethedig ar gyfer pob un o feysydd yr ymgynghoriad a osodir allan yn yr adran ‘ymatebion i gwestiynau penodol’ uchod:

**C1. Sylwadau cyffredinol ar y broses amlosgi**

- Oherwydd nad oedd yr ymatebion i’r cwestiwn cychwynnol hwn yn awgrymu unrhyw broblemau amlwg, ni fwriadwn ar hyn o bryd weithredu ar unrhyw bwyntiau penodol a godwyd.

**C2 i C4 – Diffiniad o lwch**

- Cynigiwn ddiwygio’r rheoliadau amlosgi i gynnwys diffiniad statudol newydd o lwch fel popeth sydd ar ôl yn yr amlosgydd ar ddiwedd y broses amlosgi ac ar ôl tynnu unrhyw fetel allan.

- Byddwn yn gofyn i’r gweithgor amlosgi cenedlaethol ystyried pa ddarpariaeth i’w gwneud ar gyfer unrhyw fetel – na fydd yn cael ei ystyried fel llwch o dan ein diffiniad ni – a allai fod yn yr amlosgydd.

**C5 i C8 - Casglu a gwasgaru llwch**

- Cynigiwn ddiwygio’r ffurflen gais amlosgi i ychwanegu adran newydd lle gall yr ymgeisydd nodi beth a ddylai ddigwydd i’r llwch, gyda’r opsiynau canlynol yn cael eu cynnig: 1) llwch i’w wasgaru neu gladdu yn yr amlosgfa, 2) llwch i’w gasglu o’r amlosgfa, 3) llwch i’w gadw hyd nes y bydd yr ymgeisydd wedi gwneud penderfyniad. Cynigiwn wedyn gael blwch lle gall yr ymgeisydd roi manylion pellach – fel:

    - O dan opsiwn 1, a ydynt eisiau i rywun fod yn dyst i wasgaru’r llwch a / neu ble maen nhw eisiau i’r llwch gael ei wasgaru (er enghraifft, ble ar dir yr amlosgfa, ac efallai gydag amserlen bosib ar gyfer gwasgaru i’w nodi ar y ffurflen)

    - O dan opsiwn 2, a fydd y llwch yn cael ei gasglu gan yr ymgeisydd, neu gan rywun arall fel aelod o’r teulu / ffrind (fel y bydd wedi’i nodi)

    - O dan opsiwn 3, lle ac am ba hyd y dylid cadw’r llwch hyd nes y bydd penderfyniad wedi’i wneud (gallai hyn gael ei benderfynu’n lleol yn ôl arfer yr awdurdod amlosgi neu’r trefnydd angladdau).

  - Cynigiwn y bydd y ffurflen yn dweud bod yr ymgeisydd yn cael newid eu meddwl, a hyn i’w gadarnhau’n ysgrifenedig gyda llofnod, ar unrhyw adeg cyn y gweithredir y dewis gwreiddiol (gydag opsiwn 1 neu 2) a bod unrhyw benderfyniad a wneir nes ymlaen o dan opsiwn 3 hefyd yn cael ei gadarnhau yn yr un modd.

  - Ni chynigiwn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau amlosgi anfon copi o’r gofrestr amlosgi i’r ymgeisydd bob tro, oherwydd byddai hyn yn faich newydd a diangen yn ein barn ni oherwydd mae’r gofrestr ar gael drwy wneud cais, ac mae penderfyniad yr ymgeisydd hefyd yn cael ei gofnodi ar y ffurflen gais. Mae Rheoliad 35 yn Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) eisoes yn caniatáu i awdurdod amlosgi roi copi o’r gofrestr neu’r ddogfen i rywun.

**C9 - Os nad yw llwch yn cael ei gasglu**

- Cynigiwn ddiwygio'r ffurflen gais amlosgi i gynnwys cyfarwyddiadau'r ymgeisydd o ran beth a ddylai ddigwydd i'r llwch. O ystyried y gwahaniaeth barn ynghylch am ba hyd y dylid cadw'r llwch (gan drefnwyr angladdau ac awdurdodau amlosgi), ni chynigiwn gyflwyno rheoliadau newydd yn nodi amser penodol (ar wahân i'r hyn sydd eisoes wedi'i nodi yn rheoliad 30).

- Byddwn yn gofyn i'r gweithgor amlosgi ystyried ac argymell pa amserlen y dylid ei nodi mewn cod ymarfer.

**C10 a C11 – Lle nad oes unrhyw lwch**

- Cynigiwn ddiwygio'r ffurflen gais amlosgi i ychwanegu adran yn dweud er y gwneir pob ymdrech i hel llwch, mewn achosion prin efallai na fydd llwch i'w hel, gyda blwch i'r ymgeisydd ei dicio'n cadarnhau eu bod yn deall y datganiad hwn.

- Byddwn yn gofyn i'r gweithgor cenedlaethol ystyried sut orau i ddweud wrth ymgeiswyr os na chafodd llwch ei hel, a phwy ddylai gysylltu â'r ymgeisydd, ar sail yr ymarfer gorau presennol. Dylid cynnwys hyn mewn cod ymarfer.

**C12 a C13 – Cadw cofnodion gan awdurdodau amlosgi**

- Cynigiwn ddiwygio Rheoliad 34, gan gadw'r gofynion presennol i ddogfennau gael eu cadw am 15 mlynedd a chaniatáu i hyn gael ei wneud yn electronig neu fel copi caled. Cynigiwn ddileu'r gofyniad presennol i awdurdod amlosgi gadw copi caled am ddwy flynedd hyd yn oed lle mae copi electronig hefyd.

- Byddwn yn gofyn i'r gweithgor cenedlaethol ystyried a ddylai'r codau ymarfer ar gyfer amlosgi nodi safon i gadw dogfennau am fwy na 15 mlynedd.

**C14 a C15 – Penodi arolygydd**

- Byddwn yn gofyn i'r gweithgor amlosgi cenedlaethol ystyried sut y gallai arolygydd gyfrannu at barhau i wella arferion amlosgi, ochr yn ochr â'r rheoliadau a'r codau ymarfer newydd a osodir allan yn y ddogfen hon. Bydd y gweithgor yn ystyried pa fesurau ychwanegol sydd eu hangen i wella safonau, sut i roi'r safonau hyn yn eu lle a sut orau i asesu a yw'r safonau'n cael eu cwrdd. Byddwn hefyd yn gofyn i'r gweithgor ystyried cost a sut i ariannu rôl yr arolygydd.

- Bydd y Llywodraeth yn gwneud penderfyniad ar benodi arolygydd neu beidio (ac os felly beth fydd natur y rôl a sut y bydd yn cael ei hariannu) yng ngoleuni casgliadau'r gweithgor.

**C16 - Gweithgor amlosgi cenedlaethol**

- Byddwn yn sefydlu'r gweithgor amlosgi cenedlaethol gyda golwg ar gytuno ar ei gylch gorchwyl yng nghyfarfod cyntaf y gweithgor. Bydd hyn yn cynnwys a ddylai'r gweithgor edrych ar amlosgi'n gyffredinol (efallai yng nghyswllt materion penodol) yn ogystal ag amlosgi babanod. Fodd bynnag, blaenoriaeth y gweithgor fydd amlosgi babanod.

- Fel bo'r gweithgor yn gallu trafod ymarfer gorau ym mhob agwedd ar y broses amlosgi, gan hefyd ystyried bod angen gwneud y gweithgor yn effeithiol a hawdd ei reoli o ran maint, bwriadwn wahodd cynrychiolwyr o'r canlynol:

    - y diwydiant amlosgi;

    - y diwydiant angladdau;

- gweithwyr meddygol proffesiynol sy’n delio gyda rhieni a gollodd fabanod yn ystod beichiogrwydd;
- adrannau eraill o’r llywodraeth gyda budd mewn amlosgi;
- cyrff gwirfoddol sy’n cefnogi rhieni mewn profedigaeth.

**C17 - Hyfforddi staff amlosgfeydd a threfnwyr angladdau**

- Roedden ni’n dweud yn y ddogfen ymgynghori mai ein bwriad oedd gwneud ystyried yr argymhellion hyn yn rhan o gylch gwaith y gweithgor amlosgi cenedlaethol:
    - adolygu'r cynnydd sydd wedi’i wneud yn barod;
    - gweld lle mae angen gwneud gwaith pellach neu addasiadau yng nghyd-destun Cymru a Lloegr; ac
    - ystyried a ddylid cynnwys hyfforddiant ac achredu mewn cod ymarfer ar gyfer y diwydiant.
- Yng ngoleuni’r ymatebion i’r ymgynghoriad, dyma ein bwriad o hyd, a’r ffordd ymlaen sydd orau gennym yw codau ymarfer anstatudol yn nodi beth yw gofynion hyfforddiant ac achredu’r diwydiant ar gyfer staff amlosgi.

**C18 a C19 - Codau ymarfer a datganiad polisi awdurdodau amlosgi**

- Byddwn yn gofyn i’r gweithgor amlosgi cenedlaethol lunio cod ymarfer gyda phenodau ar wahân ar gyfer amlosgi babanod; amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos oed (gan gynnwys amlosgi ar y cyd); codau ymarfer technegol; ac (fel blaenoriaeth lai) amlosgiadau nad ydynt yn rhai babanod (plant ac oedolion).

- Cynigiwn gyhoeddi’r cod ymarfer ar-lein (gydag adrannau gwahanol y gellir eu cyhoeddi ar wahân) a gofyn i’r gweithgor gytuno ar ba fesurau eraill i’w rhoi yn eu lle i sicrhau bod y cod yn cael ei ledaenu yn y ffordd fwyaf effeithiol a phriodol i’r rhai sydd angen bod fwyaf ymwybodol ohono – yn enwedig awdurdodau amlosgi, trefnwyr angladdau, pobl mewn profedigaeth, cyrff gwirfoddol a gweithwyr meddygol proffesiynol.

**C20 - Gwybodaeth a chanllawiau i rieni mewn profedigaeth**

- Bydd y gweithgor hefyd yn ystyried sut orau i ledaenu gwybodaeth i rieni mewn profedigaeth sy’n ystyried amlosgi.

**C21 i C26 - Amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos oed (ffetysau ‘cyn 24 wythnos oed’)**

- Gallwn gadarnhau nad oes cynlluniau i newid yr arferion presennol lle gall rhiant ddewis a ydynt am amlosgi, claddu, llosgi neu beidio â chael unrhyw ran mewn penderfynu pa drefniadau i’w gwneud a gofyn i’r ysbyty wneud y trefniadau.

- Cynigiwn ddod ag amlosgi ffetysau cyn 24 wythnos oed o fewn sgôp Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008.

- Oherwydd na fydd hyn yn fater syml o ehangu’r rheoliadau presennol, byddwn yn ystyried ymhellach y problemau ymarferol a godir yn yr ymgynghoriad hwn cyn cytuno’n derfynol ar y rheoliadau a’r ffurflenni cysylltiedig, gyda golwg ar weithredu’r newidiadau yn 2017.

**C27 i C33 - Ffurflen gais a phroses ar gyfer amlosgi ffetws llai na 24 wythnos oed**

- Cynigiwn gael ffurflen gais statudol ar gyfer ffetysau cyn 24 wythnos oed a byddwn yn gofyn i'r gweithgor amlosgi cenedlaethol ystyried manylion hyn. Bydd hyn yn cynnwys y canlynol:
    - A ddylid cael ffurflenni ar wahân (neu un ffurflen gydag adrannau gwahanol) ar gyfer amlosgi unigol ac amlosgi ar y cyd.
    - Adran yn nodi na fydd, mewn rhai achosion, unrhyw lwch i'w hel ac yn gofyn i'r rhieni gadarnhau eu bod yn deall hyn ac yn hapus i fwrw ymlaen gyda'r amlosgiad.
    - Ar gyfer amlosgiadau unigol - adran yn rhoi'r opsiynau ar gyfer y llwch ar ôl amlosgi ac yn cadarnhau bod y rhieni'n deall hyn, ac yn nodi beth y mae'r rhieni am ei wneud gyda'r llwch.
    - Ar gyfer amlosgi ar y cyd - testun yn egluro na fydd ymgeiswyr yn derbyn unrhyw lwch yn ôl, blwch testun rhydd yn nodi beth fydd yn cael ei wneud gyda'r llwch (e.e. ble y byddant yn cael eu gwasgaru); ac adran i rieni gadarnhau eu bod yn fodlon gyda hyn a'u bod eisiau bwrw ymlaen.
    - Blwch yn cadarnhau bod ffurflen feddygol wedi'i chynnwys gyda'r cais yn cadarnhau bod y ffetws yn llai na 24 wythnos oed (gweler hefyd yr adran nesaf yn y ddogfen hon).
- Byddwn yn ystyried geiriad priodol ac i gynorthwyo hyn byddwn yn ystyried y ffurflenni anstatudol a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer amlosgi ffetysau cyn 24 wythnos oed.

**C34 a C35 - Amlosgi'n dilyn colli beichiogrwydd cyn 24 wythnos oed y tu allan i ysbyty**

- Cynigiwn ddod ag amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos oed o fewn sgôp Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008 a gofyn i'r gweithgor amlosgi cenedlaethol ystyried y manylion terfynol ar gyfer hyn. O ran amlosgi'n dilyn colli beichiogrwydd cyn 24 wythnos oed y tu allan i ysbyty, bydd y gweithgor yn ystyried:
    - Ei gwneud yn ofynnol bod cais i amlosgi ffetws llai na 24 wythnos oed yn cynnwys tystysgrif feddygol. Yn ymarferol, mae awdurdodau amlosgi eisoes yn gofyn am gadarnhad mai ffetws llai na 24 wythnos oed, yn hytrach na baban marw-anedig neu faban wedi'i eni'n fyw, sy'n cael ei amlosgi. Byddwn yn ystyried natur y dogfennau sydd eu hangen cyn drafftio'r ffurflen gais amlosgi, a'r canllawiau, yn derfynol ar gyfer rhieni mewn profedigaeth a rhai sy'n rhan o drefnu amlosgiad.
    - Canllawiau'n nodi beth ddylai rhiant ei wneud os nad oes tystysgrif feddygol.

**C36 a C37 - Pwy ddylai wneud cais i amlosgi ffetws llai na 24 wythnos oed**

- Cynigiwn ddod ag amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos oed o fewn sgôp Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008. Bydd y gweithgor amlosgi cenedlaethol yn ystyried manylion, ac yn benodol pwy ddylai wneud cais i amlosgi ffetws cyn 24 wythnos oed, ein cynigion sef:
    - Y dylai adran 'ymgeisydd' y ffurflen gais amlosgi cyn 24 wythnos oed fod yn seiliedig ar y ffurflen gais amlosgi ar gyfer babanod marw-anedig.
    - Na fydd gofyniad newydd i wrthlofnodi ffurflen gais amlosgi. Yn hytrach, bwriadwn gael blwch ar y ffurflen gais lle gall y rhiant / rhieni gadarnhau eu bod wedi trafod

gyda'r ysbyty / trefnydd angladdau a bod y ddau'n deall ac yn dymuno symud ymlaen gyda'r amlosgiad.

**C38 i C40 - Cadw cofnodion o amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos oed**

- Fel y dywedwn mewn adrannau blaenorol, cynigiwn ddod ag amlosgi ffetysau llai na 24 wythnos oed o fewn sgôp Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008.

- Bwriadwn wneud hyn ar ôl i'r gweithgor amlosgi cenedlaethol ystyried ymhellach y materion ymarferol sy'n cael eu codi gan yr ymgynghoriad. O ran cadw cofnodion ar gyfer amlosgi cyn 24 wythnos oed, bydd hyn yn cynnwys:

    - Gofyn bod yr awdurdod amlosgi'n cofnodi manylion wrth amlosgi pob ffetws llai na 24 wythnos oed. Bydd y rheoliadau'n caniatáu i awdurdodau amlosgi gofnodi cyfeirif unigryw'r ysbyty yn y gofrestr yn hytrach / yn ychwanegol at fanylion y rhieni ar gyfer amlosgi ar y cyd, yn ôl dymuniadau'r rhieni ym mhob achos.

**C41 - Dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus**

- Nid yw'n ymddangos bod angen gwneud unrhyw newid i'r mesurau arfaethedig a gyflwynir yn y ddogfen hon yng ngoleuni'r ymateb ynglŷn â nodweddion gwarchodedig. Bydd opsiynau eraill yn parhau i fod ar gael i rieni nad ydynt eisiau amlosgi, er enghraifft am resymau ffydd, a gellid ateb yr unig bryder arall o ran dealltwriaeth mamau o'r broses drwy gyfrwng canllawiau penodol yn y cod ymarfer arfaethedig.

**C42 – Prawf teuluol**

- Nid yw'n ymddangos bod angen gwneud unrhyw newid i'r mesurau arfaethedig a gyflwynir yn y ddogfen hon yng ngoleuni'r ymateb ynglŷn â bywyd teuluol. Roedd y ffocws yn bennaf ar famau'n gallu ymneilltuo o'r broses ac aros yn ddienw os oeddent yn dymuno. Gellid cynnwys canllawiau ar y mater hwn, ac ar faterion eraill a allai effeithio ar deuluoedd, yn y cod ymarfer arfaethedig.

- Rydym ni o'r farn y byddai'n well ymrwymo adnoddau prin y Llywodraeth i wella arferion amlosgi babanod yn genedlaethol yn y dyfodol, gan adeiladu ar yr ymgynghoriad hwn ac ar adroddiadau Emstrey a'r Comisiwn Amlosgi Babanod. Rydym yn cefnogi hen ymchwiliadau lleol.

## Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu gyda rhanddeiliaid, wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth, wedi eu nodi yn yr egwyddorion ymgynghori.

https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance

## Atodiad A - Rhestr o'r ymatebwyr

**Teuluoedd mewn Profedigaeth**

Carol Allum – Action 4 Ashes

Ruth Allum – Action 4 Ashes

Louise Barrett

Judith Drury - Action 4 Ashes Hull

Jenny Fox

Edward Gough – Action 4 Ashes

Michelle Gough – Action 4 Ashes

Patricia Jones

Laura a Paul Morris – Action 4 Ashes

Glen Perkins - Action 4 Ashes

Lisa Thorpe

Tina a Mike Trowhill

**Elusennau a Chyrff Gwirfoddol**

Gofal Profedigaeth Cruse

Y Gynghrair Profedigaeth Genedlaethol

Quaker Social Action

Sands (Marwolaethau Marw-Anedig a Newydd-Anedig)

Y Lullaby Trust

**Gwasanaethau Amlosgi (Awdurdodau Lleol a Gwasanaethau Preifat)**

Y Gymdeithas Amlosgfeydd a Mynwentydd Preifat

Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Barnsley

Cyngor Blackpool

Awdurdod Amlosgi Bracknell Forest

Dignity

Cyngor Sir Durham

Cyngor Sir Essex

Ffederasiwn yr Awdurdodau Claddu ac Amlosgi (FBCA)

Cyngor Gateshead

Cyngor Bwrdeistref Hartlepool

Cyngor Hull

Y Sefydliad Rheoli Amlosgfeydd a Mynwentydd (ICCM)

Cyngor Bwrdeistref Kettering

Cyngor Kirklees

Cyngor Dinas Caerlŷr

Y Gymdeithas Llywodraeth Leol

Cyngor ac Amlosgfa Medway

Cyngor Sir Benfro

Cyngor Sir Amwythig

Cyngor South Tyneside

Amlosgfa Abertawe

Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Tameside

Cymdeithas Amlosgi Prydain

**Trefnwyr Angladdau**

Gwasanaethau Angladdau Caerffili

Co-operative Funeralcare

Freeman Brothers

Cymdeithas y Gwneuthurwyr Dodrefn Angladdau

Gwasanaethau Angladd F.W. Cook

J J Burgess & Sons

Cymdeithas Genedlaethol y Trefnwyr Angladdau

Trefnwyr Angladdau Philip Blatchly & Son

Gwasanaethau Angladdau Shoobridge

Westerleigh Group

**Sefydliadau Meddygol**

Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Belffast

Cymdeithas Patholeg Bediatregol Prydain ac Iwerddon

Ymddiriedolaeth Sefydledig Ysbyty Prifysgol Colchester

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

Ymddiriedolaeth Iechyd GIG Sefydledig Gateshead

Human Developmental Biology Resource

Rhwydwaith Clinigol Strategol Mamolaeth Llundain

Ysbyty Rhanbarth Midland

Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Prifysgol Nottingham

Ysbyty'r Frenhines Alexandra

Ysbyty'r Frenhines Elizabeth, Kings Lynn

Coleg Brenhinol y Patholegwyr

Coleg Brenhinol y Bydwragedd

Ysbyty Coleg Prifysgol Llundain

**Aelodau Seneddol / Grwpiau Seneddol / Adrannau'r Llywodraeth**

Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Golli Babanod

Victoria Prentis AS

Y Swyddfa Gartref

**Grwpiau Ffydd**

Al-Khoei Foundation

Bwrdd Dirprwyon Iddewon Prydain

Y Grŵp Eglwysig ar Wasanaethau Angladdau mewn Mynwentydd ac Amlosgfeydd

Y Sefydliad Jainoleg (Cyfarwyddwr)

Y Sefydliad Jainoleg (Dirprwy Gadeirydd)

Undeb Cenedlaethol yr Ysbrydegwyr

**Eraill**

Cymdeithas Crwneriaid Cymru a Lloegr

Swyddfa Crwner Exeter & Greater Devon

Robert J Gilmore

Heddlu Manceinion Fwyaf

Dawn Johnson

Terence Jolley

Heddlu Sir Gaerhirfryn (Swyddfa'r Crwner)

Lily Lewy

Ombwdsmon Llywodraeth Leol

Lisa Smith

Kenneth John West MBE

OGL

**© Hawlfraint y Goron 2016**

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau fersiwn 3.0 y Drwydded Llywodraeth Agored, ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle'r ydym wedi nodi deunydd gyda hawlfraint trydydd parti, bydd angen ichi ofyn am ganiatâd gan y rhai sy'n dal yr hawlfraint honno.

Mae fersiynau o'r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill drwy wneud cais i coroners@justice.gsi.gov.uk.